
# Adroddiad Blynyddol 2007/8

Ofcom
Y SWYDDFA GYFATHREBIADAU



## PRIF SWYDDFEYDD OFCOM


### LLOEGR
Tŷ Riverside
2a Heol Bont Southwark
Llundain SE1 9HA
T 020 7981 3000
neu 0300 123 3000
Ff 020 7981 3333

### YR ALBAN
Tŷ Sutherland
149 Stryd St Vincent
Glasgow G2 5NW
T 0141 229 7400
Ff 0141 229 7433

### CYMRU
2 Pentir Caspian
Ffordd Caspian
Caerdydd CF10 4DQ
T 029 2046 7200
Ff 029 2046 7233

### GOGLEDD IWERDDON
Tŷ Landmark
5 Cei Cromac
Y Gweithfeydd Nwy
Heol Ormeau
Belfast BT7 2JD
T 028 9041 7500
Ff 028 9041 7533

### TÎM CYNGHORI OFCOM
T 020 7981 3040
neu 0300 123 3333
neu 020 7981 3042 (Cymraeg)



Cynlluniwyd gan
WonderlandWPA Llundain
a Stills Caerdydd

OF420 (Gorffennaf 2008)

Y SWYDDFA GYFATHREBIADAU

2 Pentir Caspian
Ffordd Caspian
Caerdydd CF10 4DQ

Switsfwrdd +44 (0)29 2046 7200
Ffacs +44 (0)29 2046 7233

www.ofcom.org.uk

Tŷ Riverside
2A Heol Bont Southwark
Llundain SE1 9HA

Switsfwrdd +44 (0)20 7981 3000
Ffacs +44 (0)20 7981 3333

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ofcom ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2007 i 31 Mawrth 2008

Ofcom
Y SWYDDFA GYFATHREBIADAU

# Cynnwys

## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ofcom ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2007 i 31 Mawrth 2008

© Hawlfraint Ofcom 2008

Gellir atgynhyrchu'r cynnwys yn y ddogfen hon (ond dim logo Ofcom) mewn unrhyw ffordd am ddim, ond iddo gael ei hatgynhyrchu'n gywir a heb ei ddefnyddio mewn unrhyw ffordd gamarweiniol. Rhaid cydnabod y wybodaeth fel hawlfrant Ofcom a rhaid nodi teitl y ddogfen.

## A CYFLWYNIAD
4 Neges y Cadeirydd
6 Adroddiad y Prif Weithredwr

## B MEYSYDD GWEITHGARWCH CRAIDD
11 Hyrwyddo dull o ddelio â sbectrwm sy'n seiliedig ar y farchnad
14 Hybu cystadlu ac arloesi mewn marchnadoedd sy'n cydgyfeirio
16 Gwella cydymffurfio a grymuso dinasyddion a defnyddwyr
20 Sicrhau canlyniadau i'r cyhoedd wrth i lwyfannau a gwasanaethau gydgyfeirio
25 Lleihau rheoleiddio a beichiau gweinyddol
26 Dylanwadu i'r graddau mwyaf posibl ar ddatblygiad polisi rhyngwladol

## C ADOLYGIAD GWEITHREDU AC ADOLYGIAD ARIANNOL
29 Perfformio a gwerthuso
35 Data ystadegol
45 Perfformiad ariannol

## D DATGANIAD O GYFRIFON A LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL
48 Rhagair
52 Bwrdd Ofcom
54 Llywodraethu Corfforaethol
55 Pwyllgorau'r Bwrdd
58 Pwyllgorau heblaw rhai'r bwrdd
60 Datganiad o gyfrifoldebau
61 Datganiad am reolaeth fewnol
65 Adroddiad tâl

## E CYFRIFON AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL 2007 I 31 MAWRTH 2008
72 Tystysgrif ac Adroddiad Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol y Senedd
74 Cyfrif Incwm a Gwariant
75 Datganiad o Gyfanswm yr Enillion a Cholledion Cydnabyddiedig
76 Y Fantolen
77 Datganiad Llif Arian
78 Nodiadau i'r Cyfrifon

Neges y Cadeirydd



# David Currie

## Mae mwy byth o ddinasyddion a defnyddwyr Prydain wedi cymryd at wasanaethau cyfathrebu digidol y genhedlaeth bresennol.

**Mae teledu digidol gan naw aelwyd ym mhob deg yng ngwledydd a rhanbarthau'r DU erbyn hyn. Mae gan y rhan fwyaf o aelwydydd gysylltiadau band eang sy'n rhedeg yn gyflymach a'u prisiau'n gostwng, ac maent ar gael yn fwy eang nag mewn unrhyw economi ddatblygedig fawr arall. Mae'r defnydd o Edge, Wi-Fi a ffonau symudol 3G wedi hybu'r twf aruthrol mewn band eang symudol. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae Ofcom wedi dal i oruchwylio a hybu'r farchnad gystadleuol sy'n dod â'r manteision hyn.**

Ond rydym hefyd wedi dechrau edrych ymlaen at y genhedlaeth nesaf o wasanaethau digidol: band eang cyflym iawn i ddefnyddwyr preswyl a busnes, teledu digidol diffiniad uchel a gwasanaethau di-wifr newydd.

### Band eang genhedlaeth nesaf

Mae Ofcom wedi ymdrin â'r materion sy'n gysylltiedig â rheoleiddio er mwyn hybu buddsoddi cystadleuol ym mand eang y genhedlaeth nesaf. Bydd y penderfyniad masnachol i fuddsoddi wedi'i bennu gan lawer o ffactorau. Oherwydd hynny, rydym yn cydweithio'n agos ag adolygiad y Llywodraeth sydd dan arweiniad Francesco Caio er mwyn rhoi sylw cynhwysfawr i'r holl faterion ar yr ochr cyflenwi.

### Teledu Diffiniad Uchel

Mae teledu diffiniad uchel drwy loeren ac yn fwy diweddar drwy gebl yn ganlyniad yn llwyr i fuddsoddi ac arloesi masnachol er mwyn gwasanaethu cwsmeriaid y gwahanol gwmnïau'n well. Fodd bynnag, mae teledu daearol digidol (DTT) wedi'i gyfyngu gan faint y sbectrwm sydd ar gael. Ac ymhell i'r flwyddyn sydd newydd fynd heibio, roedd llawer o arbenigwyr yn dal i ddadlau na ellid darparu ar gyfer teledu diffiniad uchel o fewn y sbectrwm sydd ar gael ar hyn o bryd. Serch hynny, mae'r ateb sydd wedi'i gynnig gan Ofcom wedi'i dderbyn gan lawer bellach a bydd yn caniatáu tri slot sy'n addas i sianelau diffiniad uchel o'r flwyddyn nesaf a phedwerydd yn 2012. Bydd Ymddiriedolaeth y BBC yn goruchwylio'r broses o lansio gwasanaeth diffiniad uchel y BBC ar deledu daearol digidol a bydd Ofcom yn cynnal y broses ddethol ar gyfer y slotiau eraill. Pan ddaw'r broses i ben, bydd mwy o ddewis gan wylwyr, heb orfod disgwyl am y posibilrwydd o ddarparu sbectrwm newydd ar draws y wlad ar ôl y newid i deledu digidol.

### Darlledu gwasanaeth cyhoeddus

Maes lle bydd y Llywodraeth a'r Senedd yn chwarae rhan ganolog yw'r gwaith sy'n dilyn ail adolygiad statudol Ofcom o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r newid cyflym yn arferion gwylio aelwydydd

Neges y Cadeirydd

ac economeg darlledu'n golygu na fydd y model presennol o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, sy'n dod â'r BBC a darlledwyr masnachol at ei gilydd i gynnig lluosogrwydd i wylwyr, yn gallu parhau ar ôl newid yn llwyr i'r digidol ac y bydd angen model newydd; un sydd hefyd yn manteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael drwy gydgyfeiriant er mwyn ateb dibenion cyhoeddus mewn ffyrdd newydd. Nid oes cymaint o afael gan y dulliau rheoleiddio traddodiadol. Oherwydd hynny, y brif rôl i Ofcom fydd cyflwyno tystiolaeth fanwl, y dewisiadau a'r canlyniadau iddynt. Mater i'r Llywodraeth a'r Senedd wedyn fydd penderfynu ar y model a fydd yn gwasanaethu buddiannau'r dinesydd orau.

## Sbectrwm Radio

O ran sbectrwm, mae llawer eisoes yn y maes sifil y gellir ei ryddfrydoli a'i ddefnyddio'n ehangach yn y farchnad. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Ofcom wedi dechrau ar y gwaith o ryddhau'r set fwyaf erioed o sbectrwm yn hanes y DU, gan greu cyfleoedd ar gyfer llawer o wasanaethau di-wifr newydd a dod â buddion cymdeithasol ac economaidd. Ond, yn draddodiadol, mae tua hanner y sbectrwm sydd ar gael ac yn barod i'w ddefnyddio wedi'i neilltuo at ddibenion milwrol a dibenion eraill y sector cyhoeddus. Mae'r adolygiad o'r sbectrwm hwn y llynedd wedi creu mwy o gyfleoedd i ddefnyddio mwy ohono a chymhellion cryfach i wneud hynny. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn bellach yn bwriadu rhyddhau cyfran sylweddol o'i daliadau sbectrwm ac ymgynghori ynghylch sut i wneud hynny.

## Rhyngwladol

Mae datblygiadau rhyngwladol yn chwarae rhan gynyddol yn ein dull o reoleiddio. Yn ystod 2007/8 daethpwyd i gytundeb o fewn yr Undeb Ewropeaidd ar y Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol, sy'n pennu'r fframwaith ar gyfer rheoleiddio cynnwys ar draws Ewrop; fframwaith sydd, oherwydd ei bwyslais ar rymuso gwylwyr, llythrennedd y cyfryngau a hunanreoleiddio achrededig, yn cyflawni'r amcanion a oedd gan Ofcom a'r Llywodraeth wrth ddechrau ar y negodiadau Ewropeaidd.

Rydym bellach yn ymwneud yn yr un modd ag adolygu'r set o gyfarwyddebau fframwaith ar rwydweithiau a gwasanaethau cyfathrebu. Rwyf yn falch bod y Comisiwn wedi derbyn mai un ateb posibl sydd ar gael i gyrff rheoleiddio cenedlaethol yw gwahanu gweithrediadau'r rhannau o fusnes deiliad trwydded sy'n dal yn fonopoli oddi wrth y gweddill, lle bydd mwy o ddadreoleiddio'n bosibl wedyn.

Rydym yn byw mewn oes sy'n fwyfwy cyd-ddibynnol ac mae rhai penderfyniadau na ellir ond eu gwneud yn ymarferol ar lefel Ewropeaidd. Ffioedd am drawsrwydweithio wrth ddefnyddio ffonau symudol mewn gwledydd tramor yw un mater o'r fath. Croesawaf y rhan a chwaraewyd gan y Grŵp Rheoleiddwyr Ewropeaidd, ac Ofcom yn aelod arweiniol ohono, wrth ddatblygu cynnig gwreiddiol y Comisiwn i greu rheoliadau sy'n ymarferol ledled Ewrop ac sydd hefyd yn dod â buddion gwirioneddol i ddefnyddwyr o ran prisiau is am alwadau llais rhyngwladol.

Wrth gyflawni ei waith cynhwysfawr, mae Ofcom yn cael cymorth a chyngor amhrisiadwy gan nifer o Fyrddau a Phwyllgorau. Y cyntaf a'r mwyaf blaenllaw, wrth gwrs, yw'r Bwrdd Cynnwys sydd, yn ogystal â rhoi cyngor i Fwrdd Ofcom, wedi gwneud nifer o benderfyniadau pwysig ar faterion sy'n ymwneud â'r Côd Darlledu ac wedi goruchwylio'r broses o ddatblygu mesurau cadarn i amddiffyn gwylwyr mewn cysylltiad â defnyddio gwasanaethau ffôn cyfradd premiwm mewn rhaglenni a ddarlledir. Yn ogystal â'r Bwrdd Cynnwys, mae Bwrdd Ymgynghori Sbectrwm Ofcom, y Pwyllgorau Ymgynghori Cenedlaethol a'r Pwyllgor Ymgynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl i gyd wedi rhoi'n hael o'u hamser a'u cyngor; ac rwyf fi a'm cydweithwyr ar Fwrdd Ofcom yn ddiolchgar iawn am hynny.

Mae'r Panel Defnyddwyr Ofcom annibynnol yn gweithredu fel cydwybod strategol i Ofcom er mwyn sicrhau bod budd y defnyddiwr yn parhau'n brif ystyriaeth ac yn ystyriaeth ganolog i Ofcom. Mae wedi gwneud hynny'n effeithiol iawn dan gadeiryddiaeth Colette Bowe a ddaeth drosodd, yn ystod 2007/8, i ymuno â phrif Fwrdd Ofcom. Mae ei holynydd, Anna Bradley, yr un mor benderfynol ac ystyriol wrth hyrwyddo budd y defnyddiwr.

Ochr yn ochr â dyfodiad Colette Bowe, cafwyd nifer o newidiadau eraill eleni yn aelodaeth Bwrdd Ofcom. Ymddeolodd Sara Nathan o'r Bwrdd ar 31 Rhagfyr 2007, a hithau'n un o aelodau cyntaf y Bwrdd ac yn gynddirprwy gadeirydd y Bwrdd Cynnwys. Gadawodd Stephanie Liston y Bwrdd ddiwedd Mawrth 2008. Ac yn fuan ar ôl diwedd y flwyddyn sydd dan sylw, ymadawodd Ian Hargreaves, sydd wedi bod ar y Bwrdd ers 2002, yn gyntaf fel cyfarwyddwr anweithredol ac wedyn mewn swydd weithredol, i ymuno â'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad fel ei Chyfarwyddwr Cyfathrebu Strategol. Yn ystod y flwyddyn, ymunodd Mike McTighe, Cadeirydd Pace, Colette Bowe a Tim Gardam â'r Bwrdd a hwythau i gyd â llawer o brofiad ac arbenigedd mewn materion sy'n ymwneud â thechnoleg, defnyddwyr a darlledu. Rwyf yn diolch iddynt hwy ac i'm cydweithwyr eraill ar y Bwrdd am eu cymorth a'u doethineb dros y flwyddyn ddiwethaf.

**David Currie**
**Cadeirydd**

Adroddiad y Prif Weithredwr



# Ed Richards

## Mae lle canolog i fuddiannau dinasyddion a defnyddwyr ym mhob dim yr ydym yn ei wneud yn Ofcom.

**Pa un a yw'n ymwneud â pholisi technegol ar sbectrwm radio neu benderfyniad ynghylch torri ein Côd Darlledu, mae pob agwedd ar ein gwaith wedi'i hysgogi gan ymgais i ofalu am fuddiannau dinasyddion a defnyddwyr y DU.**

**Yn yr hyn sydd bellach yn farchnad werth £50 biliwn, mae hyrwyddo gystadlu ac amddiffyn buddiannau dinasyddion wedi dod â buddion pendant - prisiau is, mwy o ddewis, gwasanaethau newydd a chyflwyno technolegau arloesol. Yn y dyfodol rydym yn gwynebu sialensiau mawr newydd gyda'r rhwydweithiau genhedlaeth nesaf a chydgyfeiriant digidol yn effeithio gymaint ar yr hyn rydym yn ei wneud.**

Mae dinasyddion a defnyddwyr yn barod yn elwa o gystadlu o'r fath.

Mae mwy na hanner yr holl aelwydydd wedi cael band eang gan un o fwy na 500 o wahanol gwmnïau darparu. Mae 22 filiwn o aelwydydd yn y DU sydd â theledu digidol, boed hwnnw'n ddaearol drwy gyfrwng erial, neu drwy loeren neu gebl. Heddiw, mae mwy o ffonau symudol nag sydd o bobl yn y DU, a chynigir gwasanaethau gan bum cwmni gweithredu rhwydwaith a llawer mwy o ddarparwyr manwerthu'n unig. A bellach mae un oedolyn ym mhob pump yn berchen ar set radio digidol sy'n cynnig dewis o hyd at 60 o orsafoedd i wrandawyr.

Yn adroddiad y llynedd, soniais am y modd yr oedd cydgyfeiriant wedi dechrau dod i oed, fel bod defnyddwyr yn gallu prynu set o wahanol wasanaethau gan un cwmni darparu.

Mae ein hymchwil eleni wedi dangos sut mae pobl yn elwa o gydgyfeiriant, a bod rhai o'r prisiau cyfartalog isaf am wasanaethau cyfathrebu ar gael yn y DU, a bwndeli cynhyrchion sy'n cynnig gostyngiadau sylweddol i ddefnyddwyr.

### Hyrwyddo cystadlu

Ond mae llawer mwy y gellir ei wneud, a dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cymryd amryw o gamau eraill i hyrwyddo cystadlu.

Rydym wedi gosod y sylfeini i alluogi gwylwyr i dderbyn sianelau diffiniad uchel ar deledu daearol digidol, gan ddechrau yn rhanbarth Granada y flwyddyn nesaf. O ganlyniad i hyn, bydd defnyddwyr yn gallu dewis rhwng teledu daearol, cebl a lloeren i wylio'r lluniau clir iawn a geir ar HD.

Gwnaethom ryddhau sbectrwm radio newydd ar y farchnad, yn cynnwys yr amleddau L-Band a pharatoi cynlluniau i ryddhau llawer mwy dros y ddwy flynedd nesaf. Yn benodol, rydym yn bwriadu rhyddhau'r sbectrwm y mae galw mawr amdano a ryddheir drwy newid yn llwyr i deledu digidol yn y DU. Bydd y sbectrwm hwn, a bandiau eraill y byddwn yn eu rhyddhau dros y blynyddoedd nesaf, yn creu mwy o gystadlu wrth ddarparu'r gwasanaethau di-wifr y mae pobl yn galw amdanynt heddiw.

Rydym wedi parhau â'n gwaith ar brosiect pwysig i hyrwyddo buddsoddi

Adroddiad y Prif Weithredwr

yng nghenhedlaeth nesaf y rhwydweithiau band eang cyflym iawn, gan hybu a chynnal cystadlu yn y sector telathrebu. Ar yr un pryd, rydym wedi dal i hyrwyddo cystadlu drwy'r Ymgymeriadau gan roi mynediad cyfartal i gwmnïau sy'n cystadlu â BT at y cynhyrchion cyfanwerthol y mae arnynt eu hangen i ddarparu gwasanaethau i ddefnyddwyr.

Ac rydym wedi ailwampio'r dull o reoleiddio'r sector radio, i helpu gorsafoedd radio masnachol a gorsafoedd llai i aros yn gystadleuol.

Mae Adran B o'r Adroddiad hwn yn tynnu sylw at brosiectau pellach yr oeddem wedi ymgymryd â hwy yn 2007/8 i hyrwyddo cystadlu.

## Sicrhau budd y cyhoedd

Rydym yn derbyn nad yw'r farchnad yn berffaith – dyna pam mae cyrff rheoleiddio'n bod. Cymerwch ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, er enghraifft. Rydym yn credu bod llawer o raglenni da iawn yn cael eu gwneud gan ddarlledwyr cwbl fasnachol; rhaglenni a wneir yn y DU sy'n adlewyrchu diwylliant ac amrywiaeth y DU ac yn helpu i roi gwybod i ni am y byd o'n cwmpas. Rydym hefyd yn cydnabod na fydd y farchnad ar ei phen ei hun yn darparu digon o'r math hwn o raglenni a bydd ein hadolygiad o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, a ddechreuwyd yn 2007/8, yn rhoi sylw i'r mater hwn.

## Grymuso Defnyddwyr

Rydym hefyd wedi cynnig cyfarwyddyd newydd i fynnu bod cwmnïau darparu gwasanaethau cyfathrebu'n datgelu gwir gost eu gwasanaethau ac i sicrhau bod unrhyw ffioedd ychwanegol ar filiau defnyddwyr yn adlewyrchu costau uniongyrchol y cwmnïau darparu.

Ym maes darlledu, rhoddwyd y prif sylw yn ystod y flwyddyn i fater ymddiriedaeth, yn dilyn yr hyn a alwyd, mewn adroddiad gan Aelod o'n Bwrdd Cynnwys Richard Ayre, yn "fethiant systematig" o ran defnyddio gwasanaethau ffôn cyfradd premiwm mewn modd cyfrifol gan ddarlledwyr.

Yn ystod y flwyddyn, cymerodd Ofcom gamau i adfer ymddiriedaeth drwy gyflwyno cyfres o reoliadau newydd i wneud darlledwyr yn uniongyrchol gyfrifol am amddiffyn defnyddwyr, yn enwedig mewn cysylltiad â defnyddio gwasanaethau ffôn cyfradd premiwm. Cymerasom gamau gorfodi yn erbyn nifer o ddarlledwyr am dorri'r ymddiriedaeth honno a gosod y dirwyon mwyaf yn hanes darlledu.

Yn ein hymchwiliadau i safonau darlledu, gosododd Ofcom sancsiynau ar gwmnïau teledu a radio a oedd wedi mynd yn groes i'n Côd Darlledu, sydd â'r amcan o amddiffyn defnyddwyr. Y mwyaf amlwg o'r sancsiynau hyn oedd hwnnw yn erbyn Channel 4 ynghylch *Celebrity Big Brother*, y teimlem fod y darlledwr wedi'i gam-drafod.

Yn ystod 2007/8 cymerodd Ofcom gamau hefyd i amddiffyn rhaglenni ymestynnol a oedd, yn ein barn ni, er budd y cyhoedd. Un enghraifft o hynny oedd ein dyfarniad ynghylch rhaglen *Dispatches*, *Undercover Mosque* ar Channel 4. Cawsom nad oedd unrhyw dystiolaeth bod y rhaglen hon wedi camarwain gwylwyr a'i bod, mewn gwirionedd, yn enghraifft o newyddiaduraeth dda a oedd er lles y cyhoedd.

Mae cystadlu'n mynd law yn llaw â risg; yn benodol, y risg o ddefnyddio arferion gorselog ac annerbyniol weithiau gan gwmnïau i ddenu neu gadw cwsmeriaid. Yn 2007/8 gwnaethom ymdrech mwy o lawer i amddiffyn defnyddwyr a'u grymuso fel y gallent fanteisio'n llawn ar gystadlu.

Ym maes telathrebu symudol, cyhoeddodd Ofcom gôd ymarfer newydd arfaethedig i ddileu arferion gwerthu a marchnata camarweiniol. Roedd hyn yn dilyn rhybudd y byddem yn cyhoeddi rheoliadau newydd llym pe na fyddai'r sector yn newid ei arferion.

Rydym wedi'i gwneud yn haws i bobl newid eu cwmni darparu ffôn symudol, gan dorri hyd y broses o drosglwyddo rhif ffôn symudol o bum niwrnod i ddau, gyda bwriad i gwtogi hyn i ddwy awr y flwyddyn nesaf.

Ym maes telathrebu llinellau sefydlog, rydym wedi ymestyn rheolau newydd i atal 'slamio', sef symud cyfrif ffôn y cwsmer i gwmni darparu arall heb iddo roi caniatâd yn ôl pob golwg. Er mwyn sicrhau y cedwir at y rheolau newydd, lansiodd Ofcom ymchwiliad cynhwysfawr i'r arfer o slamio ac rydym wedi cymryd camau gorfodi yn erbyn nifer o gwmnïau sydd wedi defnyddio'r arfer hwn.

Mae Adran B o'r Adroddiad hwn yn disgrifio prosiectau pellach lle'r ydym wedi sicrhau gwell cydymffurfio ac wedi grymuso dinasyddion a defnyddwyr.

## Ofcom: yn fwy effeithlon ar gost is

Mae Ofcom yn cael ei ariannu'n bennaf gan y cwmnïau y mae'n eu rheoleiddio. Rydym yn cael taliadau gan drwyddedeion darlledu a chwmnïau sy'n darparu gwasanaethau cyfathrebu, yn ogystal â thaliadau am reoli sbectrwm radio'r DU. Gan fod ein costau gweithredu'n gost glir i'n rhanddeiliaid, rydym wedi ymrwymo i wella ein heffeithlonrwydd ein hunain.

Ar sail gymharol, roedd ein cyllideb ar gyfer 2007/8 yn £130.2 miliwn, a oedd yn llai o ran ei gwir werth na'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Yn ogystal â hynny, roedd ein halldro ar gyfer y flwyddyn yn £200,000 yn llai na'r gyllideb ac ad-delir y swm hwn i randdeiliaid ar ffurf ffioedd rheoleiddio is.

Er mwyn cwrdd â chost sefydlu'r corff, cafodd Ofcom fenthyciad o £52.3 miliwn gan y Llywodraeth. Yn ystod y flwyddyn ariannol, gorffennodd Ofcom ad-dalu'r

# 'MAE DINASYDDION A DEFNYDDWYR YN ELWA O GYSTADLU O'R FATH'

benthyciad, ynghyd â'r llog a oedd wedi cronni. Felly, o 2008/9 ymlaen, ni fydd y benthyciad bellach yn cael ei adennill drwy ffioedd rheoliadol a delir gan randdeiliaid.

Rydym yn dal i ganolbwyntio ar leihau costau. Mae ein cyllideb ar gyfer 2008/9 yn £133.7 miliwn, mae hyn yn 1.5 y cant yn llai o ran ei gwir werth na chyllideb y flwyddyn cynt ac yn 17.5 y cant yn llai o ran ei gwir werth na'r gyllideb gyntaf ar gyfer blwyddyn lawn a bennwyd yn 2004/5.

Mae'r gostyngiad yn ein cyllideb weithredu wedi'i ysgogi gan awydd cyson i wella ein heffeithlonrwydd o ran gweithredu. Ar 31 Mawrth 2008, nifer y staff yn Ofcom oedd 812; mae hyn yn cymharu â 1,152, sef nifer gwirioneddol staff y pum corff a ragflaenodd Ofcom gyda'i gilydd.

Pan grëwyd Ofcom, etifeddodd amryw o systemau gwybodaeth a thelathrebu gwahanol. Rydym bellach wedi mynd rhan o'r ffordd drwy raglen i integreiddio'r systemau TG, sy'n cael eu defnyddio mewn meysydd mor wahanol â thrwyddedu, gweithrediadau maes ac adnoddau dynol. Yn ystod 2007/8 gwnaethom gynnydd pellach ar greu un system TG ar gyfer y corff cyfan.

Mae gwybodaeth bellach o'r rhaglen TG yn ogystal â dadansoddiad pellach o sefyllfa ariannol Ofcom yn Adran C, ac mae'r cyfrifon llawn yn Adran D o'r Adroddiad hwn.

Yn ogystal â'n hymrwymiad i leihau ein beichiau ariannol ar ein rhanddeiliaid, rydym hefyd wedi ymrwymo i leihau ein beichiau rheoleiddio. Mae Adrannau B a C o'r Adroddiad hwn yn tynnu sylw at rai o'r meysydd lle'r ydym wedi cyflawni hyn drwy ddadreoleiddio a symleiddio. Mae hyn yn agwedd bwysig ar ein gwaith ac rydym yn rhoi pwys mawr arni. Rydym bob amser yn chwilio am gyfleoedd i leihau neu symleiddio rheoliadau mewn modd sy'n gyson â'r gallu i gyflawni ein dyletswyddau eraill a byddwn bob amser yn falch o gael syniadau gan randdeiliaid ynghylch y modd y gallwn gyflawni hyn.

## Y flwyddyn sydd o'n blaen

Mae hon yn flwyddyn bwysig arall i Ofcom. Mae'n addo datblygiadau o bwys yn y sector cyfathrebu drwyddo draw, a bydd gan Ofcom ran bwysig i'w chwarae.

Yn Ebrill 2008 cyhoeddodd Ofcom ei Gynllun Blynyddol ar gyfer gwaith y flwyddyn nesaf.

O ran sbectrwm, rydym yn bwriadu rhyddhau hawliau i ddefnyddio amleddau radio. Mae'r sbectrwm hwn wedi'i ddynodi ar gyfer amryw o wahanol ddibenion, yn cynnwys gwasanaethau teledu symudol a band eang di-wifr, fel y dechnoleg newydd sy'n cael ei galw'n WiMAX.

Byddwn hefyd yn gwneud gwaith pellach ar ryddhau'r sbectrwm radio mwyaf gwerthfawr a ryddheir drwy'r newid i deledu digidol - y Difidend Digidol. Caiff hwn ei ryddhau yn 2009. Mewn cysylltiad â hynny, byddwn yn gwahodd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i gyflwyno ceisiadau i ddefnyddio'r capasiti ychwanegol ar deledu daearol digidol yr ydym yn ei greu ar gyfer gwasanaethau newydd fel teledu diffiniad uchel.

Ym maes darlledu teledu, byddwn yn datblygu ein cynigion i gynnal a meithrin darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y DU. Dechreuodd Ofcom ddadl gyhoeddus ar hyn yn fuan ar ôl y cyfnod sydd dan sylw gan gyhoeddi ymgynghoriad, a bennodd nifer o ddewisiadau ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol. Byddwn yn datblygu'r cynigion hyn yn hydref 2008 drwy ail ymgynghoriad cynhwysfawr. Byddwn hefyd yn parhau â'n hymchwiliad i'r farchnad teledu talu ac mae ail ymgynghoriad i'w gyhoeddi yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Ym maes radio, byddwn yn gweithredu system reoleiddio newydd ar gyfer fformatau gorsafoedd radio masnachol analog. Byddwn hefyd yn cyfrannu'n lawn i'r Gweithgor Radio Digidol traws-diwydiant, sy'n edrych ar yr opsiynau digidol yn y dyfodol i ddarlledwyr radio.

Ym maes telathrebu, byddwn yn parhau â'n gwaith i hyrwyddo buddsoddi effeithlon ac amserol mewn rhwydweithiau telathrebu opteg ffeibr cyflym iawn, gan hybu a chynnal cystadlu. Wrth wneud hynny, byddwn yn cydweithio â Francesco Caio sy'n ymgymryd ag adolygiad ar wahân o fynediad cenhedlaeth nesaf ar ran y Llywodraeth, gan ystyried materion sydd y tu allan i gylch gwaith Ofcom gan mwyaf.

Byddwn yn dal i sicrhau bod BT Group yn cydymffurfio â'i Ymgymeriadau – gan roi mynediad cyfartal

Adroddiad y Prif Weithredwr

i'r cwmnïau sy'n cystadlu ag ef at y cynhyrchion cyfanwerthol y mae arnynt eu hangen i ddarparu gwasanaethau i ddefnyddwyr. Un o ganlyniadau'r Ymgymeriadau oedd creu Openreach, busnes sy'n gweithredu ar wahân sy'n gyfrifol am fynediad lleol a'r rhwydwaith ôl-gysylltiadau telathrebu. Yn 2008/9 byddwn yn cyhoeddi ymgynghoriad ar fframwaith ariannol Openreach er mwyn rhoi sylw i newidiadau yn y farchnad.

Ym maes polisi defnyddwyr, rydym yn bwriadu cyflwyno côd i roi sylw i'r gwahaniaethau rhwng y cyflymderau band eang a ddangosir ym mhenawdau hysbysebion a'r cyflymderau y mae cwsmeriaid yn eu cael mewn gwirionedd. Byddwn hefyd yn cwblhau ein rheolau a'n harweiniad newydd ar gam-werthu gwasanaethau ffonau symudol a ffioedd ychwanegol ar filiau defnyddwyr.

Byddwn yn parhau i gymryd camau gorfodi yn erbyn cwmnïau nad ydynt yn cystadlu'n deg a byddwn yn sicrhau bod yr holl gwmnïau sy'n darparu gwasanaethau cyfathrebu'n aelod o gynllun datrys anghydfodau i ddelio â chwynion gan gwsmeriaid.

Yn ei Neges fel Cadeirydd, mae David Currie yn tynnu sylw at rywfaint o'r gwaith pwysig yr ydym wedi'i wneud yn rhyngwladol yn ystod y flwyddyn ariannol. Yn 2008/9 byddwn yn cydweithio â'r Llywodraeth i sicrhau bod buddiannau dinasyddion a defnyddwyr y DU wedi'u cynrychioli'n llawn yn adolygiad y Comisiwn Ewropeaidd o'r fframwaith Ewropeaidd ar gyfer cyfathrebu electronig.

**Ed Richards**
**Prif Weithredwr**

# Adran B

Mae'r adran hon o'r Adroddiad Blynyddol yn ymdrin â phrif feysydd gwaith Ofcom rhwng Ebrill 2007 a Mawrth 2008. Mae'r rhain wedi'u grwpio dan 'fframwaith polisi strategol'. Cafodd y fframwaith ei bennu yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2007/8 ac mae'n nodi prif feysydd blaenoriaethol Ofcom o ran polisi dros y tair blynedd nesaf.

## Y meysydd blaenoriaethol yw:

1 Hyrwyddo dull o ddelio â sbectrwm sy'n seiliedig ar y farchnad;

2 Hybu cystadlu ac arloesi mewn marchnadoedd sy'n cydgyfeirio;

3 Sicrhau canlyniadau i'r cyhoedd wrth i lwyfannau a gwasanaethau gydgyfeirio;

4 Gwella cydymffurfio a grymuso dinasyddion a defnyddwyr;

5 Lleihau rheoleiddio a beichiau gweinyddol;

6 Dylanwadu i'r graddau mwyaf posibl ar ddatblygiad polisi rhyngwladol.

Yn ogystal â hynny, rydym yn nodi seithfed flaenoriaeth, sef symud tuag at fframweithiau cyfreithiol ac economaidd mwy cyson, sy'n faes yr oeddem wedi dweud y byddem yn canolbwyntio arno yn ystod ail a thrydedd flwyddyn y fframwaith polisi strategol.

# Hyrwyddo dull o ddelio â sbectrwm sy'n seiliedig ar y farchnad




## Sicrhau bod sbectrwm ar gael ar gyfer gwasanaethau di-wifr newydd

### SICRHAU'R DIFIDEND DIGIDOL

Mae sbectrwm radio'n adnodd cyfyngedig a gwerthfawr dros ben, yn elfen hanfodol ar gyfer pob math o gyfathrebu di-wifr. Mae'r galw amdano'n cynyddu drwy'r amser gyda newidiadau mewn technoleg a thueddiadau ymysg defnyddwyr, ac mae'r defnydd o sbectrwm yn sail i o leiaf tri'r cant o gynnyrch mewnwladol crynswth y DU.

Bydd y Difidend Digidol – y sbectrwm a gaiff ei ryddhau drwy newid i deledu digidol – ymysg y sbectrwm mwyaf gwerthfawr a gaiff ei ryddhau yn y DU yn y 10 i 20 mlynedd nesaf. Mae'r Difidend Digidol yn werthfawr am ei fod yn y band UHF poblogaidd lle mae darllediadau'n cyrraedd dalgylchoedd eang gan ddefnyddio nifer cymharol fach o drosglwyddyddion, ac yn treiddio'n dda i adeiladau.

Mae'r sbectrwm ar gael ar gyfer dibenion amrywiol iawn, fel band eang di-wifr cyflym iawn, teledu symudol a mwy o sianeli teledu daearol digidol.

Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus eang, cyhoeddodd Ofcom ym mis Rhagfyr mai'r modd mwyaf effeithiol i gael y gwerth mwyaf posibl o'r Difidend Digidol i gymdeithas oedd ei ryddhau dan arweiniad y farchnad, a bwriedir cynnal arwerthiant o'r rhan fwyaf o'r sbectrwm yn 2009.

Drwy gymryd y camau hyn, bydd rhyddid a chymhelliant gan gwmnïau a chyrff i gynnig gwasanaethau drwy'r sbectrwm sy'n werthfawr gan gwsmeriaid.

Nododd Ofcom un achos lle y dylid cadw sbectrwm at ddiben penodol, er mwyn osgoi methiant yn y farchnad. Oherwydd hynny, cyhoeddodd y bydd yn dyfarnu sbectrwm ar gyfer gwneud rhaglenni ac ar gyfer digwyddiadau arbennig (a ddefnyddir yn bennaf i weithio meicroffonau di-wifr) drwy gyfrwng 'cystadleuaeth harddwch'.

Cyn yr arwerthiant, bydd Ofcom yn cyhoeddi ymgynghoriad pellach yn ddiweddarach yn 2008/9 ar ddyluniad y broses ddyfarnu er mwyn sicrhau y bydd yr arwerthiant yn fodd i hybu cystadlu.

#### RHYDDHAU SBECTRWM AR GYFER GWASANAETHAU BAND EANG SYMUDOL

Yn ogystal â hynny, symudodd Ofcom ymlaen ar gynlluniau ar gyfer arwerthiant pwysig arall o sbectrwm, a fydd yn golygu rhyddhau'r maint mwyaf o sbectrwm radio yn y DU ar un tro.

Mae'r sbectrwm hwn yn y bandiau 2010-2025 MHz a 2500-2690 MHz (a elwir yn 2.6 GHz), sy'n amledd uwch na'r Difidend Digidol. Oherwydd hyn, mae'n addas i ystod eang o wasanaethau di-wifr gan gynnwys WiMAX.

#### DYFARNIADAU O SBECTRWM SYDD WEDI'U CWBLHAU

Cwblhaodd Ofcom ddau arwerthiant pellach o sbectrwm yn ystod y flwyddyn, yn ychwanegol at y dyfarniadau a gafwyd yn y flwyddyn flaenorol.

Y dyfarniadau oedd:

- y bandiau rhwng 10 a 40 GHz. Ar ôl arwerthiant ym mis Chwefror dyfarnodd Ofcom drwyddedau i ddeg cwmni;
- y band 1452-1492 MHz, sef yr L-Band fel y'i gelwir. Yn dilyn arwerthiant yn fuan ar ôl diwedd y cyfnod sydd dan sylw yn yr adroddiad hwn, dyfarnodd Ofcom drwydded ar gyfer y sbectrwm yma i un cwmni.

## Defnyddio'r sbectrwm yn effeithlon

#### CYFLENWI TELEDU DIFFINIAD UCHEL AR FREEVIEW

Teledu daearol digidol (TDD) fu un o'r llwyddiannau mawr ym myd darlledu yn y cyfnod diweddar, ac mae Freeview bellach mewn 15 miliwn o gartrefi.

Ym mis Tachwedd 2007, cyhoeddodd Ofcom gynigion i adeiladu ar sail y llwyddiant hwnnw drwy uwchraddio TDD. Byddai hyn yn golygu y gallai gwylwyr Freeview gael hyd at bedair sianel newydd â llun diffiniad uchel (HD) pan fydd y newid i'r digidol wedi'i gwblhau yn 2012, a byddai'r tair sianel gyntaf ar gael wrth i'r newid ddigwydd yn rhanbarth Granada o 2009. Gellir uwchraddio heb i wylwyr presennol Freeview golli eu gwasanaethau. Er mwyn gwylio'r sianeli newydd, byddai angen i wylwyr brynu blwch pen set a bod â set deledu a oedd yn barod ar gyfer HD.

Dangosodd Ofcom fod modd cyflenwi sianeli a gwasanaethau newydd i gartrefi sydd â Freeview gan ddefnyddio daliadau sbectrwm presennol y darlledwyr a heb ddefnyddio dim o'r Difidend Digidol gwerthfawr, sydd wedi'i drafod yn yr adran uchod.

Ar ôl ystyried y pwyntiau a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, cyhoeddodd Ofcom ym mis Ebrill 2008 sut yn union y bydd yn uwchraddio TDD. Yn y datganiad hwn, trafododd y gofyniad a fyddai ar ddarlledwyr gwasanaethau cyhoeddus masnachol i gyflwyno cynigion i Ofcom ynghylch y modd yr oeddent yn bwriadu defnyddio'r capasiti newydd ar TDD.

Ar wahân i hynny, ym mis Mehefin 2007, cyhoeddodd Ofcom y byddai darlledwyr yn gorfod talu ffi, o 2014 ymlaen, o'r enw *Prisio Anogaeth wedi'i Weinyddu*, yn ôl maint y sbectrwm y maent yn ei ddefnyddio. Mae hyn yn dod â darlledwyr teledu yn unol â'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr eraill ac yn hybu'r defnydd mwyaf effeithlon o'r adnawdd cyfyngedig hon.

#### RHYDDHAU SBECTRWM CYHOEDDUS GWERTHFAWR

Mae cyrff cyhoeddus yn defnyddio tua hanner y sbectrwm radio dan 15 GHz – yr amleddau prysuraf sydd â'r galw mwyaf amdanynt. Mae arbenigwyr annibynnol wedi amcangyfrif y gallai'r sbectrwm sy'n cael ei ddal gan y sector cyhoeddus fod yn werth rhwng £3 biliwn a mwy nag £20 biliwn ar y farchnad.

Ym mis Ionawr 2008, cyhoeddodd Ofcom gynlluniau newydd i ganiatáu i gyrff cyhoeddus fasnachu, rhannu neu ryddhau'r daliadau sbectrwm sylweddol sydd ganddynt.

Roedd y cynigion yn arbennig o bwysig i'r Weinyddiaeth Amddiffyn sy'n dal y meintiau mwyaf o sbectrwm y sector cyhoeddus.

## Dileu cyfyngiadau ar ddefnyddio sbectrwm

#### EHANGU'R SBECTRWM FFONAU SYMUDOL

Gan fod nifer presennol y tanysgrifiadau ar gyfer ffonau symudol yn y DU – sef bron 70 miliwn – gryn dipyn yn uwch na phoblogaeth y DU, mae ffonau symudol yn rhan annatod o'n ffordd o fyw a gweithio.

Rydym yn gwneud mwy â'n ffonau symudol, fel eu defnyddio i gael mynediad i'r rhyngrwyd, gwylio clipiau fideo a gwrando ar gerddoriaeth.

Ym mis Medi 2007, cyhoeddodd Ofcom gynlluniau ar gyfer ehangu'r sbectrwm radio y mae ffonau symudol yn ei ddefnyddio, gan greu mwy o gyfleoedd i gwmnïau gweithredu gynnig gwasanaethau newydd i ddefnyddwyr. Gallai hyn gynnwys darpariaeth well o lawer mewn ardaloedd gwledig, pori a lawrlwytho cyflymach ar y we, mwy o ryngweithio, darpariaeth o ansawdd gwell mewn adeiladau a phrisiau is.

Roedd dwy brif agwedd ar ein cynigion.

Yn gyntaf, roeddem yn cynnig dileu un cyfyngiad ar y modd y gellir defnyddio'r sbectrwm 2G. Ar hyn o bryd, nid yw cwmnïau gweithredu ond yn cael defnyddio'r sbectrwm hwn ar gyfer galwadau llais, negeseuon testun a gwasanaethau rhyngrwyd cyflymder gymharol isel. Drwy ddileu'r cyfyngiad hwn, gallai cwmnïau gweithredu gynnig dewis llawer ehangach o wasanaethau.

Defnyddir dau fand sbectrwm ar gyfer gwasanaethau 2G ar hyn o bryd: 900 MHz a 1800 MHz. Mae llawer o fanteision i'r band 900 MHz, gan

Hyrwyddo dull o ddelio â sbectrwm sy'n seiliedig ar y farchnad

fod ei signalau'n mynd yn bellach ac am ei fod yn cyrraedd yn well o fewn adeiladau.

Yn ail, cynigiwyd y dylai rhywfaint o'r sbectrwm 900 MHz a ddefnyddir gan gwmnïau gweithredu 2G ar hyn o bryd fod ar gael i eraill yn y dyfodol.

Byddwn yn datblygu'r cynigion hyn ymhellach yn ystod 2008/9.

#### DILEU RHEOLIADAU ER MWYN HYBU GWASANAETHAU DI-WIFR

Rhwng ffonau heb gordyn a chlustffonau di-wifr, ffobiâu allwedd car a WiFi, mae cannoedd o declynnau di-wifr y caniateir eu defnyddio heb drwydded.

Ym mis Ebrill 2007, cyhoeddodd Ofcom gynigion i greu mwy byth o ffyrdd i ddefnyddio'r sbectrwm radio heb fod angen trwydded, ac i gynnig bandiau amledd uchel ar gyfer cymwysiadau arloesol fel camerâu digidol, chwaraewyr clywedol personol a chyfarpar arall sy'n gallu trosglwyddo data.

Cyhoeddodd Ofcom hefyd yn Awst 2007 y gellid defnyddio technoleg band llydan iawn (UWB) heb drwydded. Mae UWB yn caniatáu trosglwyddo symiau mawr o ddata, a gallai fod yn fodd i hybu cydgyfeiriant rhwng dyfeisiau cyfathrebu fel cyfrifiaduron personol, chwaraewyr DVD, chwaraewyr MP3 a chamerâu digidol.

#### DEFNYDDIO FFONAU SYMUDOL MEWN AWYRENNAU

Rydym hefyd wedi galluogi cwmnïau awyrennau i gynnig gwasanaethau ffonau symudol ar fwrdd awyrennau sydd wedi'u cofrestru yn y DU.

Yn dilyn ymgynghori, cyhoeddasom ym mis Mawrth 2008 y byddai'r system yn gweithio drwy orsaf ar fwrdd awyrennau, a fyddai'n cyfeirio galwadau teithwyr i gyswllt lloeren i'w cysylltu wedyn â'r ddaear. Ni fyddai'r orsaf ar gael wrth i'r awyren godi a glanio, ond gallai'r criw ei throi ymlaen ar uchder lleiaf o 3,000 medr.

Byddai'n rhaid i wasanaethau gael eu cymeradwyo gan awdurdodau hedfan perthnasol y DU ac Ewrop. Mae nifer o gwmnïau awyrennau wedi mynegi diddordeb mewn cynnig gwasanaethau o'r fath.

## Camau gorfodi ar gyfer y sbectrwm

#### RHWYMEDIGAETHAU WRTH ROI 3G AR WAITH

Un o amodau'r trwyddedau ffonau symudol 3G oedd bod rhwydweithiau i gynnwys o leiaf 80 y cant o'r boblogaeth erbyn 31 Rhagfyr 2007.

Wrth asesu cydymffurfiad â'r rhwymedigaeth hon, cafwyd nad oedd O2 ond yn cyrraedd 75.69 y cant o'r boblogaeth, diffyg a oedd yn golygu bod tua 2.5 miliwn o bobl na allent gael mynediad at ei wasanaeth.

Ym mis Chwefror 2008 rhoddodd Ofcom hysbysiad i O2 dan Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr am dorri trwydded. Yr hyn a gynigiwyd ynddo oedd, os oedd y rhwymedigaeth o 80 y cant yn dal heb ei chyflawni erbyn diwedd Mehefin 2008, y byddai Ofcom yn torri pedwar mis oddi ar gyfnod trwydded O2, a hynny'n cyfateb i gosb ariannol o £40 miliwn o leiaf. Ym mis Mai 2008 cadarnhaodd Ofcom fod O2 wedi cyflawni ei rwymedigaeth.

#### DARLLEDU ANGHYFREITHLON

Yn ystod y flwyddyn, parhaodd Ofcom â'i ymdrechion i atal darlledu gan orsafoedd radio anghyfreithlon. Rydym yn amcangyfrif bod mwy na 150 o orsafoedd anghyfreithlon yn rhedeg yn y DU, a'u hanner yn darlledu ar draws Llundain a De-Ddwyrain Lloegr. Gall y gorsafoedd anghyfreithlon hyn ymyrryd yn ddifrifol â defnyddwyr radio eraill fel y gwasanaethau brys a gorsafoedd radio cyfreithlon.

Ym mis Chwefror 2008, cynhaliodd Ofcom ymgyrch fawr yn erbyn darlledwyr anghyfreithlon yn Llundain, gan weithio mewn partneriaeth â bwrdeistrefi Hackney, Haringey, Tower Hamlets ac Islington yn Llundain, yn ogystal â Heddlu Llundain. O ganlyniad i'r ymgyrch, arestiwyd tri, cafwyd cyrch ar un stiwdio, tynnwyd 22 o drosglwyddyddion anghyfreithlon a rhoddwyd rhybuddion i 20 o glybiau nos a oedd wedi hysbysebu digwyddiadau ar orsafoedd anghyfreithlon.

Yn ystod 2007/8 ymgymerodd Ofcom ag 881 o wahanol gamau gorfodi yn erbyn darlledwyr anghyfreithlon; roedd hyn yn cynnwys 43 o gyrchoedd ar stiwdios a oedd yn cael eu defnyddio gan orsafoedd anghyfreithlon ac atafaelu 838 o drosglwyddyddion anghyfreithlon.

#### CYFARPAR ANGHYFREITHLON

Mae Ofcom yn gyfrifol hefyd am gymryd camau yn erbyn rhai sy'n gweithgynhyrchu a gwerthu cyfarpar nad yw'n cydymffurfio â rheoliadau'r DU. Mae cyfarpar o'r fath yn gallu ymyrryd â signalau defnyddwyr radio eraill.

Ym mis Mawrth 2008 enillodd Ofcom achos llys pwysig yn erbyn cwmni a oedd yn gwerthu cyfarpar radio anghyfreithlon. Er nad oedd y cwmni dan sylw'n gyfrifol am y modd yr oedd y cyfarpar a werthai'n cael ei ddefnyddio, ac er bod y barnwr yn derbyn bod y cwmni'n un proffesiynol a llawn bwriadau da, roedd tystiolaeth bod y cyfarpar yn cael ei ddefnyddio mewn trosglwyddyddion a ddefnyddid gan orsafoedd radio anghyfreithlon. Roedd y rhain yn ymyrryd â signalau rheoli traffig awyr yng Ngweriniaeth Iwerddon ac yng Ngogledd Iwerddon.

Rhoddwyd dirwy o £10,000 i'r cwmni a dau o'i gyfarwyddwyr a'u gorchymyn i dalu mwy na £90,000 o gostau – y swm mwyaf a ddyfarnwyd i Ofcom mewn achos llys a oedd yn ymwneud â gwerthu cyfarpar anghyfreithlon.

Yn ystod 2007/8 ymgymerodd Ofcom â 96 o wahanol weithrediadau gorfodi mewn cysylltiad ag anghydffurfio â rheoliadau'r DU, gan arwain at gymryd 31,686 o eitemau anghyfreithlon oddi ar y farchnad.

# Hybu cystadlu ac arloesi mewn marchnadoedd sy'n cydgyfeirio

Mae band eang wedi bod yn llwyddiant yn y DU. Mae ein hymchwil ein hunain wedi dangos bod cysylltiad rhyngrwyd ar fwy na hanner yr holl aelwydydd yn y DU, a'u bod yn cael gwasanaeth gan 500 o wahanol gwmnïau darparu gwasanaethau rhyngrwyd.

Yn ogystal â hynny, mae mwy na 99 y cant o boblogaeth y DU wedi'i chysylltu â chyfnewidfa ffôn sy'n gallu darparu band eang, fel y bydd y rhan fwyaf o bobl sydd heb y gwasanaeth yn awr yn cael cyfle i'w dderbyn.

Ar ben hynny, mae cyflymderau tybiedig gwasanaethau band eang wedi dyblu mewn 12 mis ac mae prisiau wedi gostwng bron 10 y cant.

## MYNEDIAD AR GYFER Y GENHEDLAETH NESAF

Mae Ofcom yn ystyried yn awr sut i hybu buddsoddi yng nghenhedlaeth nesaf y rhwydweithiau band eang, gan gynnal cystadlu ar yr un pryd.

Mae'r rhan fwyaf o'r rhwydweithiau band eang yn rhai copor – sef y wifren sy'n mynd o'r gyfnewidfa ffôn i'ch cartref neu weithle. Hyd yn hyn, mae rhwydweithiau copor wedi bod yn ddigonol i ateb gofynion defnyddwyr. Yn awr, mae defnyddwyr yn galw fwyfwy am gyflymderau band eang uwch, oherwydd gwasanaethau newydd sydd ar y rhyngrwyd, fel gwasanaethau lawrlwytho fideos. Un modd i ateb y galw hwnnw yw defnyddio rhwydweithiau o geblau ffeibr-optig, sydd â chyflymderau dichonol o 100 Mbs.

Mae rhwydweithiau ffeibr, a elwir yn Fynediad Cenhedlaeth Nesaf (NGA), yn cynnig cyfleoedd mawr i fusnesau a defnyddwyr yn y DU yn y dyfodol a gallent gael effaith sylweddol ar yr economi. Ond mae'r gost o osod rhwydwaith ffeibr yn uchel iawn, ac mae rhai yn y diwydiant yn amcangyfrif y gallai gostio degau o filiynau o bunnoedd.

Ym mis Medi 2007 cyhoeddodd Ofcom gynigion ynghylch y modd y gallai'r rheoleiddio presennol ar delathrebu ddatblygu - ar sail yr egwyddorion presennol o hyrwyddo cystadlu, gwneud y gorau o arloesed a'r angen am fynediad cyfartal i rai yn y farchnad - er mwyn hybu buddsoddi mewn NGA.

Yn ogystal â hynny, cyhoeddasom gynigion ar wahân ar rwydweithiau ffeibr ar gyfer datblygiadau eiddo newydd, yn fuan ar ôl diwedd y cyfnod sydd dan sylw.

Yn y ddau fater pwysig hyn, mae Ofcom yn cydweithio'n agos â'r Llywodraeth, sy'n cynnal ei hadolygiad ei hun o fand eang cenhedlaeth nesaf, gan ystyried materion sydd y tu allan i gylch gwaith Ofcom, fel trethi busnes a rheoliadau cynllunio.



Hybu cystadlu ac arloesi mewn marchnadoedd sy'n cydgyfeirio

DADREOLEIDDIO MEWN MARCHNADOEDD CYSTADLEUOL

Amcan Ofcom yw rheoleiddio lle mae angen clir am hynny'n unig. Os oes cystadlu effeithiol mewn marchnad - sy'n cynnig dewis a phrisiau is i ddefnyddwyr - bydd Ofcom yn ceisio dadreoleiddio lle bynnag y bo modd. Yn yr amser adrodd blaenorol cawsom wared â'r rheolaethau prisiau manwerthu ar alwadau a llinell rhenti i gwsmeriaid BT, rhyw 22 mlynedd ar ôl iddynt gael ei gyflwyno. Galluogwyd y dadreoleiddio sylweddol hwn gan dwf gystadleuaeth cyflym a lleihad parhaol yng nghostau darpariaeth gwasanaethau ffôn i gwsmeriaid.

Ym mis Tachwedd 2007 cyhoeddodd Ofcom adolygiad o'r farchnad band eang cyfanwerthol. Roeddem yn cynnig ynddo y dylid dileu rheoleiddio mewn rhannau o'r wlad lle'r oedd cystadlu cryf wedi datblygu.

Cefnogodd y Comisiwn Ewropeaidd y cynigion hyn yn Chwefror 2008 ac fe gyhoeddom y dadreoleiddio ar ôl yr amser o dan adolygiad.

## Y farchnad teledu talu

Ers ei ddyddiau cyntaf ar ddechrau'r 1990au, mae teledu talu wedi tyfu'n farchnad sy'n gwasanaethu mwy nag 11 filiwn o gwsmeriaid. Mae hefyd yn cynhyrchu mwy na £4 biliwn, fel mai hon yw'r ffynhonnell refeniw fwyaf ar gyfer y diwydiant darlledu.

Er hynny, mae rhai arwyddion rhybuddiol sy'n galw am sylw, fel y rhai ym maes dewis i ddefnyddwyr. Gyda dyfodiad llwyfannau teledu newydd, cwmnïau darparu cynnwys a'r pwysigrwydd cynyddol sydd i gydgyfeiriant, efallai na fydd hanes blaenorol teledu talu yn ganllaw dibynadwy i ragweld ei gyfeiriad yn y dyfodol.

Ym mis Mawrth 2007, cafodd Ofcom gais gan BT, Setanta, Top Up TV a Virgin Media am ymchwiliad i'r farchnad teledu talu, ac am ystyried a ddylid atgyfeirio achos i'r Comisiwn Cystadlu dan Ddeddf Menter 2002. Roeddent yn honni nad oedd cystadlu yn y diwydiant yn gweithio'n effeithiol, a bod rhai nodweddion yn ei atal. Dadleuodd BSkyB yn erbyn hynny, gan nodi pam y credai fod cystadlu'n gweithio, a sut yr oedd cwsmeriaid yn cael budd o hynny.

Ym mis Rhagfyr 2007, cyhoeddodd Ofcom ymgynghoriad a oedd yn ceisio barn rhanddeiliaid am y farchnad; byddwn yn cyhoeddi canfyddiadau pellach fel rhan o'n hymchwiliad yn 2008/9.

Ar wahân i hynny, yn Hydref 2007, gwnaeth BSkyB gynnig ar y cyd â National Grid Wireless am roi gwasanaethau teledu talu ar deledu daearol digidol (TDD) yn lle ei sianeli rhad ac am ddim. Byddai'r cynnig hwn yn golygu darlledu Sky Sports 1 a, gyda'r hwyr, Sky One a Sky Movies SD1 yn lle Sky News, Sky Sports News a Sky Three ar TDD.

Cyhoeddodd Ofcom ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynnig a chawsom tua 450 o ymatebion gwahanol iddo.

## Ymrwymiadau BT

Yn 2005, derbyniodd Ofcom gyfres o Ymrwymiadau gan BT Group. Eu hamcan oedd hyrwyddo mynediad cyfartal ar gyfer yr holl gwmnïau darparu gwasanaethau cyfathrebu, gyda'r bwriad o hybu cystadlu effeithiol.

Fel rhan o hyn, roedd yn ofynnol i BT Group sefydlu busnes newydd i weithredu ar wahân a fyddai'n gyfrifol am rwydwaith mynediad lleol ac ôl-gysylltiadau BT. Enw BT ar y busnes hwn yw Openreach.

Mae darparwyr gwasanaethau cyfathrebu'n defnyddio amryw o gynhyrchion Openreach fel y gallant gynnig gwasanaethau manwerthu i ddefnyddwyr busnes a phreswyl.

Cafwyd llawer o fanteision o ganlyniad i'r Ymrwymiadau a sefydlu Openreach, ac mae bron dri chwarter y cyfnewidfeydd ffôn wedi'u 'dadfwndelu', sy'n golygu bod y rhai sy'n cystadlu â BT yn cael mynediad i'r rhwydwaith.

Fodd bynnag, yn dilyn cwynion gan gwmnïau telathrebu nad oedd Openreach yn canolbwyntio'n ddigonol ar ddiwallu anghenion ei holl gwsmeriaid cyfanwerthol, ym Mawrth 2008 cyhoeddodd Ofcom becyn newydd o anogaethau i gymell Openreach i gynnig gwasanaeth o ansawdd-uchel i'w gwsmeriaid. Mae'r rheolau newydd yn mynnu bod Openreach yn digolledu'r darparwyr gwasanaethau cyfathrebu os yw'n methu â darparu ac atgyweirio gwasanaethau yn ôl targedau a gytunwyd.

# Gwella cydymffurfio a grymuso dinasyddion a defnyddwyr

Holl amcan yr hyn yr ydym yn ei wneud yn Ofcom yw dod â budd i ddinasyddion a defnyddwyr y DU. Yn wir, mae'r ddeddfwriaeth a sefydlodd Ofcom, Y Ddeddf Cyfathrebiadau, yn mynnu ein bod yn gwneud hyn.

Un o'r ffyrdd sydd gennym i hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr yw hybu cystadlu, boed hynny ym maes gwasanaethau radio a theledu, gwasanaethau telathrebu symudol a llinell dir neu'r rhyngrwyd sefydlog neu ddi-wifr.

Mae cystadlu'n dod â llawer o fuddion i bob un ohonom. Prisiau is, mwy o ddewis, a datblygiadau newydd mewn technoleg a gwasanaethau; ac mae llawer o fanteision eraill hefyd.

Ond mae Ofcom am sicrhau hefyd fod yr holl ddefnyddwyr yn gallu manteisio'n llawn ar y buddion hyn ac nad yw gweithredwyr yn y farchnad yn cam-elwa ar ymddiriedaeth eu cwsmeriaid.

Yn yr adran isod, dangosir rhywfaint o'r gwaith yr ydym wedi'i wneud yn 2007/8 i amddiffyn a grymuso cwsmeriaid.

## Rhoi pen ar gam-werthu ffonau symudol

Yn haf 2007 rhoddodd Ofcom rybudd terfynol i'r diwydiant ffonau symudol. Rhoesom rybudd bod rhaid iddo roi pen ar gamarferion o ran marchnata a gwerthu, neu wynebu rheoleiddio llymach o lawer i sicrhau cydymffurfio.

Roeddem yn neilltuol o bryderus ynghylch dwy duedd: lle rhoddir gwybodaeth ffug neu anghywir i gwsmeriaid pan ydynt yn prynu contract ffôn symudol, a chynnig anogaethau penodol fel ad-daliadau ariannol gan asiantau gwerthu lle nad yw'r arian byth yn dod i law.

Ym mis Gorffennaf 2007, cytunodd y pum cwmni gweithredu ffonau symudol ar gôd gwirfoddol i'r diwydiant. Roedd hwn yn diffinio'r arferion gorau ar gyfer marchnata a gwerthu gwasanaethau ffôn symudol, un ai'n uniongyrchol neu drwy asiantiaid gwerthu trydydd parti.

Ni arweiniodd y côd gwirfoddol at ostyngiad yn nifer y cwynion gan gwsmeriaid. Erbyn mis Ionawr 2008 roeddem yn cael 700 o gwynion y mis ar gyfartaledd o'i gymharu â 460 ym mis Gorffennaf 2007.

Ar ôl rhoi'r rhybudd, ym mis Mawrth 2008 cynigiodd Ofcom reolau gorfodol newydd i roi pen ar arferion gwerthu a marchnata camarweiniol. Roedd hwn yn Amod Cyffredinol newydd, rheol y gellir ei gorfodi drwy'r gyfraith y mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaethau cyfathrebu lynu wrthi. Y gosb fwyaf am dorri'r rheol yw dirwy o hyd at 10 y cant o'r trosiant perthnasol.

Rydym yn disgwyl i'r rheolau newydd ddod i rym yn haf 2008.

## Trosglwyddo rhifau'n gynt

Mae gan y DU un o'r marchnadoedd mwyaf cystadleuol yn y byd ar gyfer ffonau symudol, gyda phum cwmni gweithredu rhwydwaith a nifer o gwmnïau gweithredu 'rhith' sy'n manwerthu'n unig.

Er mwyn i ddefnyddwyr fanteisio'n llawn ar y cystadlu hwn, mae angen iddynt allu newid o'r naill gwmni gweithredu i'r llall yn rhwydd ac yn syml. Mae cwsmeriaid hefyd am gadw eu rhif ffôn symudol pan fyddant yn newid cyflenwr.

Ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus, cyhoeddodd Ofcom ym mis Tachwedd 2007 y byddai defnyddwyr o 1 Ebrill 2008 yn gallu derbyn galwadau gan ddefnyddio eu rhif presennol o fewn dau ddiwrnod ar ôl symud i rwydwaith ffonau symudol newydd, yn hytrach na phum niwrnod. Yn ogystal â hynny, cyhoeddodd Ofcom gynlluniau i symud at drosglwyddo o fewn dwy awr erbyn 1 Medi 2009.

## Rheolau newydd i fynd i'r afael â slamio

Mae'r darganfyddiad annifyr eich bod wedi'ch 'slamio' (bod eich cyfrif ffôn wedi'i symud i gwmni darparu arall yn ddiarwybod i chi neu heb ichi roi'ch caniatâd, yn ôl pob golwg) yn un o blith nifer o dechnegau cam-werthu a ddefnyddir gan rai cwmnïau gweithredu llinellau sefydlog.

Rhoddodd Ofcom sylw i'r ystryw hon, a rhai tebyg iddi, ym Mai 2005 pan ddaeth yn ofynnol i gwmnïau darparu gydymffurfio ag Amod Cyffredinol ar Hawl (GC 14.5), a bennodd gôd ymarfer ar gyfer gweithgareddau gwerthu a marchnata.

Cyflwynwyd y rheolau'n wreiddiol am gyfnod o ddwy flynedd, ond estynnwyd y cyfnod hwnnw ym Mai 2007 yng ngoleuni nifer mawr y cwynion gan ddefnyddwyr. Yn ogystal â hynny, estynnodd Ofcom y rheol GC 14.5 i gynnwys gwerthu a marchnata technoleg Dadfwndelu Dolennau Lleol (LLU) – llinellau ffôn sy'n rhedeg rhwng cartrefi neu swyddfeydd a'r cyfnewidfeydd, nad ydynt yn cael eu gweithredu gan BT.

Gwella cydymffurfio a grymuso dinasyddion a defnyddwyr



## Ymchwiliadau i gam-werthu gwasanaethau llinell sefydlog a chydymffurfio

Ym mis Mawrth 2008 cyhoeddodd Ofcom ymchwiliad pellgyrhaeddol i gam-werthu yn y farchnad gwasanaethau llinell sefydlog. Mae'r ymchwiliad yn cwmpasu pob math o gam-werthu gan gynnwys:

- slamio;
- pan fydd cwmnïau darparu gwasanaethau cyfathrebu'n cymryd arnynt fod yn gwmnïau eraill;
- pan fydd cwmnïau darparu gwasanaethau cyfathrebu'n methu â rhoi gwybodaeth bwysig i ddefnyddwyr, er enghraifft, hyd byrraf y contract neu fanylion ffioedd a godir am derfynu contract yn gynnar;
- pan fydd cwmnïau darparu gwasanaethau cyfathrebu'n gwrthod neu'n ei gwneud yn anodd i ddefnyddwyr drosglwyddo i gwmni cyflenwi gwahanol.

Cychwynnodd Ofcom ar raglen ymchwilio pan gyhoeddodd reolau newydd i amddiffyn defnyddwyr rhag cam-werthu a slamio yn 2005 a chymerodd gamau gorfodi yn erbyn wyth cwmni darparu gwasanaethau cyfathrebu yn ystod y cyfnod hwn.

Roedd hyn o gymorth i ostwng nifer y cwynion am gam-werthu gan gwmnïau llinellau sefydlog a gafodd Ofcom o uchafswm o 1,200 y mis yn 2005 i tua 350 y mis yn Ionawr 2008.

Ond mae dyfodiad cynhyrchion newydd bellach yn arwain at gynnydd yn nifer y cwynion gan ddefnyddwyr, a dyma pam y mae Ofcom yn ehangu cwmpas ei ymchwiliad. Gellir gweld manylion ymchwiliadau ac achosion gorfodi Ofcom ar ran defnyddwyr yn y tabl gyferbyn.

### YMCHWILIADAU AC ACHOSION GORFODI AR RAN DEFNYDDWYR

Roedd camau gorfodi i amddiffyn defnyddwyr yn flaenoriaeth uchel i Ofcom yn 2007/8. Yn ystod y flwyddyn:

- Rhoddodd hysbysiadau am dorri rheolau ar gamwerthu i:
  – Swyddfa'r Post
  – Universal Utilities (yn masnachu dan yr enw Unicom)
  – Economy Calls Cyfyngedig;

- Rhoddodd hysbysiadau am gamddefnyddio parhaus a gosod cosbau ariannol gwerth cyfanswm o £35,000 fel rhan o'i raglen orfodi ar alwadau distaw ac anorffenedig ar:
  – Abbey National
  – Complete Credit Management Cyfyngedig;

- Gosododd gosb o £50,000 ar Telecoms Billing Services (TBS) Cyfyngedig am gamddefnyddio parhaus (roedd yn anfon negeseuon testun camarweiniol na ofynnwyd amdanynt at ddefnyddwyr);

- Rhoddodd hysbysiad am dorri rheolau i Virgin Media am fethu â darparu gwybodaeth am leoliad galwyr i'r cyrff gwasanaethau brys. Wrth roi'r hysbysiad hwn, defnyddiodd Ofcom ei bŵer i ddelio ag achosion brys gan fynnu y cymerid camau cywirol o fewn ychydig dros dair wythnos yn hytrach na'r terfyn amser arferol o un mis ar ôl rhoi'r hysbysiad;

- Rhoddodd hysbysiad am dorri rheolau i Telecom Plus ccc (a oedd yn masnachu dan yr enw The Utility Warehouse Discount Club) am wrthod trosglwyddo cwsmeriaid heb gael caniatâd penodol gan y cwsmer;

- Rhoddodd hysbysiad pellach am dorri rheolau i Spacetel UK Cyfyngedig gan fynnu ei fod yn cydymffurfio drwy ddefnyddio ateb technegol fel y gallai gyflawni ei rwymedigaethau dan Amod Cyffredinol 18 mewn cysylltiad â galluogi BT i drosglwyddo rhifau ffôn;

- Rhoddodd hysbysiad am dorri rheolau a gosod cosb o £30,000 ar Prodigy Internet Cyfyngedig am fethu â chydymffurfio â gofynion i ddarparu gwybodaeth i Ofcom;

- Rhoddodd hysbysiad i Primus Telecommunications Cyfyngedig mewn cysylltiad â thorri ei ddyletswydd i dalu ffi weinyddu i Ofcom; a.

- Daeth Ofcom ag achos llwyddiannus yn erbyn TBS am beidio â darparu gwybodaeth i Ofcom yn ystod ymchwiliad i'r cwmni am gamddefnyddio parhaus. Methodd TBS â darparu gwybodaeth mewn ymateb i ddau gais ffurfiol am wybodaeth. Gosododd Llys Ynadon Dinas Llundain y ddirwy statudol fwyaf o £5,000 am bob tramgwydd a rhoi dirwy o gyfanswm o £10,000 i TBS. Mynnodd y Llys Ynadon hefyd fod TBS yn talu costau mewnol ac allanol Ofcom yn llawn.

### YMCHWILIADAU I SICRHAU CYDYMFFURFIO

Cyhoeddodd Ofcom hefyd ym Mawrth 2008 ei fod yn cychwyn ymchwiliad ledled y diwydiant ynghylch y gofyniad i gwmnïau darparu gwasanaethau cyfathrebu fod yn aelod o un o'r cynlluniau datrys anghydfodau, sydd â'r amcan o ddelio â chwynion gan ddefnyddwyr.

Dan reolau Ofcom, rhaid i bob cwmni darparu gwasanaethau cyfathrebu ymaelodi â chynllun datrys anghydfodau (fel Otelo neu Cisas). Rhoddir sylw'n benodol yn yr ymchwiliad hwn i'r holl gwmnïau darparu gwasanaethau cyfathrebu nad ydynt yn aelod o gynllun o'r fath. Rydym wedi gofyn i gwmnïau un ai cadarnhau y byddant yn ymuno â chynllun o'r fath neu roi tystiolaeth dros beidio â'u hystyried yn gwmni darparu gwasanaethau cyfathrebu. Byddwn yn cymryd camau yn erbyn cwmnïau darparu sy'n methu ag ymuno â chynllun a'r gosb fwyaf fydd dirwy o hyd at 10 y cant o'r trosiant perthnasol.

### CADW RHEOLAETH AR DALIADAU YCHWANEGOL ANNHEG AR FILIAU CWSMERIAID

Ar yr wyneb, mae popeth yn ymddangos yn iawn: mae'n amlwg bod cystadlu wedi gostwng y prif brisiau y gwelwn eu hysbysebu am wasanaethau llinell sefydlog, band eang, ffonau symudol a theledu talu. Mewn rhai achosion, fodd bynnag, gellir cael costau ychwanegol annisgwyl sydd un ai'n annheg, neu heb fod yn glir pan ydych yn derbyn y llinell, neu'r ddau.

Yn Chwefror 2008, cynigiodd Ofcom gyflwyno canllawiau newydd ar gyfer cwmnïau darparu gwasanaethau cyfathrebu, yn egluro sut roeddem yn gweld y gyfraith a'n barn am yr hyn y mae'n rhaid i gwmnïau darparu ei wneud i gydymffurfio â Rheoliadau Telerau Annheg mewn Contractau 1999. Lluniwyd y canllawiau drafft yng nghyd-destun yr angen i gwmnïau darparu ddweud yn blaen beth yw'r ffioedd y maent yn eu codi, ac i'r ffioedd hynny fod yn rhai y gellir dangos eu bod yn deg.

Ymdriniai'r canllawiau â nifer o feysydd penodol.

**Ffioedd ychwanegol am beidio â thalu drwy Ddebyd Uniongyrchol**

- Rhaid i gwmnïau darparu egluro wrth hysbysebu prisiau pa ffioedd ychwanegol y byddai'n eu codi am dalu ag arian neu siec;
- os na ddangosir yn glir fod costau ychwanegol yn rhan o'r prif bris dan y contract, ni ddylai'r ffioedd ond adlewyrchu costau uniongyrchol y cwmni darparu; ond
- os yw ffioedd ychwanegol wedi'u dangos yn glir, bydd cystadlu arferol – yn hytrach na rheoleiddio – yn cadw disgyblaeth ar brisiau ar ran defnyddwyr.

**Amddiffyn aelwydydd sydd ag incwm isel**

Roedd disgwyl i wasanaeth newydd i rai ar incwm isel - BT Basic - gael ei gyflwyno ganol 2008. Ni fydd yn codi tâl ychwanegol ar gwsmeriaid sy'n dewis peidio â thalu drwy Ddebyd Uniongyrchol ac, yn wahanol i gynhyrchion teleffoni cymdeithasol blaenorol, bydd ar gael i ddefnyddwyr sydd â ffonau symudol a/neu wasanaethau band eang y telir amdanynt ymlaen llaw.

**Codi tâl am daliadau hwyr neu daliadau a fethodd**

- Dylai cwmnïau darparu hybu ymwybyddiaeth o'r ffioedd hyn ymysg defnyddwyr ;
- dim ond ar ôl i ddefnyddwyr gael cyfle teg i setlo eu bil y dylid codi tâl;
- os codir tâl, ni ddylai ond adlewyrchu'r gost uniongyrchol i gwmnïau darparu oherwydd taliad hwyr neu daliad a fethodd.

**Cyfnodau contract byrraf a ffioedd am derfynu'n gynnar**

- Rhaid i gwmnïau darparu fod yn glir ynghylch hyd gontract, ac unrhyw gosb am dorri'r cytundeb yn gynnar;
- Ni ddylid cael cyfnod contract dilynol heb fudd amlwg i'r defnyddiwr a chost i'r cwmni darparu;
- Os bydd cwsmer yn terfynu contract yn gynnar, ni ddylai byth orfod talu mwy na'r taliadau sy'n weddill ar gyfnod y contract hwnnw.

Ar ôl ymgynghori, rydym yn disgwyl cyhoeddi canllawiau terfynol yn hydref 2008.

### MYNEDIAD AT WASANAETHAU BRYS

Wrth i wasanaethau llais newydd ddatblygu, rhaid i'r ddarpariaeth rheoleiddio ddatblygu i gyd-fynd â hwy.

Ym mis Gorffennaf 2007, lansiodd Ofcom ymgynghoriad ynghylch mynnu bod cwmnïau sy'n darparu rhai mathau o wasanaethau Protocol Llais dros y Rhyngrwyd (VoIP) yn cynnig mynediad i alwadau brys. Roedd hyn yn dilyn ymchwil a ddangosodd fod 78 y cant o ddefnyddwyr gwasanaethau VoIP a oedd heb y cyfleuster hwn yn cymryd eu bod yn gallu cael mynediad at y gwasanaethau brys, neu eu bod yn ansicr.

Ym mis Rhagfyr 2007, cyhoeddodd Ofcom y bydd yr holl wasanaethau VoIP sy'n caniatáu i ddefnyddwyr wneud galwadau cenedlaethol yn gorfod darparu mynediad hefyd at rifau 999 a 112.

Gwella cydymffurfio a grymuso dinasyddion a defnyddwyr

## Helpu'r defnyddiwr

Mae swyddogaeth Gweithrediadau Canolog Ofcom yn delio â chwestiynau a chwynion gan wylwyr, gwrandawyr, cwsmeriaid i gwmnïau telathrebu a defnyddwyr a thrwyddedeion gwasanaethau cyfathrebu di-wifr.

Yn ystod y cyfnod sydd dan sylw, cofnododd y staff Gweithrediadau Canolog fwy na 166,600 o achosion o ganlyniad i ymholiadau dros y ffôn a chael mwy na 70,000 o ffurflenni wedi'u cwblhau dros y rhyngrwyd, negeseuon e-bost, llythyrau a ffacsys. O blith y rheini, roedd tua:

- 152,000 yn ymwneud â thelathrebu;
- 57,600 yn ymwneud â materion sy'n gysylltiedig â'r sbectrwm a thrwyddedu;
- 5,000 yn ymholiadau cyffredinol;
- 22,000 yn ymwneud â darllediadau.

### TELATHREBU

Roedd tua 10 y cant o'r holl gwynion gan gwsmeriaid ym maes telathrebu'n ymwneud â phroblemau a gafodd cwsmeriaid wrth newid gwasanaeth band eang neu ddarparu gwasanaeth mewn eiddo newydd. Ymhlith y materion a godwyd oedd 'tagiau' ar linellau ffôn a phroblemau â Chodau Awdurdodi Symud – cyfeirnod sy'n galluogi cwsmeriaid i newid eu cwmni darparu band eang yn ddidrafferth a gyda'r amharu lleiaf posibl ar y gwasanaeth.

Hefyd, roedd 10 y cant o'r cwynion gan gwsmeriaid yn ymwneud â cham-werthu. Mae hyn yn cynnwys sefyllfaoedd lle'r oedd cwsmer yn cael ei drosglwyddo i wasanaeth newydd yn ddiarwybod iddo neu heb ei ganiatâd; lle'r oedd cwsmer yn derbyn gwasanaeth ar sail gwybodaeth y mae'n cael wedyn ei bod yn anghywir; neu le yr addewir ad-daliad ariannol i gwsmer a bod hwnnw heb ei dalu. Roedd y cwynion gan gwsmeriaid yn cynnwys:

- newid cwmni darparu band eang;
- cam-werthu;
- oedi cyn gosod gwasanaeth;
- y tâl a godir os na chaiff biliau eu talu drwy ddebyd uniongyrchol;
- galwadau distaw;
- gwasanaeth annigonol i gwsmeriaid gan gwmnïau darparu gwasanaethau;
- problemau oherwydd colli gwasanaeth;
- materion sy'n ymwneud â thelerau contract.

Os yw'n briodol, bydd staff Gweithrediadau Canolog yn cwrdd â chwmnïau i drafod dulliau o wella eu gwasanaeth i gwsmeriaid. Bydd manylion cwmnïau sy'n amlygu problemau parhaus yn cael eu trosglwyddo i Grŵp Cystadlu Ofcom a allai gynnal ymchwiliad ffurfiol.

### SBECTRWM

Mae Canolfan Drwyddedu Ofcom (OLC) yn rhan o'r Gweithrediadau Canolog a deliodd â mwy na 57,600 o ymholiadau gan ddefnyddwyr a darparwyr gwasanaethau radiogyfathrebiadau, yn ogystal ag aelodau eraill o'r cyhoedd. Roedd y rhain yn ymwneud â'r canlynol:

- arweiniad i ddefnyddwyr gwasanaethau radiogyfathrebiadau ar faterion trwyddedu sy'n ymwneud â Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr;
- ymholiadau am ffioedd trwyddedu dan Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr;
- gwasanaeth Sitefinder ar-lein Ofcom, sy'n galluogi'r cyhoedd i ddarganfod lleoliad gorsafoedd ffonau symudol drwy roi côd post.

### DARLLEDU

Cofnododd tîm darlledu'r Gweithrediadau Canolog 22,000 o gwynion gan y cyhoedd. Cafodd unrhyw gwynion a oedd heb eu datrys gan y tîm eu trosglwyddo i'r Grŵp Cynnwys a Safonau fel y gallai ymchwilio iddynt ymhellach.

Y prif achos cwyno ynghylch rhaglenni teledu a radio oedd deunydd yr oedd gwylwyr neu wrandawyr yn ei gael yn niweidiol neu'n dramgwyddus, gan gynnwys sylwadau hiliol, iaith gryf, portreadu rhyw a thramgwyddo yn erbyn crefydd. Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch cystadlaethau a phleidleisio. Roedd tua 12 y cant o'r cwynion a gafwyd yn ymwneud â chanlyniadau The *X Factor Final* ac roedd tua naw y cant o'r cwynion a gafwyd yn ymwneud â *Big Brother 8*.

Rhaglenni eraill a achosodd nifer sylweddol o gwynion* oedd:

- *Bringing Up Baby*;
- *Eastenders*;
- *Hell's Kitchen*;
- *Coronation Street*;
- *News Knight with Sir Trevor MacDonald*;
- *Diana: The Witnesses in the Tunnel*;
- y sylw i amryw o eitemau newyddion drwy'r flwyddyn, a
- gweithrediad gwahanol raglenni a sianeli cwis

* *Nid ymdrinnir yma â Celebrity Big Brother, a achosodd 44,500 o gwynion, gan iddi gael ei darlledu yn Ionawr 2007.*

# Sicrhau canlyniadau i'r cyhoedd wrth i lwyfannau a gwasanaethau gydgyfeirio

## Adfer ymddiriedaeth mewn darlledu

### Y "METHIANT SYSTEMATIG" YNGHYLCH GWASANAETHAU FFÔN PREMIWM

Y ddadl ynghylch ymddiriedaeth oedd y brif thema i ddarlledwyr yn ystod 2007. Roedd llawer o ddarlledwyr wedi colli ymddiriedaeth eu rhanddeiliaid pwysicaf – eu cynulleidfaoedd – drwy gamddefnyddio gwasanaethau ffôn cyfradd premiwm a gwasanaethau rhyngweithiol eraill. Roedd hyn yn cynnwys rhai o raglenni teledu mwyaf poblogaidd y wlad, a oedd yn cael eu gwylio gan filiynau o bobl.

Gall gwasanaeth ffôn cyfradd premiwm ddarparu cyfleusterau i gymryd rhan a phleidleisio mewn cystadlaethau, gwybodaeth wedi'i recordio neu sgwrsio byw ar gyfer galwyr. Codir tâl ar gyfradd uwch ar alwyr ar eu bil ffôn – hyd at £1.50 y funud ar linellau BT. Rhennir y taliadau rhwng darparwr y gwasanaeth a gweithredwr y rhwydwaith sy'n rhoi'r rhif ffôn premiwm ar les i'r darparwr.

Ym mis Gorffennaf 2007, cyhoeddodd Ofcom y canfyddiadau o ymchwiliad helaeth i wasanaethau ffôn cyfradd premiwm a gynhaliwyd dan arweiniad Richard Ayre, aelod anweithredol o Fwrdd Cynnwys Ofcom a chyn-ddirprwy Brif Weithredwr Newyddion y BBC. Canfyddiadau'r ymchwiliad hwn, a lansiwyd ar ôl y nifer mawr o ymchwiliadau i raglenni a oedd yn defnyddio gwasanaethau ffôn cyfradd premiwm, oedd:

- bod y methiannau o ran cydymffurfio'n rhai systematig;
- bod cynhyrchu refeniw yn un o'r prif ffactorau yn nhwf gwasanaethau ffôn cyfradd premiwm;
- bod rhai darlledwyr yn methu â chydnabod eu cyfrifoldeb i gyflawni'r trafodion yr oeddent yn eu cynnig;
- bod diffyg eglurder ymddangosiadol yng nghadwyn gyflenwi'r gweithredwyr telathrebu, y cynhyrchwyr a'r darlledwyr – gan greu diffyg eglurder ynghylch cyfrifoldebau;
- bod pryder ymysg darlledwyr ynghylch diffyg eglurder rhwng Ofcom a'r corff rheoleiddio gwasanaethau ffôn cyfradd premiwm ICSTIS (a ailenwyd wedyn yn PhonepayPlus).

Un o argymhellion yr ymchwiliad oedd y dylid gosod rhwymedigaethau newydd ar ddarlledwyr yn eu trwydded, gan eu gwneud yn uniongyrchol gyfrifol am amddiffyn defnyddwyr ac am gydymffurfio mewn cysylltiad â gwasanaethau ffôn cyfradd premiwm. Argymhellodd hefyd y dylai darlledwyr radio a theledu sicrhau bod gweithgarwch gwasanaethau ffôn cyfradd premiwm yn cael ei wirio'n annibynnol gan drydydd parti.

Yn yr un mis ag y cyhoeddodd ymchwiliad Richard Ayre, cymerodd Ofcom gamau i roi ei argymhellion ar waith.

Cyhoeddodd Ofcom ymgynghoriad hefyd ar reoleiddio gwasanaethau cyfranogi penodol ar gyfer teledu – sef, gan fwyaf, gwasanaethau cwis, seicig a sgwrsio i oedolion sydd i gyd yn dibynnu'n helaeth ar ryngweithio â gwylwyr drwy ddefnyddio gwasanaethau ffôn cyfradd premiwm. Ym mis Ebrill 2008 ac ar ôl yr ymgynghoriad, cynigiodd Ofcom reolau newydd i reoleiddio'r gwasanaethau hyn yn fwy cadarn.

Ym mis Rhagfyr, cyhoeddodd Ofcom gytundeb fframwaith newydd rhyngddo a PhonepayPlus sy'n cynnwys cysylltiadau gwaith agosach a threfniant newydd lle gall Ofcom roi cyfarwyddiadau i PhonepayPlus ar faterion pwysig.

### ADFER YMDDIRIEDAETH MEWN DARLLEDU

Mewn ymgais bellach i adfer ymddiriedaeth y cyhoedd mewn darlledu, cynhaliwyd seminar ar y cyd gan Ofcom ac Ymddiriedolaeth y BBC yn Llundain ym mis Tachwedd 2007 lle'r oedd Prif Weithredwyr Ofcom, Channel 4 a Five yn bresennol, yn ogystal â Chyfarwyddwr Cyffredinol y BBC, Cadeirydd Ymddiriedolaeth y BBC a Chadeirydd Gweithredol ITV.

Yn y cyfarfod, ymrwymodd gweithredwyr y diwydiant i ymgymryd â chyfres o fesurau a'r rheini'n cynnwys: ffurfioli grŵp traws-ddiwydiant i rannu'r arferion gorau ac ystyried dulliau cyffredin o ddelio â materion sy'n ymwneud â gwasanaethau ffôn cyfradd premiwm; rhoi sylw i'r berthynas rhwng yr holl ddolennau yn y gadwyn gyflenwi, gan gynnwys eglurder ynghylch materion contractiol a chydymffurfio; a datblygu cynigion ar gyfer hyfforddiant ar draws y diwydiant, gan gynnwys gweithwyr llawrydd, ar safonau moesegol a'r arferion golygyddol gorau.

### SANCSIYNAU AM DORRI YMDDIRIEDAETH

Yn ystod y flwyddyn sydd dan sylw yn yr adroddiad, gosododd Ofcom nifer o ddirwyon (a sancsiynau statudol eraill) ar ddarlledwyr am doriadau difrifol ar ei Gôd Darlledu a oedd yn ymwneud â cham-fanteisio ar ymddiriedaeth. Mae nifer o ymchwiliadau pellach yn dal i fynd ymlaen. Rhai o'r dirwyon a osodwyd oedd:

- **Channel 4: £1.5 miliwn.** Cafwyd bod rhaglen *Richard & Judy* wedi rhedeg ei gêm *You Say We Pay* yn annheg, drwy ddethol chwaraewyr y

Sicrhau canlyniadau i'r cyhoedd wrth i lwyfannau a gwasanaethau gydgyfeirio

rownd derfynol yn gynnar cyn cau ei llinellau ffôn. Nid oedd unrhyw obaith o gael eu dethol gan wylwyr a alwai ar ôl tynnu'r rhestr fer. Roedd y rhaglen hefyd yn defnyddio proses 'dethol croesgam' i ddewis chwaraewyr y rownd derfynol, fel nad oedd cyfle teg a chyfartal i ennill gan y rhai a gymerai ran. Cafwyd bod yr arfer hon wedi'i dilyn hefyd wrth wneud *Deal or No Deal*.

- **GMTV: £2 filiwn.** Gosododd Ofcom ei gosb ariannol fwyaf erioed ar GMTV, yn dilyn camarfer yn ei gystadlaethau i wylwyr rhwng Awst 2003 a Chwefror 2007. Cafwyd bod y sianel:
  – yn dethol y chwaraewyr i rownd derfynol ei chystadlaethau cyn cau llinellau ffôn;
  – yn defnyddio prosesau dethol annheg, lle nad oedd cyfle teg a chyfartal o gael eu dethol gan y rhai a alwai.
- **BBC: £50,000.** Roedd dirwy gyntaf Ofcom ar y BBC yn ganlyniad i doriadau ar y Côd Darlledu yn ystod darllediad byw o *Blue Peter* ar BBC1 ar 27 Tachwedd 2006. Cafodd y BBC ddirwy o £45,000 am beri i blentyn a oedd yn westai yn y stiwdio honni ei fod wedi ennill cystadleuaeth ffôn i wylwyr. Rhoddwyd dirwy ychwanegol o £5,000 i'r darlledwr am ailddarlledu'r rhaglen ar CBBC a methu ag egluro i wylwyr fod y gystadleuaeth eisoes wedi gorffen.
- **Five: £300,000.** Cafwyd bod y sianel wedi ffugio enillwyr a chamarwain y gynulleidfa ar bum achlysur gwahanol yn ystod ei rhaglen gwis *Brainteaser on Five*. Roedd 11 o enghreifftiau pellach o gystadlaethau annheg a oedd yr un fath neu'n debyg wedi digwydd hefyd ar y rhaglen hon, ac ar y rhaglen *Memory Bank* a ddeilliodd ohoni.

## Diogelu safonau mewn darlledu

### CELEBRITY BIG BROTHER

Ysgogwyd teimladau cryf ymysg aelodau'r cyhoedd gan *Celebrity Big Brother* 2007, a chafodd Ofcom fwy na 45,500 o gwynion am y rhaglen. Roedd yr ymateb digyffelyb hwn wedi'i ysgogi gan yr hyn a ystyrient yn bwlio yn erbyn un o breswylwyr y tŷ, Shilpa Shetty. Credai llawer fod yr ymddygiad yn nhŷ Big Brother wedi'i ysgogi gan hiliaeth.

Lansiodd Ofcom ymchwiliad llawn tra oedd y rhaglen yn dal ar yr awyr, a chafodd fod Channel 4 wedi ffurfio camfarnau golygyddol difrifol, a oedd wedi'u dwysáu gan fethiant sylweddol yn ei broses gydymffurfio. Cafwyd bod y sianel wedi torri'r Côd Darlledu, a gosododd Ofcom sancsiwn statudol ar Channel 4 (ac ar S4C), gan fynnu ei fod yn darlledu datganiad o'i ganfyddiadau ar dri achlysur gwahanol.

### CEFNOGI RHAGLENNI TELEDU YMESTYNNOL

Yn ogystal â hynny, ceisiodd Ofcom amddiffyn hawl y darlledwyr a'r gynulleidfa i ryddid mynegiant. Mae'n hollbwysig bod darlledwyr yn parhau i drafod ac ymchwilio i faterion sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd. Yn ystod y flwyddyn, dyfarnodd Ofcom ynghylch nifer o raglenni dadleuol ac ymestynnol a oedd wedi denu nifer sylweddol o gwynion. Ymhlith y rhain yr oedd adroddiadau newyddion am ddienyddio Saddam Hussein (Newyddion y BBC a Sky News), *Diana: The Witnesses in the Tunnel* a *Bringing Up Baby* (y ddwy ar Channel 4) a *Weekend "Nazis"* (BBC1).

Y rhaglen a ddenodd y sylw mwyaf oedd *Undercover Mosque* ar Channel 4, a oedd yn rhan o'i gyfres materion cyfoes ymchwiliadol *Dispatches*, a oedd yn cynnwys lluniau a oedd wedi'u ffilmio'n ddirgel mewn mosgiau ac mewn cysylltiad â chyrff eraill.

Roedd y recordiadau dirgel yn cynnwys dysgeidiaeth nifer o siaradwyr yr oedd y rhaglen yn honni eu bod yn homoffobig, yn wrth-Semitaidd, yn rhywiaethol ac yn gondemniol o rai nad oeddent yn Foslemiaid. Dywedodd y rhaglen ei bod wedi darganfod bod eithafiaeth yn cael ei phregethu yn y wlad hon: "…mae ideoleg ragfarnllyd ac anoddefgar yn cael ei thaenu drwy Brydain sydd â'i gwreiddiau yn Sawdi Arabia".

Cafodd Ofcom 364 o gwynion, ac roedd yn ymddangos bod tystiolaeth bod y cwynion yn rhan o ymgyrch. Roeddent yn honni bod tuedd yn y rhaglen a'i bod yn tramgwyddo yn erbyn Moslemiaid; bod safbwyntiau siaradwyr yn tramgwyddo rhai nad oeddent yn Foslemiaid; bod y rhaglen yn gogoneddu hiliaeth, gwrth-Semitiaeth, rhywiaeth a therfysgaeth; a bod y portread o siaradwyr mewn mosgiau'n gamarweiniol. Cawsom ddwy gŵyn hefyd gan rai a gymerodd ran yn y rhaglen a honnodd eu bod wedi'u trin yn annheg a bod tarfu wedi bod ar eu preifatrwydd.

Yn ein hymchwiliad cawsom fod rhaglen *Dispatches* wedi dadlennu materion o ddiddordeb pendant i'r cyhoedd, ei bod wedi trafod y deunydd yn gyfrifol ac nad oedd tystiolaeth bod y gynulleidfa wedi'i chamarwain. Cawsom hefyd na fu unrhyw annhegwch â'r rheini a oedd wedi'u cynnwys yn y rhaglen a bod cyfiawnhad dros unrhyw darfu ar breifatrwydd a gafwyd am fod hynny er lles y cyhoedd.

## Adolygiad o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus

Efallai nad yw darlledu gwasanaeth cyhoeddus (DGC) yn derm yr ydym yn ei ddefnyddio wrth sgwrsio bob dydd. Efallai nad yw'n rhywbeth yr ydym yn sylwi arno pan fyddwn yn gwylio'r teledu, yn gwrando ar y radio neu'n edrych ar rywbeth ar y rhyngrwyd. Ond mae'n un o'r pethau hynny y byddem yn gweld eu colli.

Mae rhaglenni DGC yn adlewyrchu bywyd yn y DU a'n hunaniaeth ddiwylliannol. Maent yn hybu ein dealltwriaeth o'r byd, yn meithrin ein gwybodaeth a'n diddordebau ac yn ein deffro i fodolaeth diwylliannau a safbwyntiau gwahanol. Dyma'r math o raglenni y byddwch yn gweld eu colli pan ewch i wlad dramor ar eich gwyliau, neu'r rhaglenni y gallech eu recordio pan fyddwch oddi cartref.

Mae DGC yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd gan gyrff darlledu sydd dan berchnogaeth gyhoeddus (y BBC, Channel 4 ac S4C), a darlledwyr masnachol (ITV1, Five a Teletext).

Er bod y farchnad ar ei phen ei hun yn darparu llawer o raglenni y gellid eu hystyried yn DGC, mae ein gwaith ymchwil wedi dangos nad yw hyn yn ddigon i ateb gofynion cynulleidfaoedd.

Ym mis Mai 2007 cyhoeddodd Ofcom y byddai'n dechrau ar ei adolygiad o DGC ddwy flynedd yn gynt nag a fwriadwyd yn wreiddiol. Y rheswm am hyn yw bod DGC ar groesffordd. Mae cynulleidfaoedd yn gweld gwerth mewn cystadlu yn erbyn y BBC, ond mae economeg sylfaenol darlledu gwasanaeth cyhoeddus masnachol yn fwyfwy anodd. Ac er bod cynulleidfaoedd yn rhoi pris uchel ar raglenni gwasanaeth cyhoeddus sydd wedi'u gwneud yn y DU gan gymysgedd o ddarparwyr, mae perygl na chaiff hynny ei ddarparu i'r un graddau yn y dyfodol.

Y mis wedyn rhoesom ddewisiadau gerbron ar gyfer dyfodol tymor hir Channel 4, yn dilyn astudiaeth annibynnol o sefyllfa ariannol y corff darlledu hwnnw, a ddaeth i'r casgliad bod ei fodel ariannu presennol yn debygol o fynd yn anghynaladwy. Ystyrir y mater hwn yn yr adolygiad o DGC.

Ym mis Medi 2007 cyhoeddodd Ofcom y cylch gorchwyl ar gyfer yr adolygiad o DGC ac ym mis Ebrill, yn fuan ar ôl diwedd y cyfnod sydd dan sylw, cyhoeddodd ran gyntaf ei adolygiad.

Roedd y rhan hon o'r adolygiad yn nodi dulliau posibl eraill o ariannu DGC yn y dyfodol er mwyn ateb gofynion cynulleidfaoedd, a hynny'n cwmpasu cynnwys sydd ar gael yn eang ac yn rhad ac am ddim ar y pwynt defnyddio ac sy'n gwasanaethu holl gymunedau'r DU.

Y bwriad yw i'r adolygiad gychwyn dadl eang ynghylch dyfodol DGC. Yn ogystal â gofyn am ymatebion fel rhan o ymgynghoriad ffurfiol, lansiwyd blog ar-lein gan Ofcom i bobl gael trafod y materion sydd dan sylw yn yr adolygiad.

Rydym yn bwriadu cyhoeddi ail ran yr adolygiad yn hydref 2008.

## Diwygiadau yn y sector radio

Ym mis Ebrill 2007, cyhoeddodd Ofcom *Dyfodol Radio*, fframwaith ar gyfer rheoleiddio a thrwyddedu radio yn y dyfodol, gan gwmpasu'r newid sy'n mynd ymlaen o radio analog i lwyfannau digidol gan gynnwys darlledu clywedol digidol (DAB), teledu digidol a'r rhyngrwyd.

Mae'r sector radio yn wynebu heriau mawr, a hynny'n cynnwys cystadlu gan dechnolegau eraill fel y rhyngrwyd, yn ogystal â mwy o wrando ar lwyfannau digidol sy'n rhoi pwysau cynyddol ar orsafoedd analog lleol. Amcan ein cynigion oedd ymdrin â'r materion hyn drwy reoleiddio cymesur, a sicrhau bod gwrandawyr yn dal i gael dewis ac amrywiaeth wrth i radio newid i'r digidol.

Ar ôl ymgynghori ar y fframwaith, cyhoeddodd Ofcom gyfres o ddiwygiadau yn y sector radio.

### PWYSIGRWYDD CYNNWYS LLEOL

Dangosodd ein gwaith ymchwil fod gwrandawyr yn troi at radio yn gyntaf pan fyddant am gael gwybodaeth leol allweddol am bethau fel teithio, y tywydd a newyddion. Roeddent hefyd yn pryderu y byddai'r ansawdd yn is pe na fyddai'r cynnwys hwn yn cael ei wneud a'i gyflenwi'n lleol.

Oherwydd hynny, ein cynnig oedd y dylai'r holl orsafoedd radio FM lleol ddarparu o leiaf ddeg awr o raglenni wedi'u gwneud yn lleol bob diwrnod yn ystod yr wythnos, a phedair awr ar benwythnosau.

Ond er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd, byddai gorsafoedd llai yn gallu rhannu cyfran fawr o'r rhaglenni hyn (heblaw ar amser brecwast) â gorsafoedd cyfagos eraill.

### RHEOLEIDDIO SYMLACH AR FFORMATIAU

Penderfynodd Ofcom symleiddio'r rheoleiddio ar Fformatiau mewn trwyddedau radio analog, gan ei gysoni â'r rheoleiddio ar Fformat DAB. Roedd hyn yn dileu'r gofynion manwl diangen ar gyfer Fformatiau analog, gan gadw amrywiaeth y gwasanaethau radio i wrandawyr.

### RHEOLAU SYMLACH AR BERCHNOGAETH

Rhoddodd Ofcom argymhelliad i'r Llywodraeth ar gyfer rheolau symlach ar berchnogaeth gorsafoedd radio, a fyddai'n caniatáu mwy o gyfuno o fewn y diwydiant gan ddiogelu lluosogrwydd ym maes radio masnachol lleol.

### RADIO CYMUNEDOL

Rhoddodd Ofcom argymhelliad hefyd y dylai'r Llywodraeth symleiddio'r meini prawf ar gyfer trwyddedau radio cymunedol, gan roi mwy o hyblygrwydd i ni wrth ystyried ceisiadau am drwyddedau. Dadleuodd Ofcom hefyd dros gael estyniad o bum mlynedd ar drwyddedau cymunedol.

Sicrhau canlyniadau i'r cyhoedd wrth i lwyfannau a gwasanaethau gydgyfeirio

## CANT CYNTAF RADIO CYMUNEDOL

Maent yn fach, maent yn gweithredu'n ddielw ac maent yn cyrraedd pobl sydd ag un peth unigryw'n gyffredin iddynt - eu bod yn byw yn yr un ardal 5km o faint. Maent yn llwyddiannus hefyd.

Mewn cwta dair blynedd, mae gorsafoedd radio cymunedol y DU wedi datblygu'n gyflym ym mhob rhan o'r DU. Yn wir, ym Mawrth 2008, cyhoeddodd Ofcom fod y canfed orsaf wedi dechrau darlledu.

Er bod rhai gorsafoedd wedi'u bwriadu i wasanaethu cymunedau cyfan, mae eraill yn canolbwyntio ar un gynulleidfa. Er enghraifft, yn Newport yn Ynys Wyth mae gorsaf sy'n gofalu am anghenion pobl hŷn; yn Birmingham mae gorsaf ar gyfer y gymuned Foslemaidd; mae gorsaf Gristnogol yn Cumbernauld; ac, yn Llundain, mae gorsaf ar gyfer celfyddyd radio arbrofol.

Erbyn diwedd y flwyddyn sydd dan sylw yn yr adroddiad, roedd Ofcom wedi rhoi 162 o drwyddedau radio cymunedol, ac mae ail gyfnod trwyddedu wedi dechrau.

## TRWYDDEDAU RADIO CYMUNEDOL A RODDWYD

Rhoddwyd trwyddedau i wasanaethu'r cymunedau canlynol yn ystod y flwyddyn:

**MAI 2007**
Inverness
Isle of Bute
North and South Queensferry
Dumfries
Bangor (Gogledd Iwerddon)
Enniskillen

**MEHEFIN 2007**
Derry/Londonderry
Aldergrove ac Antrim
Ballykinler
Holywood
Badenoch a Strathspey

**GORFFENNAF 2007**
Stonehaven a The Mearns, De Swydd Aberdeen
St. Boswells, Borders
Dunoon, Argyll
Glasgow
Barrhead, Dwyrain Swydd Renfrew
Lisburn
Belfast

**MEDI 2007**
Stevenston, Saltcoats ac Ardrossan, Gogledd Swydd Ayr
Newcastle-upon-Tyne
Sunderland
Middlesbrough

**HYDREF 2007**
Hartlepool
Bishop Auckland
Catterick Garrison
South Craven, Swydd Efrog

**TACHWEDD 2007**
Caerlŷr


**RHAGFYR 2007**
Doncaster, De Swydd Efrog
Harthill, De Swydd Efrog
Market Weighton a Pocklington, East Riding Swydd Efrog
Penistone, De Swydd Efrog
Thorne a Moorends, De Swydd Efrog
Cilgwri

**IONAWR 2008**
Llandudno, Gogledd Cymru
Y Rhyl, Gogledd Cymru
Preston, Swydd Gaerhirfryn

**CHWEFROR 2008**
Rossendale Valley, Swydd Gaerhirfryn
Bollington, Swydd Gaer
Biddulph, Swydd Stafford
Knowsley, Glannau Mersi

**MAWRTH 2008**
Moss Side, Canol Manceinion
Gogledd Manceinion
Bolton
Lincoln
Newark on Trent, Gogledd Swydd Nottingham
Grantham, Swydd Lincoln





## Sicrhau canlyniadau i'r cyhoedd wrth i lwyfannau a gwasanaethau gydgyfeirio

### TRWYDDEDAU RADIO MASNACHOL A RODDWYD

Rhoddodd Ofcom un drwydded FM fasnachol yn ystod y flwyddyn. Ar ôl cael wyth cais am drwydded De Cymru, penderfynodd Pwyllgor Trwyddedu Radio Ofcom roi'r drwydded i XFM South Wales Cyfyngedig, is-gwmni sy'n eiddo'n gyfan gwbl i GCap Media.

### RHOI TRWYDDED DAB GENEDLAETHOL NEWYDD


Ym mis Gorffennaf 2007, rhoddodd Ofcom y drwydded radio genedlaethol newydd ar gyfer Darlledu Clywedol Digidol (DAB) amlblecs i 4 Digital Group Cyfyngedig. Y cyfranddalwyr sydd y tu ôl i'r consortiwm hwn yw: Channel 4 Radio, Sky News Radio, Emap Digital Radio, UTV Radio, The Carphone Warehouse Group ac UBC Media Group.

### TRWYDDEDAU DAB LLEOL A RODDWYD

Rhoddodd Ofcom naw trwydded DAB leol yn ystod y flwyddyn:

| | |
|---|---|
| **MEHEFIN 2007** | |
| Lleoliad | Swydd Hertford, Swydd Bedford a Swydd Buckingham |
| Trwyddedai | NOWdigital |
| **GORFFENNAF 2007** | |
| Lleoliad | Swydd Derby |
| Trwyddedai | NOWdigital (East Midlands) Cyf |
| **MEDI 2007** | |
| Lleoliad | Swydd Henffordd a Swydd Gaerwrangon |
| Trwyddedai | MuxCo Hereford & Worcester Cyf |
| Lleoliad | Gogledd-ddwyrain Cymru a Gorllewin Swydd Gaer |
| Trwyddedai | MuxCo Northeast Wales and West Cheshire Cyf |
| **HYDREF 2007** | |
| Lleoliad | Swydd Northampton |
| Trwyddedai | NOWdigital Cyf |
| **TACHWEDD 2007** | |
| Lleoliad | Swydd Rydychen |
| Trwyddedai | NOWdigital (Oxford) Cyf |
| **RHAGFYR 2007** | |
| Lleoliad | Gogledd Swydd Efrog |
| Trwyddedai | MuxCo (North Yorkshire) Cyf |
| **IONAWR 2008** | |
| Lleoliad | Swydd Gaerloyw |
| Trwyddedai | MuxCo (Gloucestershire) Cyf |
| **CHWEFROR 2008** | |
| Lleoliad | Swydd Lincoln |
| Trwyddedai | MuxCo (Lincolnshire) Cyf |



Lleihau rheoleiddio a beichiau gweinyddol

# Lleihau rheoleiddio a beichiau gweinyddol




Mae Ofcom wedi ymrwymo i leihau ei feichiau rheoleiddio ar ei randdeiliaid. Mae'r awydd i ddileu rheoleiddio sy'n ddiangen ac wedi dyddio yn sail i bob agwedd ar ein gwaith. Ymhlith y meysydd pwysig lle cafwyd dadreoleiddio yn 2007/8 mae:

- Dileu rheoliadau ar rai gwasanaethau di-wifr, Ebrill 2007
- Cynyddu'r lefelau pŵer a ganiateir ar gyfer darlledu ar amledd 5.8 GHz, Mai 2007
- Eithrio technolegau Band Llydan Iawn o ofynion trwyddedu, Awst 2007
- Cynigion i ddileu amodau ar drwyddedau sbectrwm 2G, Medi 2007
- Cynigion i ddadreoleiddio marchnadoedd band eang cyfanwerthol, Tachwedd 2007
- Symleiddio Fformatiau radio, Tachwedd 2007
- Argymell symleiddio'r rheoleiddio ar Radio Cymunedol, Tachwedd 2007
- Argymell rheolau symlach ar berchnogaeth ar radio, Tachwedd 2007
- Dileu cyfyngiadau ar drwyddedau sbectrwm ar 3.5 GHz, Tachwedd 2007
- Caniatáu i gyrff cyhoeddus fasnachu a rhyddhau sbectrwm, Ionawr 2008
- Ystyried ceisiadau gan orsafoedd lleol i gydleoli, Chwefror 2008
- Cynigion i symleiddio rheolau ar ddosbarthu hysbysebion teledu, Mawrth 2008
- Dileu cyfyngiadau rheoliadol ar ddefnyddio ffonau symudol mewn awyrennau, Mawrth 2008.

# Dylanwadu i'r graddau mwyaf posibl ar ddatblygiad polisi rhyngwladol

Mae gweithgareddau Ofcom a rhai'r cwmnïau y mae'n eu rheoleiddio'n dod fwyfwy dan ddylanwad datblygiadau rhyngwladol. Mae Ofcom yn cynrychioli'r DU ar faterion sy'n ymwneud â'r sbectrwm radio mewn grwpiau rhyngwladol allweddol ac yn cymryd rhan mewn fforymau rhyngwladol ar faterion telathrebu a darlledu. Mae Ofcom yn cydweithio'n agos hefyd â Llywodraeth y DU i ddatblygu safbwyntiau polisi ar gynigion ar gyfer rheoleiddio newydd yn yr UE.

## Adolygiad o'r Fframwaith Ewropeaidd

Mae Fframwaith Cyfathrebu presennol yr UE wedi bod yn llwyddiant mawr i Ewrop, gan gynnig sylfaen gyffredin ar gyfer rhyddfrydoli marchnadoedd telathrebu. Ar ôl llusgo ei draed ar un adeg ar fand eang, mae'r UE wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran y niferoedd sy'n defnyddio band eang.

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd nawr yn cynnig Fframwaith newydd. Yn ystod 2007/8 cymerodd Ofcom ran yn y ddadl ynghylch yr hyn a ddylai fod yn y Fframwaith. Dadleuodd Ofcom y dylai'r Fframwaith:

- helpu'r UE i ryddfrydoli ei ddull o ddyrannu sbectrwm radio;
- bod ag ymrwymiad cadarn i reoleiddio sy'n annibynnol ar wleidyddiaeth;
- rhoi pŵer i gyrff rheoleiddio i wahanu swyddogaethau: gwahanu'r rhannau o fusnes cwmni gweithredu gwasanaethau telathrebu sydd â monopoli oddi wrth ei elfennau mwy cystadleuol;
- atgyfnerthu pwerau cyfreithiol cyrff rheoleiddio i ddelio ag ystrywiau a chamarferion newydd yn gyflym ac yn gadarn;
- dal y ddysgl yn wastad rhwng hyrwyddo cysondeb a chytgord ym maes rheoleiddio yn Ewrop, a'r angen i adlewyrchu gwahanol amgylchiadau cenedlaethol. Ar y pwynt hwn, mynegodd Ofcom rai pryderon ynghylch cynnig y Comisiwn ar gyfer asiantaeth reoleiddio newydd wedi'i hariannu gan yr UE.

## Grŵp Cyrff Rheoleiddio Ewrop

Mae Grŵp Cyrff Rheoleiddio Ewrop (ERG) yn fforwm i gyrff rheoleiddio telathrebu cenedlaethol sy'n cyflawni rôl dan Fframwaith Rheoleiddio'r UE o ran cynghori'r Comisiwn Ewropeaidd ar gymhwyso'r Fframwaith yn ymarferol.

Roedd Ofcom yn aelod o Fwrdd yr ERG yn ystod 2007, wedi iddo fod yn gadeirydd arno yn ystod 2006. Yn ystod 2007 parhaodd yr ERG â'i ddeialog glòs â'r Comisiwn ynghylch dyfodol rheoleiddio yn Ewrop, wrth i'r Comisiwn ddatblygu ei syniadau am yr adolygiad o'r Fframwaith. Cyfrannodd Ofcom adnoddau sylweddol at allbwn yr ERG. Roedd hyn yn cynnwys:

- barn fanwl am ddulliau rheoliadol o ddelio â rhwydweithiau mynediad cenhedlaeth nesaf (NGA), y disgwylir iddi fod yn sail i Argymhelliad y Comisiwn ar NGA a ddisgwylir yng ngwanwyn 2008;
- safbwyntiau cyffredin manwl ar reoleiddio marchnadoedd mynediad band eang cyfanwerthol a mynediad lleol cyfanwerthol;
- safbwynt cyffredin ar reoleiddio gwasanaethau Protocol Llais dros y Rhyngrwyd (VoIP), yn cwmpasu rhifau, trosglwyddo rhifau, a mynediad at wasanaethau brys 112;
- rhaglen beilot ar gyfer monitro cydymffurfiad cyrff rheoleiddio â'i safbwyntiau cyffredin.

Ym mlwyddyn ariannol 2007/8 hefyd gwelwyd mabwysiadu'r Rheoleiddio ar Drawsrwydweithio Rhyngwladol. Er mwyn sicrhau monitro cyd-drefnus ar ddatblygiad marchnadoedd trawsrwydweithio, cyhoeddodd yr ERG set o ganllawiau ar gyfer Awdurdodau Rheoleiddio Cenedlaethol a methodoleg gyffredin i'w defnyddio gan Awdurdodau wrth gasglu data.

## Cynhadledd Radiogyfathrebiadau'r Byd

Chwaraeodd Ofcom ran o bwys wrth gynrychioli'r DU yng Nghynhadledd Radiogyfathrebiadau'r Byd, a gynhaliwyd yn Hydref a Thachwedd 2007. Fe'i trefnwyd gan yr Undeb Telathrebu Rhyngwladol a diweddarodd y fframwaith rhyngwladol ar gyfer defnyddio sbectrwm.

Cydweithiodd Ofcom â'r Llywodraeth ac ystod eang o randdeiliaid i bennu blaenoriaethau'r DU ar gyfer y Gynhadledd, lle cafwyd tua 2,800 o gynrychiolwyr o 164 o wledydd.

Ymhlith ein blaenoriaethau ar gyfer Cynhadledd 2007 yr oedd pennu cyfleoedd i ddatblygu systemau cyfathrebu symudol uwch, a phennu cyfleoedd i ryddfrydoli'r defnydd o'r sbectrwm ymhellach, yn enwedig yn rhan uchaf y band UHF sydd wedi'i dyrannu ar gyfer darlledu ar hyn o bryd.

Cyflawnodd Ofcom ei amcanion yn y Gynhadledd, fel y gallwn symud ymlaen i ryddhau'r difidend digidol a rhyddfrydoli'r sbectrwm ymhellach.

Dylanwadu i'r graddau mwyaf posibl ar ddatblygiad polisi rhyngwladol

## Ffioedd trawsrwydweithio ar gyfer negeseuon testun a data

Yn Ionawr 2008 mynegodd Ofcom bryderon ynghylch ffioedd am drawsrwydweithio yn Ewrop y tynnwyd sylw atynt mewn adroddiad gan yr ERG.

Tynnodd Ofcom sylw at y ffaith bod cost uchel am anfon negeseuon testun o wledydd tramor: codir tâl o 21 geiniog ar gyfartaledd am bob neges testun a anfonir drwy drawsrwydweithio o Ewrop o'i gymharu â thâl cyfartalog o 5.6 ceiniog am bob neges testun a anfonir o fewn y DU, ond gyda chost ffiniol isel iawn.

Dywedodd Ofcom mai un mater a fyddai'n bwysicach yn y tymor hwy oedd y pris am drosglwyddo data wrth drawsrwydweithio. Y tâl cyfartalog a godwyd gan gwmnïau gweithredu'r DU am ddefnyddio gwasanaethau trosglwyddo data wrth drawsrwydweithio yn Ewrop yr haf diwethaf oedd £4.11 y Mb ac mae'r prisiau hyn yn gryn rwystr rhag defnyddio'r rhyngrwyd drwy ffôn symudol mewn gwledydd tramor.

Galwodd Ofcom ar y diwydiant i achub y blaen ar y mater hwn a rhybuddiodd y gallai fod angen inni weld mwy o weithredu ar lefel Ewrop os na fydd yn cymryd camau ar hyn.

Tynnodd Ofcom sylw hefyd at gostau galwadau mewn gwledydd tramor. Arfer gyffredin yw codi tâl am funud gyntaf gyfan am unrhyw alwad genedlaethol neu alwad drwy drawsrwydweithio, beth bynnag fo'i hyd. Os bydd yr alwad yn para mwy na munud, codir tâl am y gweddill fesul eiliad neu, weithiau, fesul cyfnod hanner munud. Mae hyn yn golygu y gellid codi tâl am alwad 20 neu 30 eiliad fel pe bai wedi cymryd un funud. Mae'r arfer hon yn ychwanegu hyd at 20 y cant, ar gyfartaledd, at filiau defnyddwyr a chododd Ofcom y mater hwn yn un o gyfarfodydd llawn cyrff rheoleiddio Ewrop.

## Rheoleiddio cynnwys yn yr UE

Bu Ofcom yn ymwneud â'r Comisiwn a chyrff rheoleiddio eraill yn yr UE eleni ar nifer o gynlluniau sy'n gysylltiedig â chynnwys. Mabwysiadwyd y Gyfarwyddeb ar Wasanaethau Cyfryngau Clywedol yn Rhagfyr 2007, a chydweithiodd Ofcom â'r Comisiwn a chyrff rheoleiddio eraill yn Ewrop i sicrhau y câi ei rhoi ar waith mewn modd cyson.

Yn ogystal â hynny, cyfrannodd Ofcom at nifer o gynlluniau, yn eu plith Cynnwys Creadigol mewn Cyfathrebu Ar-lein, Defnyddio Ffonau Symudol gan Blant ar gyfer Gwasanaethau Cynnwys, Tasglu Llythrennedd yn y Cyfryngau, Rhaglen Defnyddiwr Diogelach y Rhyngrwyd ac ymgynghoriad y Comisiwn ar y rheolau ar gymorth gwladwriaethol ym maes cyfathrebu ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus.



# Adran C

## Adolygiad Gweithredu ac Adolygiad Ariannol

Yn yr adran hon rydym yn egluro sut rydym yn gwerthuso ein perfformiad ac wedyn yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: y graddau yr ydym wedi cyflawni ein hamcanion a chymhwyso ein hegwyddorion rheoleiddiol; pa mor effeithiol y buom wrth berfformio a chyflenwi gwasanaethau; a'n perfformiad ariannol.

# Perfformiad a gwerthuso

Rydym wedi ymrwymo i adolygu a gwerthuso ein perfformiad, ac wedyn i gymhwyso'r hyn yr ydym wedi'i ddysgu. Rydym yn trafod isod y gwahanol ddulliau yr ydym yn eu defnyddio i fesur ein heffeithiolrwydd a'r hyn y mae'r canlyniadau'n ei ddweud wrthym.

Yn wahanol i gwmni preifat sy'n ceisio sicrhau'r elw mwyaf posibl ar ran ei gyfranddalwyr, nid yw Ofcom yn meddu ar un amcan penodol y gellir ei fesur yn rhwydd. Mae tri phrif reswm am hynny. Yn gyntaf, er mai ein prif ddyletswydd yw hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr, gan gynnwys busnesau, mae gennym ystod eang o ddyletswyddau penodol ac amryw o fathau o randdeiliaid. Yn ail, mae'n aml yn anodd gwahaniaethu rhwng ein heffaith ar ddatblygiadau yn y farchnad ac effaith ystod eang o ffactorau eraill. Ac yn drydydd, mater goddrychol yn aml yw penderfynu a ydym yn cyflawni ein dyletswyddau ac yn cymhwyso ein hegwyddorion rheoleiddiol, fel nad gwaith syml yw asesu ein perfformiad mewn modd mesuradwy.

Oherwydd hynny, mae angen inni ddefnyddio nifer o ddulliau i adolygu ein heffeithioldeb. Rydym yn mesur:

- a ydym yn cyflawni ein hamcanion ac yn cymhwyso ein hegwyddorion rheoleiddiol;
- ein heffeithlonrwydd a'n heffeithioldeb mewnol;
- datblygiadau yn y farchnad;
- canfyddiadau rhanddeiliaid.

Yng ngweddill yr adran hon rydym yn canolbwyntio ar y ddau gyntaf o'r rhain, sef y graddau yr ydym yn cyflawni ein hamcanion ac yn cymhwyso ein hegwyddorion rheoleiddiol, a'n heffeithlonrwydd a'n heffeithioldeb mewnol, gan gynnwys cyflenwi gwasanaethau a gorfodi. Yn y pen draw, fodd bynnag, credwn y dylid barnu ynghylch ein perfformiad drwy gyfeirio at ddatblygiadau yn y farchnad ac at y canlyniadau a sicrheir i ddinasyddion a defnyddwyr. Rydym yn mesur y canlyniadau hyn mewn sawl modd ac yn cyhoeddi'r canlyniadau yn ystod y flwyddyn.

Mae'r cynnydd ar ein Cynllun Blynyddol wedi'i gofnodi ar ein gwefan. Rydym yn cyhoeddi tabl sy'n dangos ein holl brosiectau a'r canlyniadau arfaethedig: http://www.ofcom.org.uk/about/accoun/reports_plans/annual_plan0809/projects/. Caiff y tabl hwn ei ddiweddaru bob chwarter blwyddyn fel y gall rhanddeiliaid edrych i weld pa bryd y byddwn yn cyhoeddi ymgynghoriadau sydd o ddiddordeb iddynt. Mae'r tabl yn dangos hefyd y graddau yr ydym yn cyflawni ein cynlluniau.

Bob blwyddyn byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad, *Y Farchnad Gyfathrebu*, sy'n cynnig darlun cynhwysfawr o ddatblygiadau yn y sector cyfathrebu. At hynny, cyhoeddir nifer o adroddiadau arbennig ar y farchnad gyfathrebu, fel *Ethnic Minority Groups and Communications Services* (Mehefin 2007) ac *Y Farchnad Gyfathrebu: Gwledydd a Rhanbarthau* (Mai 2007). Byddwn hefyd yn cyhoeddi adroddiadau am faterion penodol, fel y nifer sy'n defnyddio teledu digidol a band eang, ac mae gennym raglen helaeth o ymchwil i'r farchnad. Yn benodol, cyhoeddodd Ofcom adroddiad o'r enw *The Consumer Experience* (Tachwedd 2007), a roddodd ddarlun o'r buddion cadarnhaol y mae defnyddwyr wedi'u cael o gystadlu.

Rydym yn edrych ar effaith cynlluniau polisi penodol. Er enghraifft, yn Rhagfyr 2007 gwnaethom gyhoeddi ein hail adroddiad ar werthuso, *The Impact of the Telecoms Review*. Ynddo ceisiwyd asesu effeithioldeb y camau yr oeddem wedi'u cymryd i ysgogi cystadlu yn y sector telathrebu a dod â mwy o fuddion i ddefnyddwyr drwy hynny.

Rydym hefyd yn mesur canfyddiadau rhanddeiliaid o'n perfformiad, gan ofyn am eu barn am ystod eang o faterion, gan gynnwys ansawdd ein hallbynnau a pha mor dda yr oeddem o ran ymgynghori. Yn ogystal â hynny, rydym yn cynnal arolygon rheolaidd o'r rhanddeiliaid hynny yr ydym yn darparu gwasanaeth iddynt, fel defnyddwyr sbectrwm ac unigolion sy'n cysylltu â Thîm Cynghori Ofcom (OAT), a dangosir y prif ganfyddiadau isod ochr yn ochr â'n dangosyddion perfformiad allweddol.

**FFIGUR 1: EGWYDDORION RHEOLEIDDIOL OFCOM**

**PA BRYD Y BYDDWN YN RHEOLEIDDIO**

- Bydd Ofcom yn gweithredu gyda thuedd yn erbyn ymyrryd, ond gyda pharodrwydd i ymyrryd yn brydlon ac yn effeithiol os oes angen.
- Bydd Ofcom yn ymyrryd lle mae dyletswydd statudol benodol i geisio cyrraedd nod polisi cyhoeddus na all marchnadoedd ei gyrraedd ar eu pennau eu hunain.

**SUT YR YDYM YN RHEOLEIDDIO**

- Bydd Ofcom bob amser yn ceisio defnyddio'r dulliau rheoleiddio lleiaf ymwthiol i gyrraedd ein hamcanion polisi.
- Bydd Ofcom yn ceisio sicrhau bod ein hymyriadau wedi'u seilio ar dystiolaeth, eu bod yn gymesur, yn gyson, yn atebol ac yn dryloyw o ran y dull o'u trafod a'u canlyniad.
- Bydd Ofcom yn rheoleiddio gan ddilyn cynllun blynyddol sydd wedi'i fynegi'n glir a'i adolygu'n gyhoeddus, gydag amcanion polisi sydd wedi'u datgan.

**SUT YR YDYM YN ATEGU RHEOLEIDDIO**

- Bydd Ofcom yn ymchwilio i farchnadoedd yn gyson a bydd yn ceisio cadw'n wastad â'r wybodaeth dechnolegol ddiweddaraf.
- Bydd Ofcom yn ymgynghori'n eang gyda'r holl randdeiliaid perthnasol ac yn asesu effaith camau rheoleiddio cyn gosod rheoliadau ar y farchnad.

Mae dull Ofcom o reoleiddio'n adlewyrchu'r newid cyflym a welir yn y sector cyfathrebu. Gan fod y sector cyfathrebu'n newid mor gyflym, mae'n arbennig o bwysig inni feddu ar egwyddorion sylfaenol clir. Mae Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu ein bod yn dal sylw ar egwyddorion gwell rheoleiddio, sef y dylai rheoleiddio fod yn dryloyw, yn gymesur, yn gyson, yn atebol ac wedi'i dargedu. Pan sefydlwyd Ofcom, gwnaethom adeiladu ar sail yr egwyddorion hyn drwy ddatblygu set fwy penodol o egwyddorion i arwain ein gwaith o ddydd i ddydd. Dangosir y rhain yn Ffigur 1.

Yn unol â'r egwyddorion hyn, rydym wedi canolbwyntio ar werthuso perfformiad Ofcom mewn pedwar maes allweddol:

- ein llwyddiant o ran lleihau rheoleiddio, lle'r oedd hynny'n briodol;
- effeithioldeb ein hymgynghori â rhanddeiliaid;
- amseroldeb ein penderfyniadau ar ôl ymgynghori;
- ein perfformiad wrth gyflawni asesiadau o effaith i oleuo ein penderfyniadau polisi.

## Lleihau rheoleiddio

Un agwedd allweddol ar well rheoleiddio yw sicrhau bod rheoleiddio wedi'i dargedu'n briodol ac nad yw'n gosod beichiau gormodol ar ein rhanddeiliaid. Yn Rhagfyr 2007, cyhoeddodd Ofcom ei *Gynllun Symleiddio*, sy'n egluro'r holl gamau yr ydym yn eu cymryd i ddileu neu leihau rheoleiddio. Mae hyn yn dangos sut rydym yn cyflawni ein dyletswydd o dan Adran 6 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau i leihau'r baich rheoleiddio ar ein rhanddeiliaid.

Mae Ffigur 2 yn dangos crynodeb o ddatganiadau polisi Ofcom a gyhoeddwyd yn ystod 2007/8.

Yn y ffigur hwn:

- rydym wedi asesu sut yr oedd pob penderfyniad wedi effeithio ar gyfeiriad rheoleiddio ac wedi dangos hynny yn lliw'r cylchoedd;
- rydym wedi asesu effaith y penderfyniad drwy gyfeirio at faint y farchnad yr oedd y rheoleiddio wedi effeithio arno a dangosir hynny ym maint y cylchoedd.

Mae'r ffigur yn cynnig trosolwg defnyddiol ar benderfyniadau rheoleiddio Ofcom. Ar sail y ffigur hwn, rydym yn dod i'r casgliad:

- o ran nifer y penderfyniadau, ein bod wedi lleihau rheoleiddio mewn mwy o achosion nag yr oeddem wedi'i gynyddu;
- o ran yr effaith glir gyffredinol, bod y rheoleiddio wedi'i leihau'n sylweddol.

Mae Ffigur 2 yn dangos ein bod yn lleihau rheoleiddio mewn amryw o feysydd, gan gynnwys:

- rhyddfrydoli'r defnydd o'r sbectrwm radio, er enghraifft, drwy ddileu'r angen i rai defnyddwyr sbectrwm brynu trwyddedau a chaniatáu defnyddio ffonau symudol mewn awyrennau;
- ymestyn masnachu'r sbectrwm;
- rhyddhau mwy o sbectrwm ar y farchnad;
- lleihau'r rheoleiddio ar orsafoedd radio masnachol;
- lleihau'r rheoleiddio ar farchnadoedd telathrebu manwerthol i alluogi defnyddwyr a busnesau i gael budd o fwy o gystadlu.

Mae hefyd yn dangos bod Ofcom yn barod i gymryd camau pendant i amddiffyn dinasyddion a defnyddwyr pan fo angen. Er enghraifft:

- rydym wedi cymryd camau i sicrhau y bydd defnyddwyr gwasanaethau Protocol Llais dros y Rhyngrwyd yn cael mynediad at y gwasanaethau brys;
- rydym wedi cyflwyno rheoleiddio llymach i amddiffyn defnyddwyr rhag cam-werthu gwasanaethau telathrebu.


## Perfformiad a gwerthuso

### FFIGUR 2: PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL GAN OFCOM – CYFEIRIAD Y NEWID MEWN RHEOLEIDDIO

**MAE MAINT Y CYLCHOEDD YN DANGOS MAINT Y RHEOLEIDDIO A MAINT Y MARCHNADOEDD YR EFFEITHIWYD ARNYNT**

- Mwy/newydd
- Cymysg/dim newid
- Symleiddio/cyd-reoleiddi
- Llai/ymatal

Ffynhonnell: Log rheoleiddio Ofcom




**1.** Esemptio Telegraffiaeth Ddi-wifr: Cyfarpar Adnabod Amleddau Radio

**2.** Mesurau cadw rhifau daearyddol

**3.** Amddiffyn defnyddwyr rhag cam-werthu gwasanaethau telathrebu

**4.** Y Gallu i Ddyblygu Gwasanaethau Busnes Manwerthol Rheoleiddiedig BT

**5.** Newidiadau yn y gofynion rheoliadol ar gyfer archwilio ac adroddiadau ariannol gan BT

**6.** Hybu ymddiriedaeth mewn rhifau ffôn (Diwygio Amod Cyffredinol 17)

**7.** Cabanau Ffôn Cyhoeddus: Caniatâd i godi taliadau anunffurf ar gyfer treialon tariffau daearyddol

**8.** WRC-07 eitem agenda 1.4

**9.** Trosglwyddyddion teledu hunangymorth a Newid i'r Digidol

**10.** Prisio'r sbectrwm a ddefnyddir ar gyfer darlledu daearol ar gyfer y dyfodol

**11.** Gwahanu OSS oddi wrth BT

**12.** Canllawiau i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sy'n comisiynu oddi wrth gynhyrchwyr annibynnol

**13.** Newid yn rhwymedigaethau adrodd ariannol BT ar gyfer rheoleiddio 2006/7

**14.** Dyfarnu Sbectrwm: Bandiau 10, 28, 32 a 40 GHz

**15.** Ffioedd am Drwyddedau Telegraffiaeth Ddi-wifr – Newid

**16.** Esemptio Telegraffiaeth Ddi-wifr: Cyfarpar Band Llydan Iawn

**17.** Esemptio BT mewn cysylltiad ag ymgymeriadau

**18.** Argaeledd Rhifau: cyflenwi rhifau ar gyfer gwasanaethau cyfradd premiwm 09

**19.** Cais gan UK Broadband am amrywio trwydded

**20.** Dyfodol Radio: y cam nesaf

**21.** Y gallu i drosglwyddo rhifau i ddefnyddwyr sy'n newid cyflenwr

**22.** Rheoliadau mewn cysylltiad â dyfarnu Bandiau 10, 28, 32 a 40 GHz

**23.** Iaith Arwyddion ar y teledu

**24.** Adolygiad o'r Fframwaith Eithrio o Drwyddedu

**25.** Rheoleiddio Gwasanaethau Protocol Llais dros y Rhyngrwyd

**26.** Dyfarnu sbectrwm sydd ar gael: 1452 - 1492 MHz

**27.** Adolygiad o'r Difidend Digidol

**28.** Hawliau Defnyddio Sbectrwm

**29.** Monitro Cydymffurfiad â Rheolaethau ar Godi Tâl

**30.** Datganiad am y gweithdrefnau amlinellol ar gyfer sancsiynau mewn achosion sy'n ymwneud â darlledu

**31.** Penderfyniad i wneud Rheoliadau Ffioedd am Drwyddedau Telegraffiaeth Ddi-wifr

**32.** Adolygiad o'r Fframwaith Sbectrwm: y Sector Cyhoeddus

**33.** Dyfodol Radio: Gwasanaethau lleol ar radio masnachol analog a darlledu stereo a mono ar DAB

**34.** Penderfyniad i wneud Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Esemptio) (Diwygio) 2008

**35.** Penderfyniad i wneud Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Radar Amrediad Byr Hunansymudol) (Esemptio) (Rhif 2) (Diwygio) 2008

**36.** Teledu cyfranogi Rhan 1: Amddiffyn gwylwyr a defnyddwyr

**37.** Datganiad am wneud rheoliadau mewn cysylltiad â dyfarnu 1452 - 1492 MHz

**38.** Gwarantau lefel gwasanaeth: anogaethau i wella perfformiad

**39.** Defnyddio'r Band 169MHz Ex-ERMES yn y Dyfodol

**40.** Diwygio Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Esemptio) 2003

**41.** Cyfathrebu Symudol ar fwrdd Awyrennau

**42.** Cymeradwyo newidiadau yng Nghôd Ymarfer PhonepayPlus (11fed argraffiad)

FFIGUR 3: DADANSODDIAD O HYD YMGYNGHORIADAU

| | Cyfnod ymgynghori 10 wythnos o leiaf | Cyfnod ymgynghori o lai na 10 wythnos gan roi eglurhad | Cyfnod ymgynghori o lai na 10 wythnos heb roi eglurhad |
|---|---|---|---|
| Telathrebu | 5 | 13 | 1 |
| Darlledu | 9 | 0 | 3 |
| Sbectrwm | 8 | 5 | 9 |
| Arall | 1 | 1 | 0 |
| **Cyfanswm** | **23 (42%)** | **19 (34%)** | **13* (24%)** |

*Cyhoeddwyd naw o'r dogfennau hyn wedi i Ofcom adolygu ei ganllawiau ar ymgynghori. Yn y canllawiau newydd, rydym yn dweud y gallai rhai mathau o ymgynghoriad gyfiawnhau cyfnod ymghynghori byrrach.


## Cyfnodau ymgynghori ac ymatebion

Ymgynghoriadau yw un o'r prif ddulliau sydd gennym o ymgysylltu â rhanddeiliaid a'u galluogi i ddylanwadu ar ein penderfyniadau polisi. Rydym wedi diweddaru'r canllawiau ar ein dull o ymgynghori: http://www.ofcom.org.uk/consult/consult_method/ofcom_consult_guide


Os yw ymgynghoriad yn rhy fyr, mae'n bosibl na fydd digon o amser gan y rhai sydd â barn bwysig i'w rhannu i baratoi eu hymatebion. Os yw'n rhy hir, mae'n bosibl y bydd y farchnad dan sylw wedi newid yn sylweddol. Gallai hyn effeithio ar ein gallu i ddelio â mater yn gyflym fel y dymunai'r cyrff sy'n gysylltiedig. Pan benderfynwn ar hyd ymgynghoriad, mae angen inni ddal y ddysgl yn wastad rhwng y ddwy ystyriaeth hyn. Yn gyffredinol, mae tri chategori ymgynghori:

- Categori 1: ymgynghoriadau sy'n cynnwys cynlluniau polisi sy'n bwysig a/neu sydd o ddiddordeb i amrywiaeth fawr o randdeiliaid (yn enwedig y rheini a allai fod ag angen mwy o amser i ymateb); byddwn yn ymgynghori am 10 wythnos.
- Categori 2: ymgynghoriadau sy'n cynnwys cynigion polisi pwysig na fyddant ond o ddiddordeb i nifer cyfyngedig o randdeiliaid a fydd yn ymwybodol o'r materion dan sylw; byddwn yn ymgynghori am 6 wythnos.

FFIGUR 4: YMATEBION I YMGYNGHORIADAU




FFIGUR 5: DADANSODDIAD O'R AMSER A GYMERWYD I OFCOM GYHOEDDI PENDERFYNIAD AR BOLISI AR ÔL DIWEDD Y CYFNOD YMGYNGHORI



Perfformiad a gwerthuso

## FFIGUR 6: ASESIADAU O EFFAITH A GWBLHAWYD YN YSTOD 2007/8

| DATGANIADAU A GYHOEDDWYD GAN OFCOM YN 2007/8 LLE'R OEDD YR YMGYNGHORIAD O'I FLAEN YN CYNNWYS ASESIAD O EFFAITH: |
|---|
| Adolygiad o'r Fframwaith Eithrio o Drwyddedu |
| Dyfodol Radio |
| Iaith Arwyddion ar y teledu – newidiadau arfaethedig |
| Hysbysiad o fwriad Ofcom i wneud rheoliadau ar daliadau am drwyddedau |
| Hysbysiad o fwriad Ofcom i wneud Rheoliadau Cyfarpar Band Llydan Iawn (Esemptio) |
| Cais gan UK Broadband am amrywio trwydded |
| Gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig: mynediad i sbectrwm yn y dyfodol |
| Adolygiad o'r Fframwaith Sbectrwm: y Sector Cyhoeddus |
| Trefniadau ar gyfer trosglwyddo rhifau pan fydd cwsmeriaid yn newid cyflenwr |
| Teledu cyfranogi: amddiffyn gwylwyr a defnyddwyr, a chadw hysbysebion ar wahân i ddeunydd golygyddol |
| Dyfarnu sbectrwm sydd ar gael: 1452 - 1492 MHz |
| Rheoleiddio Gwasanaethau Protocol Llais dros y Rhyngrwyd: Mynediad at y Gwasanaethau Brys |
| Hysbysiad o fwriad Ofcom i wneud rheoliadau mewn cysylltiad â dyfarnu 10 GHz, 28 GHz, 32GHz a 40 GHz |
| Rheoliadau Ffioedd am Drwyddedau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Diwygio) 2007 |
| Monitro Cydymffurfiad â Rheolaethau ar Daliadau |
| Eithrio rhag Trwyddedau Telegraffiaeth Ddi-wifr |
| Defnyddio'r Band 169MHz Ex-ERMES yn y Dyfodol |
| Cyfathrebu Symudol ar fwrdd Awyrennau |
| Hysbysiad o fwriad Ofcom i wneud Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr mewn cysylltiad â thrwyddedau Gwasanaethau Lloeren |
| Eithrio rhag Trwyddedau Telegraffiaeth Ddi-wifr: cynigion gan Ofcom i ddiwygio Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Radar Amrediad Byr Hunansymudol) (Esemptio) (Rhif 2) (Diwygio) 2008 |
| Dyfodol Radio: Y cam nesaf |
| Eithrio rhag Trwyddedau Telegraffiaeth Ddi-wifr: cynigion i ddiwygio Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Esemptio) 2008 |
| Hysbysiad o fwriad Ofcom i wneud rheoliadau mewn cysylltiad â dyfarnu 1452 - 1492 MHz |
| Gwarantau lefel gwasanaeth: anogaethau i wella perfformiad |

| YMGYNGHORIADAU GAN OFCOM A GYHOEDDWYD YN 2007/8 A OEDD YN CYNNWYS ASESIAD O EFFAITH A LLE NAD YW DATGANIAD WEDI'I GYHOEDDI ETO: |
|---|
| Prawf amddiffyn defnyddwyr ar gyfer dyrannu rhifau ffôn |
| Dyrannu sbectrwm sydd ar gael: 2500-2690 MHz, 2010-2025 MHz |
| Cymhwyso rhyddfrydoli a marchnata'r sbectrwm at y sector ffonau symudol |
| Dyfodol band eang: safbwynt polisi ar fynediad cenhedlaeth nesaf |
| Gwasanaethau arfaethedig BSkyB ar deledu daearol digidol |
| Cynigion ar gyfer cyd-reoleiddio cyfle cyfartal |
| Gweithdrefnau ar gyfer Rheoli Ffeiliadau Lloeren: Ffioedd a newidiadau yn y weithdrefn |
| Adolygiad o'r marchnadoedd mynediad band eang cyfanwerthol 2006/7 |
| Dyfodol Teledu Daearol Digidol: Creu modd i ddarparu gwasanaethau newydd i wylwyr |
| Adnewyddu Trwyddedau Teledu Amlblecs: Multiplex A a Multiplex 2 |
| Cynllun Mesuryddion a Biliau Ofcom |
| Dyrannu sbectrwm sydd ar gael: 2500-2690 MHz, 2010-2025 MHz |
| Awdurdodi rhwydweithiau ffonau symudol daearol sy'n ategu systemau lloeren ffonau symudol 2 GHz |
| Adolygiad o'r Farchnad Cysylltedd Busnesau |
| Rhifau ffôn: Cynigion i ddarparu ar gyfer y galw am rif daearyddol yn rhanbarth Ebbsfleet |
| Rhwymedigaethau a rheoliadau mewn cysylltiad â gwybodaeth mewn cyfeiriaduron ffôn |
| Amddiffyn cwsmeriaid rhag cam-werthu gwasanaethau cyfathrebu symudol |
| Adolygiad o reoliadau ar hysbysebion teledu a siopa ar y teledu |

- Categori 3: ymgynghoriadau sy'n perthyn i un neu ragor o'r categorïau isod, lle mae'r cyfnod ymgynghori'n un mis o hyd:
– materion technegol manwl;
– lle mae angen cwblhau'r prosiect o fewn cyfnod sydd wedi'i bennu oherwydd datblygiadau yn y farchnad neu ffactorau eraill sy'n golygu bod rhaid cwblhau'r prosiect mewn cyfnod byr;
– mae'r mater eisoes wedi bod yn destun ymgynghoriad;
– bydd y cynnig yn cael effaith gyfyngedig ar y farchnad;
– nid yw'r cynnig ond yn golygu newid cyfyngedig mewn polisi neu reoliad sy'n bod eisoes.

Mae Ffigur 3 yn dangos dadansoddiad o hyd yr ymgynghoriadau ar bolisi yn ôl sector.

Mae Ofcom yn casglu ystadegau hefyd ar nifer yr ymatebion i ymgynghoriadau. Dangosir hyn yn Ffigur 4. Mae'r siart yn dangos y nifer mawr o ymatebion a gawsom dros y flwyddyn, ar sail y 62 o ymgynghoriadau yr oeddem wedi cyhoeddi datganiad amdanynt wedyn. Mae nifer bach o ymgynghoriadau wedi denu amrywiaeth fawr o ymatebion, er bod y rhan fwyaf o'r materion yr oeddem wedi ymgynghori arnynt yn llai cynhwysfawr ac o ddiddordeb i nifer llai o randdeiliaid.

## Amseroldeb y penderfyniadau

Rydym hefyd wedi dadansoddi'r amser yr ydym yn ei gymryd i gyhoeddi datganiad polisi ar ôl diwedd cyfnod ymgynghori.

Mae nifer o ffactorau'n effeithio ar hyd y cyfnod rhwng diwedd y cyfnod ymgynghori a chyhoeddi'r datganiad dilynol, gan gynnwys:

- nifer a math yr ymatebion a gawn;
- a yw ein penderfyniad terfynol yn dibynnu ar ffactorau allanol;
- yr angen inni bennu blaenoriaethau wrth ddefnyddio adnoddau.

Mae dadansoddiad o'r amser a gymerwn i wneud penderfyniadau yn Ffigur 5. Bellach cyhoeddir y rhan fwyaf o'n datganiadau o fewn deg wythnos ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori. Mae hyn yn well o lawer na'r perfformiad y rhoesom wybod amdano'r llynedd ac mae'n dangos y cydymdrech a gafwyd i wella ein heffeithlonrwydd.

## Asesiadau o Effaith

Mae Asesiadau o Effaith yn rhan bwysig o'r broses llunio polisïau. Maent yn sicrhau, mewn cysylltiad â'n penderfyniadau ar bolisi:

- yr ystyrir amrediad eang o ddewisiadau, gan gynnwys y dewis o beidio â rheoleiddio;
- bod y dewisiadau hyn wedi'u cyflwyno'n glir;
- bod yr effeithiau a ddeilliai o bob dewis yn cael eu dadansoddi'n fanwl;
- bod buddion y dewis a fabwysiedir yn fwy na'r costau sy'n gysylltiedig ag ef.

Mae Ofcom dan ddyletswydd statudol i gyhoeddi rhestr o'r asesiadau o effaith a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn. Dangosir y rhestr hon yn Ffigur 6.

Ym mis Gorffennaf 2005, cyhoeddodd Ofcom ganllawiau dan yr enw *Best-practice policy-making: Ofcom's approach to impact assessment* a oedd yn pwysleisio ymrwymiad Ofcom i gynnal asesiadau fel rhan annatod o'r broses llunio polisi gan ddatgan ein bod yn disgwyl ymgymryd ag asesiadau o effaith yn y mwyafrif helaeth o'n penderfyniadau ar bolisi. Mae Ffigur 7 yn dangos dadansoddiad o'r graddau yr oedd dogfennau ymgynghori Ofcom yn cynnwys Asesiad o Effaith a oedd wedi'i labelu'n glir, h.y. asesiad o effaith a oedd wedi'i ddisgrifio mewn adran neu atodiad penodol yn y ddogfen ymgynghori.

Mae'r tabl yn dangos bod 75 y cant o'r dogfennau ymgynghori'n cynnwys asesiad o effaith a oedd wedi'i labelu'n glir. Mae'r dadansoddiad hwn yn dangos ein bod yn cyflawni'r ymrwymiad a wnaethom yn ein canllawiau, a byddwn yn dal i sicrhau y caiff asesiadau o effaith eu cwblhau a'u cyflwyno'n briodol yn yr holl achosion perthnasol.

### FFIGUR 7: DADANSODDIAD O'R ASESIADAU O EFFAITH A GWBLHAWYD

| Nifer y dogfennau ymgynghori | Cyfanswm | Asesiad o effaith wedi'i nodi'n glir yn y ddogfen a gyhoeddwyd |
|---|---|---|
| Telathrebu | 19 | 12 |
| Darlledu | 12 | 8 |
| Sbectrwm | 22 | 20 |
| Arall | 2 | 1 |
| **Cyfanswm** | **55** | **41 ( = 75%)** |

# Data ystadegol

## Cyflenwi gwasanaethau a gorfodi

Yn ogystal â datblygu polisi, mae Ofcom yn darparu gwasanaethau i randdeiliaid ac yn ymgymryd â gweithgarwch gorfodi. Mae gan Ofcom amryw o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol i fesur sut yr ydym yn cyflenwi'r gwasanaethau hyn. Mae'r rhain, ynghyd â'n perfformiad ariannol, yn fodd i fesur ein heffeithlonrwydd a'n heffeithioldeb mewnol.

Mae'r data yn yr adran hon yn ymwneud â'r meysydd canlynol:

- Rhifau ffôn – Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer ceisiadau am rifau ffôn;
- Trwyddedu sbectrwm - rhoi trwyddedau (categorïau A, B a C);
- Trwyddedu sbectrwm – Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer trwyddedu;
- Gweithrediadau sbectrwm – Gweithrediadau yn y maes;
- Gweithrediadau sbectrwm – Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer gweithrediadau yn y maes;
- Darlledu – cwynion am raglenni (yn cynnwys Dangosyddion Perfformiad Allweddol);
- Darlledu – tegwch a phreifatrwydd (yn cynnwys Dangosyddion Perfformiad Allweddol);
- Darlledu – Pwyllgor Sancsiynau Cynnwys;
- Rhaglen ymchwiliadau – Dangosyddion Perfformiad Allweddol;
- Gweithrediadau canolog – Dangosyddion Perfformiad Allweddol.

Yn y rhan fwyaf o'r meysydd mae Ofcom yn cyrraedd – neu ar fin cyrraedd – y targedau y credwn eu bod yn angenrheidiol er mwyn diwallu anghenion rhanddeiliaid.

## Rhifau ffôn

Mae Ofcom yn gyfrifol am reoli rhifau ffôn yn y DU. Un agwedd ar y gwaith hwnnw yw prosesu ceisiadau am flociau o rifau ffôn gan gwmnïau darparu gwasanaethau cyfathrebu.

Mae'n ofynnol i Ofcom benderfynu ar geisiadau am rifau ffôn o fewn tair wythnos ar ôl cael yr holl wybodaeth berthnasol. Yn ystod y cyfnod sydd dan sylw, dyrannodd Ofcom 100 y cant o'r rhifau ym mhob mis ond un, sef mis Awst (99.5 y cant).

## Trwyddedu sbectrwm

Mae Ofcom yn rhoi tua 30 o wahanol fathau o drwydded annewisol dan Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr. Mae'r rhain yn cael eu hadnabod fel arfer yn ôl enw'r cyfarpar y maent yn ei drwyddedu, fel Trwydded Radio Llongau a Thrwydded Rhwydwaith Lloeren.

Mae mathau'r drwydded annewisol wedi'u rhannu'n dri chategori mwy: A, B a C.

- Mae trwyddedau categori A yn rhai syml nad ydynt yn galw am glustnodi amledd, clirio safleoedd neu gyd-drefnu rhyngwladol.
- Mae trwyddedau categori B yn rhai mwy cymhleth sy'n galw am glustnodi amledd ond nid clirio safleoedd neu gyd-drefnu rhyngwladol.
- Trwyddedau categori C yw'r rhai mwyaf cymhleth sy'n galw am glustnodi amledd a chlirio safleoedd a/neu gyd-drefnu rhyngwladol.

Mae'n ofynnol i Ofcom adrodd yn fanwl am ei weithgarwch rheoli sbectrwm. Mae'r tablau sy'n dilyn yn dangos y gweithgarwch trwyddedu dewisol ac annewisol dan Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr yn ystod y cyfnod sydd dan sylw.

### CATEGORI A

| **Trwyddedau nad ydynt yn galw am glustnodi amledd, clirio safleoedd neu gyd-drefnu rhyngwladol** | **Trwyddedau a roddwyd Ebrill 07 - Mawrth 08** | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 06 - Mawrth 07 | **Cyfanswm a roddwyd ar 31 Mawrth 08** |
|---|---|---|---|
| Trwydded Gyffredinol Radio Busnes Preifat y DU | 1,099 | 1,085 | 5,508 |
| Mynediad Di-wifr Sefydlog (5.8 GHz) *5.8 GHz cyn hynny* | 77 | 77 | 224 |
| Radio Busnes (Hunanddethol) Hunanddethol *(Galwadau Personol Unffordd) cyn hynny* | 627 | 1,148 | 6,471 |
| Radio Busnes (Cyflenwyr) *Cyflenwyr Radio Busnes Preifat cyn hynny* | 32 | 41 | 422 |
| Yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân | 1 | 0 | 122 |
| **Is-gyfanswm ar gyfer cynhyrchion Radio Busnes** | **1,836** | **2,351** | **12,747** |
| Mesurydd Lefelau Radar | 0 | 13 | 124 |
| CB, Amatur a Morol | 27,443 | 201,575 | 154,300 |
| **Cyfanswm ar gyfer Categori A** | **29,279** | **203,939** | **167,171** |

Data ystadegol

## CATEGORI B

| **Trwyddedau sy'n galw am glustnodi amledd, ond nid clirio safle neu gyd-drefnu rhyngwladol** | **Trwyddedau a roddwyd Ebrill 07 - Mawrth 08** | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 06 - Mawrth 07 | **Cyfanswm a roddwyd ar 31 Mawrth 08** |
|---|---|---|---|
| System Adnabod Awtomatig | 31 | 20 | 75 |
| Radio Gorsaf Arfordirol (Rhyngwladol) | 20 | 35 | 491 |
| Radio Gorsaf Arfordirol (DU) | 43 | 36 | 435 |
| Radio Gorsaf Arfordirol (Marina) | 18 | 17 | 406 |
| Radio Gorsaf Arfordirol (Chwilio ac Achub) | 0 | 0 | 1 |
| Radio Gorsaf Arfordirol (Ysgol Hyfforddi) | 37 | 78 | 198 |
| Radio Morol (Cyflenwyr ac Arddangos) | 6 | 6 | 86 |
| Cymhorthion Mordwyo a Radar Morol | 7 | 9 | 116 |
| System Leoli Fyd-eang Wahanredol | 3 | 3 | 17 |
| **Is-gyfanswm ar gyfer cynhyrchion Dadreoleiddio ac Eithrio** | **165** | **204** | **1,825** |
| Radio Busnes (Safonol) *Radio Symudol Personol Safonol - (DU Gyffredinol) yn unig cyn hynny* | 0 | 0 | 0 |
| Radio Busnes (Data IR 2008) *Gofyniad Rhyngwyneb 2008 cyn hynny* | 4 | 7 | 20 |
| Radio Busnes (Llais a Data) *Radio Busnes Preifat ar Safle (Llais a Data) cyn hynny* | 2,588 | 2,981 | 23,150 |
| Radio Busnes (Systemau Cyfathrebu Lleol ar Safle) *Radio Busnes Preifat ar Safle (Cyfathrebu Lleol) cyn hynny* | 31 | 51 | 1,093 |
| Radio Busnes (Systemau Galwadau Personol a Brys ar Safle Ysbyty) *Radio Busnes Preifat ar Safle (Galwadau Personol a Negeseuon Llais Brys mewn Ysbytai) cyn hynny* | 4 | 9 | 445 |
| Radio Busnes (Galwadau Personol Unffordd a Systemau Llais ar Safle) *Radio Busnes Preifat ar Safle (Galwadau Personol Unffordd a Llais) cyn hynny* | 144 | 151 | 1,687 |
| Radio Busnes (Systemau Llais a Data dros Ardal Eang) *Radio Busnes Preifat dros Ardal Eang (Llais a Data) cyn hynny* | 1,277 | 1,464 | 9,712 |
| Radio Busnes (Systemau Galwadau Personol a Llais Unffordd dros Ardal Eang) *Radio Busnes Preifat dros Ardal Eang (Galwadau Personol Unffordd a Llais) cyn hynny* | 23 | 11 | 305 |
| Radio Busnes (Systemau Larwm Cyfyngder Ardal Eang) *Radio Busnes Preifat dros Ardal Eang (Larymau Cyfyngder) cyn hynny* | 28 | 6 | 77 |
| Radio Busnes (Cenedlaethol a Rhanbarthol) *Radio Busnes Preifat Cenedlaethol a Rhanbarthol cyn hynny* | 7 | 7 | 31 |
| Radio Busnes (GSM-R at Ddefnydd Rheilffyrdd) | 0 | 1 | 1 |
| Radio Busnes (Gorsaf Gyffredin) *Gweithredwr Gorsaf Gyffredin cyn hynny* | 11 | 17 | 524 |
| Radio Busnes (CBS - (Band I ac Is-fand I o Fand III)) *CBS (Band I) ac (Is-fand I o Fand III) cyn hynny* | 5 | 2 | 16 |
| Radio Busnes (Data Symudol Cyhoeddus, dim llais) *Data Symudol Cyhoeddus (Dim llais) cyn hynny* | 1 | 0 | 4 |
| Radio Busnes (Radio Symudol Mynediad Cyhoeddus) *Radio Symudol Mynediad Cyhoeddus cyn hynny* | 0 | 0 | 4 |
| Radio Busnes (Galwadau Personol Ardal Eang Gyhoeddus) *Gweithredwr Symudol Cyhoeddus (ar gyfer galwadau personol cyhoeddus dros ardal eang) cyn hynny* | 0 | 0 | 3 |
| Radio Diogelwch Cyhoeddus | 0 | 0 | 4 |
| Darllen Mesuryddion o Bell | 0 | 0 | 2 |
| Telemetreg Sganio | 0 | 0 | 28 |
| Cysylltiadau wedi'u cyd-drefnu gan y trwyddedai 70/80GHz | 10 | 0 | 10 |
| Mynediad Sbectrwm ar gyfer amleddau 412-414MHz | 1 | 0 | 2 |
| Mynediad Sbectrwm 10-40 GHz | 10 | 0 | 10 |
| Dyfarniad 1785MHz Gogledd Iwerddon | 1 | 0 | 1 |
| **Is-gyfanswm ar gyfer cynhyrchion Radio Busnes** | **4,145** | **4,707** | **37,129** |
| **Cyfanswm ar gyfer Categori B** | **4,310** | **4,911** | **38,954** |

Data ystadegol

## CATEGORI C

| Trwyddedau sy'n galw am glustnodi amledd a chlirio safle a/neu gyd-drefnu rhyngwladol | **Trwyddedau a roddwyd Ebrill 07 - Mawrth 08** | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 06 - Mawrth 07 | **Cyfanswm a roddwyd ar 31 Mawrth 08** |
|---|---|---|---|
| Cysylltiadau Sefydlog | 25 | 27 | 333 |
| Lloeren (Gorsaf Barhaol ar y Ddaear) | 51 | 13 | 149 |
| Lloeren (Gorsaf Gludadwy ar y Ddaear) | 28 | 30 | 153 |
| Lloeren (Rhwydwaith Gorsaf Ddaear) *Terfynell Agorfa Fach Iawn cyn hynny* | 11 | 5 | 46 |
| **Cyfanswm ar gyfer Categori C** | **115** | **75** | **681** |

## TRWYDDEDAU PROFION A DATBLYGU

| | **Trwyddedau a roddwyd Ebrill 07 - Mawrth 08** | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 06 - Mawrth 07 | **Cyfanswm a roddwyd ar 31 Mawrth 08** |
|---|---|---|---|
| Trwydded Ddatblygu Anweithredol | 244 | 258 | 253 |
| Trwydded Dros Dro Anweithredol | 28 | 27 | 35 |
| **Cyfanswm ar gyfer Profion a Datblygu** | **272** | **285** | **288** |

## TRWYDDEDAU FFONAU SYMUDOL A BAND EANG

| Trwyddedau a roddwyd drwy arwerthiant sbectrwm neu ddyfarnu | **Trwyddedau a roddwyd Ebrill 07 - Mawrth 08** | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 06 - Mawrth 07 | **Cyfanswm a roddwyd ar 31 Mawrth 08** |
|---|---|---|---|
| Ffonau Rhwydweithiau Cellog 2G | | 0 | 4 |
| Ffonau Rhwydweithiau Cellog 3G | | 0 | 5 |
| Ffonau Rhwydweithiau Cellog 2G Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw | | 7 | 10 |
| Ffonau Rhwydweithiau Cellog 3G Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw | | 6 | 9 |
| Mynediad Di-wifr Sefydlog a Mynediad Di-wifr Sefydlog Band Eang 28 GHz, 3.6 GHz a 3.4 GHz | | 6 | 16 |
| Mynediad Di-wifr Sefydlog a Mynediad Di-wifr Sefydlog Band Eang Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw 28 GHz, 3.6 GHz and 3.4 GHz | | 3 | 10 |
| Trwyddedau a roddwyd drwy arwerthiant sbectrwm neu ddyfarnu | | | |
| Mynediad Sbectrwm 412-414 MHz | | 1 | 1 |
| Mynediad Sbectrwm DECT-Guardband 1781-1785 MHz | | 12 | 12 |
| Mynediad Sbectrwm 1785 Gogledd Iwerddon | 1 | | 1 |
| Mynediad Sbectrwm 10-40 GHz | 10 | | 10 |
| **Cyfanswm ar gyfer Ffonau Symudol a Band Eang Di-wifr** | **11** | **35** | **78** |

Mae'r Awdurdod Hedfan Sifil (CAA) yn rhoi trwyddedau awyrennau ac mae'r Cyd-grŵp Rheoli Amledd (JFMG) yn rhoi trwyddedau a chaniatadau ar gyfer darllediadau a gwneud rhaglenni yn yr awyr agored a digwyddiadau arbennig.

## TRWYDDEDAU SBECTRWM ANNEWISOL

| Gweithgarwch gan bartneriaid | **Trwyddedau a roddwyd Ebrill 07 - Mawrth 08** | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 06 - Mawrth 07 | **Cyfanswm a roddwyd ar 31 Mawrth 08** |
|---|---|---|---|
| Mae'r Cyd-grp Rheoli Amledd (JFMG) yn rhoi trwyddedau ar gyfer Gwneud Rhaglenni a Digwyddiadau Arbennig | 2,742 | 2,472 | 3,182 |
| Mae'r Awdurdod Hedfan Sifil (CAA) yn rhoi trwyddedau ar gyfer awyrennau | 15,922 | 10,064 | 14,306 |
| **Cyfanswm** | **18,664** | **12,536** | **17,488** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **CYFANSWM Y TRWYDDEDAU - POB CATEGORI** | **52,651** | **221,781** | **224,660** |

## Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar drwyddedu sbectrwm

Mae dangosyddion perfformiad allweddol wedi'u pennu ar gyfer pob categori trwydded. Mae'r rhain yn mesur yr amser y mae Ofcom yn ei gymryd i roi'r drwydded ac maent yn amrywio yn ôl math y drwydded. Ar gyfer trwyddedau Categori A, y dangosydd perfformiad allweddol yw dyfarnu 100 y cant o'r trwyddedau ar ôl cael cais dilys ar gyfer gwasanaethau newydd neu amrywiedig neu eu gwrthod (gan roi eglurhad) o fewn saith diwrnod wedi i Ofcom eu cael. Y dangosydd perfformiad allweddol ar gyfer trwyddedau Categori B yw dyfarnu 90 y cant o'r trwyddedau ar ôl cael cais dilys ar gyfer gwasanaethau newydd neu amrywiedig neu eu gwrthod gan roi eglurhad, o fewn 21 niwrnod; mae gweddill y trwyddedau i'w rhoi neu eu gwrthod o fewn 42 ddiwrnod ar ôl i Ofcom gael cais. Y dangosydd perfformiad allweddol ar gyfer Categori C yw dyfarnu 100 y cant o'r trwyddedau ar ôl cael cais dilys ar gyfer gwasanaethau newydd neu amrywiedig neu eu gwrthod (gan roi eglurhad) o fewn 42 ddiwrnod ar ôl i Ofcom gael cais; heblaw mewn achosion y mae angen eu clirio'n rhyngwladol lle mae trwyddedau i'w rhoi neu eu gwrthod o fewn 60 niwrnod neu y mae eglurhad i'w roi am yr oedi. At ei gilydd, mae 90 y cant yn fodlon ar y gwasanaethau i gwsmeriaid, ac mae 91 y cant yn fodlon ar y cyfnod ar gyfer derbyn trwyddedau. (Ffynhonnell: arolwg gan Ofcom.)

### DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL

| Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) | Targed y DPA | Graddau cyflawni'r DPA Ebrill 07 - Mawrth 08 | Graddau cyflawni'r DPA Ebrill 06 - Mawrth 07 |
|---|---|---|---|
| Trwydded Categori A | 100% mewn 7 diwrnod | 93% | 97% |
| Trwydded Categori B | 90% mewn 21 niwrnod | 99% | 98% |
| | 100% mewn 42 ddiwrnod | 100% | 100% |
| Trwydded Categori C | 90% mewn 42 ddiwrnod (100% heb gynnwys rhai y mae angen eu clirio'n rhyngwladol ) | 95% | 96% |
| | 100% mewn 60 niwrnod (gan gynnwys rhai y mae angen eu clirio'n rhyngwladol) | 98% | 99% |

### DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL AR GYFER PROFION A DATBLYGU

| Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer Profion a Datblygu | Targed y DPA | Graddau cyflawni'r DPA Ebrill 07 - Mawrth 08 | Graddau cyflawni'r DPA Ebrill 06 - Mawrth 07 |
|---|---|---|---|
| Trwydded Categori A | 100% mewn 7 diwrnod | dim wedi'u rhoi | 100% |
| Trwydded Categori B | 90% mewn 42 ddiwrnod | dim wedi'u rhoi | dim wedi'u rhoi |
| Trwydded Categori C | 100% mewn 60 niwrnod | 100% | 100% |

### PERFFORIAD PARTNERIAID

| Perfformiad Partneriaid | Targed y DPA | Graddau cyflawni'r DPA Ebrill 07 - Mawrth 08 | Graddau cyflawni'r DPA Ebrill 06 - Mawrth 07 |
|---|---|---|---|
| Cyd-grŵp Rheoli Amledd | 100% mewn 7 diwrnod | 100% | 100% |
| Awdurdod Hedfan Sifil | 100% mewn 7 diwrnod | 96% | 94% |

Data ystadegol

## Gweithrediadau sbectrwm – Dangosyddion perfformiad allweddol ar weithrediadau maes

Mae Tîm Gweithrediadau Maes Ofcom ar alwad bob amser i gymryd camau yn erbyn darllediadau anghyfreithlon, i ddileu ymyriant â signalau ac i archwilio cydymffurfiad gan safleoedd telathrebu ledled y DU. Mae rhestr o'n prif weithgareddau yn Nhabl 1.

**TABL 1**

| Gweithgarwch Rhaglen Waith/Digwyddiad | Cyfnod Blwyddyn Adrodd 2007/8 | Cyfnod Blwyddyn Adrodd 2006/7 |
|---|---|---|
| Nifer y ceisiadau a gafwyd am ymchwilio i ymyriant | 3,629 | 3,050 |
| Baldock: Gweithgareddau Sbectrwm (gweler Nodyn 1 isod) | 3,416 | 2,749 |
| Nifer yr ymchwiliadau i ymyriant a gwblhawyd | 3,777 | 3,155 |
| Nifer yr aseiniadau sbectrwm a gwblhawyd | Amherthnasol (gweler Nodyn 2 isod) | Amherthnasol (gweler Nodyn 2 isod) |
| Gweithrediadau gorfodi yn erbyn gweithgarwch didrwydded a throseddol | 1,526 | 1,704 |
| Nifer yr archwiliadau o gydymffurfiad systemau radio a gwblhawyd | 253 | 712 |
| Nifer yr erlyniadau llwyddiannus am weithgarwch sbectrwm troseddol | 44 | 67 |
| Nifer yr erlyniadau aflwyddiannus am weithgarwch sbectrwm troseddol | 1 | 0 |

**Nodyn 1:** Mae gwaith Gorsaf Fonitro Baldock wedi'i gofnodi bellach dan 'Baldock: Gweithgareddau Sbectrwm', ac mae'r ffigur hwn yn cynnwys adroddiadau am ymyriant, a gweithrediadau monitro a mesur sbectrwm.

**Nodyn 2:** Mae'r rhan fwyaf o lawer o'r aseiniadau sbectrwm yn cael eu cyflawni bellach gan Dîm Trwyddedu Canolog Ofcom yn hytrach na'r tîm Gweithrediadau Maes. Felly, am nad yw hyn yn rhan bellach o raglen waith y Tîm Gweithrediadau Maes, nid oes adroddiad arno yma.

Data ystadegol

## TABL 2

| Categori achos (gweler Nodyn 1) | | Cam yn yr Achos (gweler Nodyn 2 isod) | Graddau Cyflawni'r Targed Ansawdd Gwasanaeth 2007/08 (gweler Nodyn 3) | Targed 2007/08 |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Diogelwch Bywyd | QST 1a | Rhyngweithio | 88.64% | 100% mewn 2 awr |
| | QST 1b | Cydgysylltu â chwsmeriaid/Dilysu | 97.73% | 100% mewn 2 awr |
| | QST 1c | Ymchwilio | 88.64% | 100% mewn 20 awr |
| | QST 1d | Cau'r achos (hyd yr achos) | 54.55% | 100% mewn 2 ddiwrnod gwaith |
| Gwasanaeth Critigol (categori 2) | QST 2a | Rhyngweithio | 84.78% | 100% mewn 12 awr |
| | QST 2b | Cydgysylltu â chwsmeriaid/Dilysu | 97.83% | 100% mewn 12 awr |
| | QST 2c | Ymchwilio | 76.09% | 100% mewn 24 awr |
| | QST 2d | Cau'r achos (hyd yr achos) | 43.48% | 100% mewn 3 ddiwrnod gwaith |
| Gwasanaeth Critigol (categori 3) | QST 3a | Rhyngweithio | 83.17% | 90% mewn 1 diwrnod gwaith |
| | QST 3b | | 83.17% | 100% mewn 3 ddiwrnod gwaith |
| | QST 3c | Cydgysylltu â chwsmeriaid/Dilysu | 95.19% | 90% mewn 1 diwrnod gwaith |
| | QST 3d | | 97.12% | 100% mewn 3 ddiwrnod gwaith |
| | QST 3e | Ymchwilio | 78.37% | 90% mewn 3 diwrnod gwaith |
| | QST 3f | | 85.10% | 100% mewn 5 ddiwrnod gwaith |
| | QST 3g | Cau'r achos (hyd yr achos) | 40.87% | 80% mewn 5 diwrnod gwaith |
| | QST 3h | | 63.94% | 100% mewn 10 ddiwrnod gwaith |
| Gwasanaethau Radio Busnes/Proffesiynol | QST 4a | Rhyngweithio | 82.93% | 90% mewn 1 diwrnod gwaith |
| | QST 4b | | 82.93% | 100% mewn 1 diwrnod gwaith |
| | QST 4c | Cydgysylltu â chwsmeriaid/Dilysu | 95.68% | 90% mewn 1 diwrnod gwaith |
| | QST 4d | | 96.81% | 100% mewn 3 ddiwrnod gwaith |
| | QST 4e | Ymchwilio | 59.29% | 90% mewn 3 diwrnod gwaith |
| | QST 4f | | 65.67% | 100% mewn 5 ddiwrnod gwaith |
| | QST 4g | Cau'r achos (hyd yr achos) | 22.70% | 80% mewn 5 diwrnod gwaith |
| | QST 4h | | 33.21% | 100% mewn 10 ddiwrnod gwaith |
| Derbyn Darllediadau Domestig | QST 5a | Rhyngweithio | 74.18% | 90% mewn 1 diwrnod gwaith |
| | QST 5b | | 74.18% | 100% mewn 1 diwrnod gwaith |
| | QST 5c | Cydgysylltu â chwsmeriaid/Dilysu | 95.04% | 90% mewn 2 diwrnod gwaith |
| | QST 5d | | 96.74% | 100% mewn 5 diwrnod gwaith |
| | QST 5e | Ymchwilio | 79.93% | 90% mewn 17 diwrnod gwaith |
| | QST 5f | | 87.83% | 100% mewn 30 diwrnod gwaith |
| | QST 5g | Cau'r achos (hyd yr achos) | 52.32% | 80% mewn 20 diwrnod gwaith |
| | QST 5h | | 73.73% | 100% mewn 40 ddiwrnod gwaith |
| Mathau eraill o Gyfathrebu radio | QST 6a | Rhyngweithio | 80.39% | 90% mewn 1 diwrnod gwaith |
| | QST 6b | | 80.39% | 100% mewn 1 diwrnod gwaith |
| | QST 6c | Cydgysylltu â chwsmeriaid/Dilysu | 96.14% | 90% mewn 2 diwrnod gwaith |
| | QST 6d | | 97.43% | 100% mewn 5 ddiwrnod gwaith |
| | QST 6e | Ymchwilio | 85.53% | 90% mewn 17 diwrnod gwaith |
| | QST 6f | | 91.64% | 100% mewn 30 ddiwrnod gwaith |
| | QST 6g | Cau'r achos (hyd yr achos) | 58.84% | 80% mewn 20 diwrnod gwaith |
| | QST 6h | | 81.99% | 100% mewn 40 ddiwrnod gwaith |

Data ystadegol

**Nodyn 1:** Disgrifiadau o'r Categorïau Achos:

- Diogelwch Bywyd – ymyriant sylweddol â gwasanaeth radio a allai achosi perygl difrifol i ddiogelwch bywyd dynol, ac nid oes math arall o gyfathrebu sydd ar gael yn syth.
- Gwasanaeth Critigol (Categori 2) – ymyriant sylweddol â gwasanaeth radio a allai amharu'n ddifrifol ar effeithlonrwydd gwasanaethau cyhoeddus/brys (er nad oes perygl uniongyrchol i ddiogelwch bywyd dynol), ac nid oes math arall o gyfathrebu sydd ar gael yn syth.
- Gwasanaeth Critigol (Categori 3) – yr un fath ag ar gyfer Categori 2, ond bod rhwydwaith cyfathrebu effeithiol arall ar gael ar y pryd.
- Gwasanaethau Radio Busnes/Proffesiynol – ymyriant sylweddol â gwasanaeth radio a ddefnyddir i ddibenion masnachol neu broffesiynol, ond un nad yw'n cael ei ystyried yn Wasanaeth Critigol.
- Gwasanaethau Radio Eraill – ymyriant sylweddol â'r holl wasanaethau radio trwyddedig eraill, gan gynnwys derbyn darllediadau.

**Nodyn 2:** Mae dau gam interim yn y broses o reoli achosion ymyriant:

- Cydgysylltu â Chwsmeriaid/Dilysu – pryd bydd arbenigwyr Gweithrediadau Maes yn asesu ac yn dilysu'r adroddiad/gofyniad, ac yn cydgysylltu â'r cwsmer i drefnu ymweliad(au) i ymchwilio.
- Ymchwilio – pryd bydd arbenigwyr Gweithrediadau Maes yn ymgymryd ag ymweliadau maes i olrhain ffynonellau ymyriant a chymryd camau cywirol sy'n briodol.

**Nodyn 3:** Mewn sawl achos nid ydym wedi cwrdd â'n targedau ansawdd gwasanaeth. Mae nifer o resymau am hyn:

- Yn ystod 2007/8 gwnaethom newidiadau sylweddol i'n targedau a, fel canlyniad, maent yn fwy ymestynnol nag o'r blaen.
- Mae ei'n gallu i ddarganfod achos ymyrraeth, ac felly cau cam ymchwil unrhyw achos, gael ei effeithio os yw'r ymyrraeth yr ydym yn ymchwilio iddo yn ysbeidiol. Gall hyn effeithio ar ein gallu i gwrdd â thargedau ymchwilio.
- Cyn cloi achos, rhaid ein bod yn gallu ei ddatrys, naill a'i yn anffurfiol, wrth ddod i gytundeb â pherchennog yr offer sy'n achosi'r ymyrraeth, neu'n swyddogol, wrth ddod ag achos llys. Ym mhob achos, nid yw'r gallu i gwrdd â'n targed o fewn ein rheolaeth.
- Rydym yn adolygu ein dangosyddion perfformiad allweddol fel y byddant yn canolbwyntio ar agweddau ar ein perfformiad sydd o fewn ein rheolaeth ac felly'n cynnig gwell modd i fesur ein perfformiad.

Data ystadegol

## DARLLEDU – CWYNION AM RAGLENNI

Mae Ofcom dan ddyletswydd statudol i ystyried a dyfarnu ynghylch cwynion gan wrandawyr a gwylwyr am raglenni radio a theledu sydd wedi'u darlledu gan drwyddedeion darlledu yn y DU, S4C a'r BBC.

Cwblhawyd cyfanswm o 12,726 o achosion yn y cyfnod sydd dan sylw[1]. Mae achos yn golygu ymchwiliad i raglen benodol a gall ymwneud ag un neu ragor o gwynion am y rhaglen honno.

Gwnaeth Ofcom benderfyniad ar gyfanswm o 67,742 o gwynion am raglenni ac, o'r rhain, roedd 67,548 yn gwynion am safonau rhaglenni (gan gynnwys materion a oedd yn ymwneud â hysbysebu gwleidyddol a nifer a dosbarthiad hysbysebion) ac roedd 194 yn gwynion am annhegwch honedig a/neu dresmasu ar breifatrwydd heb gyfiawnhad.

O blith y 12,532 o achosion a gwblhawyd a oedd yn ymwneud â safonau rhaglenni:

- cafwyd bod 135 o achosion yn torri neu'n rhannol dorri un ai'r Côd Darlledu neu amodau trwydded (a'r rhain yn cyfateb i 45,228 o gwynion gan gynnwys y rhai am *Celebrity Big Brother*). O'r rhain, gosodwyd sancsiynau statudol mewn 11 o achosion[2] (9 o ddarlledwyr).
- cafodd 25 o achosion eu datrys neu eu datrys yn rhannol.
- roedd 12,372 nad oeddent yn torri'r Côd Darlledu neu amodau trwydded.

Y nifer[3] a gwblhawyd o fewn y cyfnod targed:

- Achosion syml – cwblhawyd 96.6% o fewn 30 o ddiwrnodau gwaith (targed: 80%).[4]
- Achosion cymhleth – cwblhawyd 62.2% o fewn 60 o ddiwrnodau gwaith (targed: 80%).

Ni chyrhaeddodd Ofcom ei darged ar ddangosyddion perfformiad ar gyfer achosion safonau cymhleth yn y cyfnod sydd dan sylw yma, a hynny'n bennaf am fod nifer y sancsiynau a'r achosion cymhleth a drafododd yn uwch nag erioed o'r blaen (yn enwedig mewn cysylltiad â defnyddio gwasanaethau cyfradd premiwm mewn rhaglenni). Roedd hyn am fod nifer o ymchwiliadau wedi para'n hwy o lawer na'r targed o 60 niwrnod am eu bod mor gymhleth; ac am fod y llwyth gwaith a oedd yn gysylltiedig â'r achosion sancsiynau wedi arwain at droi cyfran sylweddol o'r adnoddau a oedd ar gael oddi wrth achosion nad oeddent yn ymwneud â sancsiynau.

## DARLLEDU – TEGWCH A PHREIFATRWYDD

Y Pwyllgor Tegwch yw corff penderfynu uchaf Ofcom mewn cysylltiad ag achosion tegwch a phreifatrwydd. Mae'n un o bwyllgorau Ofcom (a phwerau wedi'u dirprwyo iddo gan Brif Fwrdd Ofcom) ac mae'n cynnwys o leiaf dri aelod, bob un wedi'i godi o'r Bwrdd Cynnwys. Mae'n ystyried achosion sydd wedi'u cyfeirio i'w sylw gan y Weithrediaeth (oherwydd eu cymhlethdod, er enghraifft). Mae hefyd yn adolygu penderfyniadau a wnaed gan y Weithrediaeth lle mae un parti neu'r ddau wedi cyflwyno dadl dros adolygu'r penderfyniad hwnnw.

Nifer yr achosion a gwblhawyd: 194

O'r achosion tegwch a phreifatrwydd a gwblhawyd, cafodd 27 eu hystyried gan y Pwyllgor Tegwch.

**O'r rhain:**

- cafodd 14 eu cadarnhau (13 ohonynt yn rhannol);
- ni chadarnhawyd 13 ohonynt.

Y Weithrediaeth a benderfynodd ar y 167 o achosion tegwch a phreifatrwydd gorffenedig a oedd yn weddill.

**O'r rhain:**

- cafodd 9 eu cadarnhau (7 ohonynt yn rhannol);
- ni chadarnhawyd 38 ohonynt;
- cafodd 7 eu datrys (ar ôl cymryd camau priodol gan y darlledwr);
- roedd 113 na chawsant eu hystyried neu y rhoddwyd y gorau i'w hystyried.

**Nifer yr achosion a gwblhawyd o fewn y targed:**

- Achosion syml – cwblhawyd 77.3% o fewn 80 niwrnod gwaith (targed: 80%);
- Achosion cymhleth – cwblhawyd 67.5% o fewn 130 diwrnod gwaith (targed: 80%).[4]

**1** Mae'r ffigur hwn yn cynnwys mwy na 44,500 o gwynion a oedd yn ymwneud ag achos *Celebrity Big Brother.*

**2** Roedd yr achosion sancsiynau hyn yn cynnwys *Celebrity Big Brother* a phum achos a oedd yn ymwneud â defnyddio gwasanaethau cyfradd premiwm mewn cystadlaethau i wylwyr.

**3** Mae'r ffigurau hyn yn adlewyrchu'r achosion hynny a drafodwyd dan ddangosyddion perfformiad newydd Ofcom (a gyflwynwyd o 1 Ebrill 2007). Er mwyn eglurder, ni chynhwyswyd yr achosion hynny a gwblhawyd yn ystod y cyfnod sydd dan sylw yma ond a oedd wedi dod i law cyn 1 Ebrill 2007, a chael eu trafod o'r herwydd dan y dangosyddion perfformiad blaenorol.

**4** Ni chyrhaeddodd Ofcom ei dargedau ar ddangosyddion perfformiad ar gyfer achosion tegwch a phreifatrwydd yn y cyfnod sydd dan sylw yma. Y rheswm pennaf am hynny oedd bod nifer yr achosion sancsiynau a drafodwyd yn fwy nag erioed o'r blaen fel bod cyfran sylweddol o'r adnoddau a oedd ar gael wedi'u troi oddi wrth achosion nad oeddent yn ymwneud â sancsiynau. Gweler y sylwadau am achosion safonau uchod.

Data ystadegol

## DARLLEDU – PWYLLGOR SANCSIYNAU CYNNWYS

Cyfeirir achosion y mae'r Weithrediaeth yn credu y gallent gyfiawnhau ystyried gosod sancsiynau statudol i sylw'r Pwyllgor Sancsiynau Cynnwys, sy'n cynnwys pum aelod sydd wedi'u codi o Fwrdd Ofcom a'r Bwrdd Cynnwys. Rhaid i dri aelod o'r Bwrdd Cynnwys fod yn bresennol i wneud cworwm yn y Pwyllgor Sancsiynau Cynnwys. Cadeirir y Pwyllgor Sancsiynau Cynnwys gan Gadeirydd y Bwrdd Cynnwys neu'r Partner dros Gynnwys a Safonau.

Yn ystod y cyfnod sydd dan sylw yma, gosodwyd sancsiynau gan y Pwyllgor Sancsiynau Cynnwys mewn 11 o achosion.

Penderfynodd y Pwyllgor Sancsiynau Cynnwys osod dirwy ar y canlynol (wedi'u trefnu yn ôl maint y gosb ariannol):

- GMTV Cyfyngedig mewn cysylltiad â chystadlaethau i wylwyr ar ei wasanaeth National Channel 3 – £2,000,000 a Chyfarwyddyd i ddarlledu datganiad Ofcom am ei ddyfarniad ar dri diwrnod dilynol.
- Corfforaeth Deledu Channel 4 mewn cysylltiad â *You Say We Pay, Richard and Judy* ar ei gwasanaeth Channel 4 – £1,000,000 a Chyfarwyddyd i ddarlledu datganiad Ofcom am ei ddyfarniad ar dri diwrnod gwahanol.
- Corfforaeth Deledu Channel 4 mewn cysylltiad â *Deal or No Deal* ar ei gwasanaeth Channel 4 – £500,000 a Chyfarwyddyd i ddarlledu datganiad Ofcom am ei ddyfarniad ar dri diwrnod gwahanol.
- Channel 5 Broadcasting Cyfyngedig mewn cysylltiad â *Brainteaser* ar ei wasanaeth Channel 5 ("Five") – £300,000 a Chyfarwyddyd i ddarlledu datganiad Ofcom ar ddau achlysur gwahanol ar yr un diwrnod.
- Life Show-Case Cyfyngedig mewn cysylltiad â'r gwasanaeth Life Show-Case – £125,000.
- Life TV Media Cyfyngedig mewn cysylltiad â'r gwasanaeth Life TV – £100,000.
- Y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig mewn cysylltiad â *Blue Peter* ar ei gwasanaethau BBC1 a CBBC – £45,000 (ar gyfer BBC1) a £5,000 (ar gyfer CBBC).
- Islam Channel Cyfyngedig mewn cysylltiad â'i wasanaeth Islam Channel – £30,000.
- Connection Makers Cyfyngedig mewn cysylltiad â *Babeworld* ar ei wasanaeth Babeworld TV – £25,000.
- ARY Digital UK Cyfyngedig mewn cysylltiad â'i wasanaeth ARY Digital – £15,000 a Chyfarwyddyd i ddarlledu datganiad Ofcom am ei ddyfarniad.
- Corfforaeth Deledu Channel 4 mewn cysylltiad â *Celebrity Big Brother 2007* ar ei gwasanaeth Channel 4 (ac S4C) – Cyfarwyddyd i ddarlledu datganiad Ofcom am ei ddyfarniad ar dri diwrnod gwahanol.

**5** Trosglwyddir yr holl arian a dderbynnir ar ffurf dirwyon i Drysorlys y DU.

## Rhaglen ymchwiliadau – Dangosyddion perfformiad allweddol

Mae Ofcom yn cynnal rhaglen ymchwiliadau i ddelio â chwynion am ymddygiad gwrthgystadleuol, torri rhai amodau *ex ante* ac anghydfodau. Yn y tabl canlynol dangosir gweithgareddau Ofcom wrth drafod ymholiadau ac mewn ymchwiliadau llawn yn ystod 2007/8, gan gynnwys ei berfformiad yn ôl targedau sydd wedi'u cyhoeddi (gan gynnwys targedau statudol).

TABL 3

| CATEGORI A THARGED | LEFEL CYFLAWNI (YR HOLL ACHOSION A GWBLHAWYD YN YSTOD CYFNOD YR ADRODDIAD PA BRYD BYNNAG Y'U DECHREUWYD) | LEFEL CYFLAWNI (ACHOSION A GWBLHAWYD A OEDD WEDI'U DECHRAU YNG NGHYFNOD YR ADRODDIAD) |
|---|---|---|
| Penderfynu gwrthod neu dderbyn ymholiad o fewn 15 niwrnod gwaith | 52% (o'r 23 a gwblhawyd, roedd 11 yn hwyrach na'r targed drwy gytundeb; 100% drwy gytundeb yn yr achosion cymhleth) | 52% (o'r 24 a ddechreuwyd, cwblhawyd 21, 10 yn hwyrach na'r targed drwy gytundeb; 100% drwy gytundeb yn yr achosion cymhleth) |
| Penderfynu gwrthod neu dderbyn ymholiad o dan Ddeddf Cystadleuaeth o fewn wyth wythnos (targed newydd a gyflwynwyd yn haf 2007) | 100% (dau wedi'u cwblhau) Sylwer: Ar gyfer un o'r ymholiadau a gwblhawyd y cofnodwyd ei fod wedi'i gwblhau mewn pryd, pennodd Ofcom gyfnod ymchwilio deg wythnos ar y dechrau oherwydd y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd | 100% (o'r 3 a ddechreuwyd, cwblhawyd 2, ac nid oedd yr un ohonynt yn hwyrach na'r targed). Sylwer: Ar gyfer un o'r ymholiadau a gwblhawyd y cofnodwyd ei fod wedi'i gwblhau mewn pryd, pennodd Ofcom gyfnod ymchwilio deg wythnos ar y dechrau oherwydd y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd. Mae un ymchwiliad a ddechreuwyd yn ystod cyfnod yr adroddiad yn dal i fynd ymlaen ac mae wedi mynd heibio i'r targed drwy gytundeb |
| Datrys Anghydfodau (pedwar mis) | 100% (cwblhawyd wyth achos, a dim un yn hwyrach na'r targed) Sylwer: roedd amgylchiadau eithriadol mewn tri o'r achosion y cofnodwyd eu bod wedi'u cwblhau mewn pryd | 100% (o'r 4 a ddechreuwyd, cwblhawyd 3) Sylwer: mae un achos o anghydfod a ddechreuwyd yng nghyfnod yr adroddiad yn dal yn agored ac mae wedi mynd heibio i'r targed - mae amgylchiadau eithriadol mewn cysylltiad ag ef |
| Ymchwiliadau dan Ddeddf Cystadleuaeth (chwe mis os penderfynir nad oes rheswm dros weithredu; 12 mis os penderfynir bod trosedd) | 0% (un achos wedi'i gwblhau a aeth heibio i'r targed) | Amherthnasol (ni ddechreuwyd unrhyw achosion). Sylwer: mae dau achos a ddechreuwyd cyn cyfnod yr adroddiad yn dal yn agored ac wedi mynd heibio i'r targed |
| Ymchwiliadau o dan Ran 8 o Ddeddf Menter (chwe mis i sicrhau ymgymeriadau) | Amherthnasol (ni chwblhawyd unrhyw achosion) | Amherthnasol (ni ddechreuwyd unrhyw achosion). |
| Ymchwiliadau i achosion o dorri amodau ex ante a thelerau annheg yng nghontractau defnyddwyr (pedwar mis ar gyfer datganiad terfynu neu hysbysiad bod amod wedi'i dorri) | Amherthnasol (ni chwblhawyd unrhyw achosion) | Amherthnasol (ni ddechreuwyd unrhyw achosion). Sylwer: mae un achos a ddechreuwyd cyn cyfnod yr adroddiad yn dal yn agored ac wedi mynd heibio i'r targed |
| Ymchwiliadau ar ei fenter ei hun (chwe mis) | 90% (10 achos wedi'u cwblhau, un wedi cyrraedd targed estynedig a gytunwyd) Sylwer: roedd un o'r wyth achos y dangosir eu bod wedi'u cwblhau mewn pryd yn Rhaglen Orfodi a estynnwyd dros gyfnodau pellach o chwe mis ar dri achlysur | 100% (o'r 11 o achosion a ddechreuwyd, cwblhawyd chwech). Sylwer: mae un achos a ddechreuwyd fel Rhaglen Orfodi wedi'i ymestyn dros gyfnod pellach o chwe mis |
| Yr holl ymchwiliadau | 89% (cwblhawyd 19 o achosion, un ohonynt wedi cwrdd â tharged estynedig a gytunwyd ac un wedi mynd heibio i'r targed) Sylwer: Fel y nodwyd uchod, roedd amgylchiadau eithriadol mewn tri o'r anghydfodau y cofnodwyd eu bod wedi'u datrys mewn pryd ac, yn yr un modd, roedd un o'r ymchwiliadau ar ein menter ein hunain y dangoswyd ei fod wedi'i gwblhau mewn pryd yn Rhaglen Orfodi a estynnwyd | 100% (o'r 15 achos a ddechreuwyd, cwblhawyd 9 ac nid yw'r un ohonynt wedi mynd heibio i'r targed). Roedd un achos sy'n mynd ymlaen a agorwyd yng nghyfnod yr adroddiad fel Rhaglen Orfodi wedi'i ymestyn am gyfnod pellach o chwe mis ac mae Ofcom wedi tynnu sylw at amgylchiadau eithriadol mewn un achos o anghydfod sy'n mynd ymlaen a ddechreuwyd yng nghyfnod yr adroddiad. Nid oedd yr un o'r achosion eraill sy'n mynd ymlaen a ddechreuwyd yng nghyfnod yr adroddiad wedi mynd heibio i'w darged ar 31 Mawrth 2008 |

# Perfformiad ariannol

## Fframwaith statudol Ofcom

Mae pwerau a dyletswyddau Ofcom yn deillio'n bennaf o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, y rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol iddi ar 17 Gorffennaf 2003.

Mae Ofcom yn gorfforaeth statudol annibynnol sy'n atebol i'r Senedd. Mae ei ddyletswyddau penodol, sy'n deillio'n bennaf o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, yn perthyn i chwe maes:

- sicrhau'r defnydd gorau posibl o'r sbectrwm electromagnetig;
- sicrhau bod ystod eang o wasanaethau cyfathrebu electronig – gan gynnwys gwasanaethau data cyflym – ar gael ledled y DU;
- sicrhau ystod eang o wasanaethau teledu a radio sydd o ansawdd uchel ac yn eang eu hapêl;
- cadw lluosogrwydd yn y ddarpariaeth ddarlledu;
- rhoi mesurau digonol ar waith i amddiffyn cynulleidfaoedd rhag deunydd tramgwyddus neu niweidiol;
- rhoi mesurau digonol ar waith i amddiffyn cynulleidfaoedd rhag annhegwch neu dresmasu ar breifatrwydd.

Mae Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu ein bod yn gweithredu mewn modd tryloyw, atebol, cymesur a chyson sydd wedi'i dargedu.

## Fframwaith ariannol

O dan Baragraff 8(1) o'r Atodlen i Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, mae'n ofynnol i Ofcom fantoli ei wariant a'i incwm ym mhob blwyddyn ariannol.

Mae adrannau 38 a 347 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn codi incwm o bob un o'r sectorau y mae'n eu rheoleiddio o faint a fydd yn darparu ar gyfer y costau y bydd Ofcom yn eu codi wrth reoleiddio'r sector hwnnw.

Rhaid i Ofcom hefyd rannu ei gostau gweithredu cyffredin – y rhai nad ydynt yn ymwneud ag unrhyw sector penodol – yn gymesur ar draws pob un o'r sectorau hynny.

Mae Ofcom yn codi ei arian o'r ffynonellau canlynol:

- ffioedd trwyddedau darlledu teledu;
- ffioedd trwyddedau darlledu radio;
- ffioedd gweinyddu ar gyfer rhwydweithiau a gwasanaethau electronig ac am ddarparu cyfleusterau darlledu a rhai cysylltiedig;
- cyllid i ddarparu ar gyfer costau gweithredu Ofcom ar gyfer rheoli sbectrwm ar ffurf cymorth grant gan yr Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio (BERR).

Mae cymorth grant yn darparu ar gyfer costau rheoli a rheoleiddio sbectrwm radio'r DU. Mae hefyd yn darparu ar gyfer y dyletswyddau a'r swyddogaethau statudol hynny y mae'n rhaid i Ofcom eu cyflawni o dan y Ddeddf Cyfathrebiadau ond nad oedd y Ddeddf wedi darparu ffrwd refeniw ar eu cyfer. Rhai enghreifftiau o hynny yw'r prawf buddiant cyhoeddus statudol ar gyfer cyfuno busnesau cyfathrebu ac ymchwiliadau ex post dan Ddeddf Cystadleuaeth mewn cysylltiad â rhwydweithiau a gwasanaethau.

Mae Ofcom hefyd yn cael incwm o rent ar adeiladau nad oes arno eu hangen i'w ddibenion ei hun ac o log banc mewn cysylltiad ag arian sydd mewn llaw yn y banc.

## Canlyniadau gweithredu

Alldro gwariant gweithredu gwirioneddol Ofcom ar sail arian wedi'i addasu, a'r hyn a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r tariffau a godir ar randdeiliaid bob blwyddyn, oedd £130 miliwn yn 2007/8 (2006/7: £129.4 miliwn), £0.2 miliwn yn is nag a oedd yn y gyllideb.

Bu cynnydd o £8.8 miliwn yng nghyfanswm gwariant gweithredu Ofcom yn y cyfrif incwm a gwariant yn 2007/8 o'i gymharu â gwariant yn 2006/7. Roedd y newidiadau sylweddol ers y flwyddyn flaenorol fel a ganlyn:

- Cynnydd o 21 yn nifer cyfartalog y gweithwyr; codiadau cyflog yn unol â chwyddiant; mwy o ddarpariaeth ar ffurf costau ailstrwythuro; mae croniad ar gyfer cyfnodau sabothol y gwnaed iawn amdano drwy ryddhau croniad o Yswiriant Gwladol o'r flwyddyn flaenorol wedi arwain at gynnydd clir o £5 miliwn mewn costau staff.
- Bu cynnydd clir o £3.7 miliwn yn y costau gweithredu ar ôl sicrhau arbedion o £2.6 miliwn mewn treuliau gweinyddol drwy hyrwyddo nifer o gynlluniau effeithlonrwydd a gostyngiad o £4 miliwn yng nghostau prosiectau ymchwil a datblygu sy'n ymwneud â sbectrwm, yn bennaf o ganlyniad i wariant anghylchol gan gynnwys:

– Gweithgareddau datblygu, glanhau data a hyfforddiant ar gyfer ein rhaglen adnewyddu systemau gwybodaeth, yn enwedig mewn cysylltiad â gweithredu systemau trwyddedu newydd.
– Iawndaliadau i ddeiliaid trwyddedau fel rhan o'n rhaglen gynlluniedig ar gyfer rhyddfrydoli sbectrwm.
– Mwy o gostau cyfleuster o ganlyniad i adolygiadau rhent a trethi uwch.
– Amorteiddio cyflymach yn achos rhai asedau nad yw Ofcom bellach yn cael budd economaidd ohonynt
– Mwy o ddarpariaethau cyfreithiol fel yr eglurir ymhellach yn Nodyn 18

Dangosir cysoniad yn Nodyn 2 yn Adran E sy'n tynnu sylw at y

gwahaniaethau rhwng cyfanswm y gwariant gweithredu fel y'i cyflwynwyd yn y cyfrif incwm a gwariant ac alldro gweithredu gwirioneddol Ofcom, sef £130 miliwn.

Mae Nodyn 2 i'r datganiadau ariannol hefyd yn cyflwyno alldro gweithredu gwirioneddol Ofcom ar gyfer 2007/8, yn ôl sector.

## Gwarged ar gyfer y Flwyddyn Ariannol

Y gwarged ar gyfer y flwyddyn dan sylw a gofnodwyd yn y cyfrifon incwm a gwariant oedd £8.3 miliwn (2007: £22.1 miliwn). Yn ogystal â'r lleihâd a nodir uchod, mae'r lleihâd pellach yn y warged yn bennaf yn ganlyniad:

- amorteiddio cyflymedig yn 2007/8 o asedau sydd bellach ddim o fudd economaidd i Ofcom
- buddiannu ar gredyd anarferol o ran addasiad net o ildio brydles 2006/7

Mae angen y gwarged i ddarparu ar gyfer gwariant sydd heb ei adlewyrchu yn y Cyfrif Incwm a Gwariant, gan gynnwys gwariant cyfalaf, a chyfraniadau i'r ddau gynllun pensiwn budd diffiniedig.

## Capiau Gwariant Trysorlys Ei Mawrhydi

Mae Ofcom yn casglu ffioedd oddi wrth drwyddedeion dan Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr. Mae Ofcom wedyn yn trosglwyddo'r arian a gasglwyd i'r Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio sy'n anfon cyfran ohono'n ôl i Ofcom ar ffurf cymorth grant i ariannu gweithgareddau Ofcom ar reoli sbectrwm ac yn anfon y swm sy'n weddill i Drysorlys y DU. Mae cyfrifon Adran 400 Ofcom, a gyhoeddir ar wefan Ofcom, yn rhestru'r arian a gasglwyd a'r taliadau grant a gafwyd.

Yn ystod 2007/08 cytunodd Ofcom, dan Adran 401 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau , i ystyried dull gweithredu gwahanol lle byddai Ofcom yn casglu'r ffioedd dan Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr, yn didynnu costau ei weithgareddau rheoli sbectrwm, ac yn anfon yr arian a oedd yn weddill yn uniongyrchol i Drysorlys y DU. Ar ôl cynnal adolygiad manwl, mae Ofcom wedi penderfynu peidio â rhoi Adran 401 ar waith ar hyn o bryd gan nad yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn caniatáu sylweddu'r buddion effeithiolrwydd prosesau disgwyliedig i Ofcom a'i randdeiliaid.

## Tariffau 2007/8

Ar 31 Mawrth 2008, cyhoeddodd Ofcom y Tablau Tariff ar gyfer 2008/9, a oedd wedi'u seilio ar amcangyfrif o'r alldro gwariant gweithredu ar gyfer 2007/8 o £129.8 miliwn.

Bydd cyfanswm o £0.4 miliwn – y gwahaniaeth rhwng y gyllideb wreiddiol o £130.2 miliwn a'r amcangyfrif o'r alldro gwariant gweithredu – yn cael ei roi'n ôl i randdeiliaid yn 2008/9 fel rhan o'r tariffau rheoleiddio cyfredol neu drwy ad-dalu cymorth grant a hawliwyd.

Ar sail gyfatebol, bydd cyllideb Ofcom ar gyfer 2008/9 yn £133.7 miliwn, sy'n 1.5% yn llai o ran ei gwir werth na'i gyllideb ar gyfer 2007/8. Hwn yw'r pedwerydd gostyngiad yn olynol yng ngwir werth cyllideb Ofcom ac mae'n 17.5% yn llai yn ôl ei gwir werth na'r gyllideb flwyddyn lawn wreiddiol i Ofcom a bennwyd yn 2004/5.

Mae Ofcom yn hyderus, yn dilyn gwelliannau a chynlluniau sylweddol ym maes effeithlonrwydd dros nifer o flynyddoedd, fod y corff bellach yn gweithredu ar sail gofynion cyllidebol mwy sefydlog.

Mae'r gyllideb weithredu o £133.7 miliwn yn adlewyrchu'r cynnydd a ragwelir yn y Mynegai Prisiau Manwerthu ac ail-amserlennu rhai prosiectau o 2007/8. Mae'r gyllideb wedi'i phennu ar sail arian wedi'i addasu sy'n cynnwys gwariant cyfalaf a chyfraniadau gwirioneddol i gynlluniau pensiwn, ond nid dibrisiant.

Er hynny, bydd rhai rhanddeiliaid yn gweld cynnydd yn eu ffioedd rheoleiddio ar gyfer 2008/9 o'u cymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol am fod bwriad i ddyrannu mwy o waith ar gyfer y sector hwnnw.

Bydd ffioedd rheoleiddio'r sectorau'n newid yn benodol fel a ganlyn:

- gostyngiad cyfartalog o 6.3% ar gyfer y sector radio;
- gostyngiad cyfartalog o 2.4% ar gyfer y sector teledu;
- cynnydd cyfartalog o 4.1% ar gyfer busnesau gweithredu rhwydweithiau a gwasanaethau.

## Pobl

Ar 31 Mawrth 2008, roedd gan Ofcom 812 o weithwyr (2006/7: 800)

## Pensiynau

Y prif ddull sydd gan Ofcom o ddarparu budd-daliadau pensiwn yw drwy lwfans pensiwn cyfrannu diffiniedig a ddarperir i'r holl weithwyr newydd ac i'r cydweithwyr hynny o'r cyrff rheoleiddio etifeddol sydd wedi cymryd y dewis hwn. Gellir defnyddio'r lwfans hwn i gyfrannu i gynllun pensiwn rhanddeiliaid cyfraniad diffiniedig Ofcom. Mae mwy na 80% o gydweithwyr Ofcom wedi'u cyflogi ar delerau sy'n cynnig mynediad i gynllun pensiwn rhanddeiliaid. Mae cydweithwyr eraill o'r cyrff rheoleiddio etifeddol yn cael aelodaeth o'r cynlluniau pensiwn budd diffiniedig.

Ar gyfer y cydweithwyr hynny a ddaeth at Ofcom o'r cyrff rheoleiddio etifeddol ac a ddewisodd gadw eu haelodaeth o gynllun pensiwn budd diffiniedig, mae Ofcom yn gweithredu dau gynllun o'r fath, nad ydynt ar gael i newydd-ddyfodiaid;

Perfformiad ariannol

mae mwy o fanylion yn Nodiadau 1j a 25b.

Roedd y prisiadau actiwaraidd diweddaraf (ar 1 Ionawr 2007 ar gyfer Cynllun Pensiwn Ofcom (ITC cynt) a 31 Mawrth 2007 ar gyfer Cynllun Pensiwn Budd Diffiniedig Ofcom) yn dangos diffyg ariannu ar y cyd o £17.7 miliwn. Er hynny, mae'r datganiadau ariannol yn dangos gwarged o £10 miliwn, yn bennaf am fod y rhwymedigaethau pensiwn dan y datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar y sail bod y rhwymedigaethau wedi'u disgowntio'n unol â'r elw o fondiau ansawdd uchel sydd (o dan amodau presennol y farchnad yn enwedig) yn gwahaniaethu'n sylweddol oddi wrth y dull a ddefnyddiwyd i bennu cyfraniadau Ofcom.

Rhoddai Ofcom gyfraniadau ariannol (fel y mae'n gwneud o hyd) i Gynllun Budd Diffiniedig Ofcom a Chynllun Pensiwn Ofcom (ITC gynt) ar sail y prisiad actiwaraidd. Mae cyfraniadau ariannol, yn hytrach na'r swm a godir ar y gwarged gweithredu (fel y'i cyfrifwyd dan FRS 17), wedi'u cynnwys yn yr alldro gwariant gweithredu a ddefnyddir i gyfrifo'r tariffau a godir ar randdeiliaid bob blwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn, maint y cyfraniadau i'r ddau gynllun pensiwn budd diffiniedig oedd £6.9 miliwn: y talwyd £1.8 miliwn ohono i gyfrif ymddiriedolaeth. Nid yw arian sydd wedi'i drosglwyddo i'r cyfrif ymddiriedolaeth a'i ddal ynddo ond ar gael i'w dalu i un o'r ddau Gynllun Pensiwn Budd Diffiniedig ac ni ellir ei ddefnyddio i unrhyw ddiben arall.

## Arian ychwanegol a gasglwyd ar ran Trysorlys Ei Mawrhydi

Yn 2007/8, yn unol ag Adran 400 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau, gwnaeth Ofcom anfonebu a chasglu £232.4 miliwn (2006/7: £229.1 miliwn) oddi wrth gwmnïau darlledu a chyfathrebu di-wifr ar ffurf refeniw sbectrwm a derbyniadau o drwyddedau. Bydd Ofcom yn paratoi set o Ddatganiadau Ariannol ar wahân i ddibenion Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

Ar 31 Mawrth 2008, roedd ceisiadau am dâl mewn cysylltiad â ffioedd sbectrwm gwerth £52.5 miliwn (2006/7: £40.7 miliwn) yn dal heb eu talu. Mae cyfran sylweddol o'r symiau hyn sy'n daladwy yn ddyledus ar ffurf rhandaliadau. Ni cheir dileu unrhyw ddyledion sylweddol heb gael caniatâd ysgrifenedig gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Ar ddyddiad y fantolen, roedd swm o £1 filiwn yn orddyledus ers mwy na 12 mis gan Inquam Telecom (Holdings) Cyfyngedig. Mae gan Inquam gynllun talu cytunedig er mwyn lleihau'r ddyled dros amser.

## Buddsoddi mewn asedau sefydlog

Mae Ofcom yn dal i weithredu ei rhaglen adnewyddu systemau gwybodaeth; ac mae rhan ohono wedi'i roi ar waith yn y busnes bellach. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd yr asedau sy'n cael eu llunio, sy'n ymwneud â datblygu systemau, yn werth £4.1 miliwn.

## Rhaglen adnewyddu systemau gwybodaeth

Yn ystod 2007/8, dan raglen adnewyddu systemau gwybodaeth Ofcom, cwblhawyd y gwaith o ddatblygu system newydd ar gyfer trwyddedu sbectrwm sy'n cynnwys cysylltiadau sefydlog; fe'i rhoddwyd ar waith yn Ebrill 2008. Bydd y system yn galluogi Ofcom i reoli'r broses o drwyddedu sbectrwm ac adnewyddu trwyddedau'n fwy effeithlon. Bydd Ofcom yn trosoli'r buddsoddiad hwn drwy symud gweddill y trwyddedau sbectrwm i'r system yn y flwyddyn ganlynol.

Mae'r prosiect systemau gwybodaeth, sy'n cael ei alw wrth yr enw Unify o fewn Ofcom, yn un cymhleth a chynhwysfawr, sy'n cyfuno amryw o systemau gwybodaeth a ddefnyddid gan y cyrff rheoleiddio a ragflaenodd Ofcom. Yn ystod 2007/8 daeth yn amlwg bod y dasg o ddelio â sbectrwm yn fwy cymhleth nag a dybiwyd yn wreiddiol. Oherwydd hynny, mae hyd y rhaglen a chyfanswm y gost o'i roi ar waith yn fwy na'r amcangyfrifon gwreiddiol.

Cafwyd adolygiad mewnol trwyadl o'r rhaglen adnewyddu yn ystod y flwyddyn ariannol ac, o ganlyniad i hynny, ailgynlluniwyd tasgau, adolygwyd y rhagolwg ariannol a rhoddwyd strwythur llywodraethu newydd ar waith. Mae'r risgiau a ganfuwyd wedi'u monitro'n fanwl ar lefel y rheolwr prosiect, y Bwrdd Gweithrediadau a'r Bwrdd a chymerwyd camau priodol i ddelio â chostau ac anawsterau a oedd yn ymwneud â chost, amser ac ymarferoldeb.

## Talu cyflenwyr

Y targed sydd gan Ofcom yw gwneud yr holl daliadau nad oes anghydfod yn eu cylch o fewn 30 niwrnod neu lai ar ôl derbyn y nwyddau a gwasanaethau perthnasol, neu ar ôl cael anfoneb ddilys os yw hynny'n ddiweddarach. Yn 2007/8, sicrhaodd Ofcom berfformiad o 97.2 y cant yn erbyn y targed hwn (2006/7: 98.8 y cant).

## Benthyciad yr Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio

Yn ystod 2007/8, gorffennodd Ofcom ad-dalu'r benthyciad a gafodd yn wreiddiol i sefydlu'r corff; mae hyn wedi'i egluro ymhellach yn Nodyn 16.

# Adran Ch

## Datganiad o Gyfrifon a Llywodraethu Corfforaethol

### Rhagair

**ADRODDIAD Y BWRDD**
Mae'r Bwrdd yn cyflwyno ei Adroddiad a'r datganiadau ariannol archwiliedig am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2008.

**DATGANIAD O GYFRIFON**
Mae'r Datganiad o Gyfrifon hwn wedi'i baratoi'n unol ag Atodlen 1 i Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002 ac yn ôl fel y cyfarwyddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'r Cyfrifon yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2007 a 31 Mawrth 2008.

**PRIF WEITHGAREDDAU**
Mae Ofcom yn gorfforaeth statudol heb gyfranddalwyr, a sefydlwyd o dan Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002.

Mae Ofcom wedi'i awdurdodi, o dan Ddeddf Cyfathrebu 2003, i reoleiddio a thrwyddedu teledu, radio, y defnydd o'r sbectrwm radio a thelathrebu yn unol â'r dyletswyddau a roddwyd iddo dan y Ddeddf.

**ADOLYGIAD GWEITHREDU AC ADOLYGIAD ARIANNOL**
Mae Neges y Cadeirydd ar dudalennau 4 a 5, Adroddiad y Prif Weithredwr ar dudalennau 6 a 9 a'r Adolygiad Gweithredu ac Adolygiad Ariannol ar dudalennau 28 i 47 yn rhan o'r Adroddiad hwn ac maent yn rhoi gwybodaeth am weithgareddau Ofcom yn ystod y flwyddyn. Mae datganiadau ariannol Ofcom ar dudalennau 72 i 77.

**ARCHWILWYR ALLANOL**
Mae'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, sydd â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn staff iddo, wedi'i benodi'n archwilydd allanol i Ofcom o dan Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002. Cost yr archwiliad statudol ar gyfer 2007/08 oedd £85,000.

Hyd y gŵyr y Swyddog Atebol, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr Ofcom yn ymwybodol ohoni, ac mae'r Swyddog Atebol wedi cymryd pob cam y dylai fod wedi'i gymryd i'w wneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr Ofcom yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

**Y BWRDD**
Mae'r Bwrdd yn llwyr gyfrifol am benderfynu a gweithredu busnes Ofcom. Mae manylion Aelodau'r Bwrdd ar dudalennau 52 a 53. Mae manylion tâl yr Aelodau ar dudalennau 65 i 70.

**BUDDIANNAU AELODAU**
Mae Ofcom yn arddel polisi o ddatgelu buddiannau Aelodau'n llawn. Mae manylion am y rhain ar gael ar lein yn www.ofcom.org.uk.

**DIGWYDDIADAU ÔL-FANTOLEN**
Ni fu unrhyw ddigwyddiadau ôl-fantolen hysbysadwy rhwng dyddiad y fantolen a 10 Mehefin 2008, y dyddiad pan anfonodd y Swyddog Atebol y cyfrifon i'r Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio. Nid yw'r datganiadau ariannol yn dangos digwyddiadau ar ôl y dyddiad hwn.

## Rhagair

### CENHADAETH A GWERTHOEDD OFCOM

Mae Aelodau'r Bwrdd a'u cydweithwyr yn Ofcom yn rhannu ymrwymiad Ofcom i'w genhadaeth a'i werthoedd. Amcan y genhadaeth a'r gwerthoedd cyffredin yw sicrhau bod holl Aelodau'r Bwrdd a phob un o'u cydweithwyr yn ymgymryd â gwaith Ofcom gan gyfeirio at set eglur o werthoedd craidd. Roedd cydweithwyr ym mhob rhan o'r corff wedi cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r chwe gwerth sy'n adlewyrchu awydd Ofcom i weithio mewn modd agored ac effeithiol sy'n cael ei ysgogi gan bobl. Wrth weithio fel hyn, mae Ofcom yn ceisio bod yn ddeinamig, yn ymatebol ac yn fasnachol effro; mae Ofcom yn rhoi gwerth ar feddwl treiddgar, dadansoddi trwyadl sydd wedi'i seilio ar dystiolaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Gwerthoedd Ofcom yw:

- Cyfathrebu'n agored ac yn onest;
- Gwrando â meddwl agored;
- Gwneud gwahaniaeth;
- Grymuso a blaenoriaethu;
- Buddsoddi yn ein cydweithwyr a'u cefnogi;
- Cydweithio gwirioneddol.

### CYNNWYS CYDWEITHWYR AC YMGYNGHORI Â HWY

Mae ansawdd, ymroddiad ac effeithioldeb cydweithwyr Ofcom yn hollbwysig i'w lwyddiant. Rhoddir anogaeth i gynnwys cydweithwyr yn holl brosesau pob dydd Ofcom.

Mae Ofcom yn hysbysu ac yn ymgynghori â'i gydweithwyr yn benodol drwy:

- Fforwm Cydweithwyr Ofcom, sef fforwm gwybodaeth ac ymgynghori sy'n cynnwys cynrychiolwyr i gydweithwyr ym mhob rhan o Ofcom ac sy'n cwrdd yn rheolaidd ag uwch reolwyr yng nghyfarfodydd y Grŵp Ymgynghori ar y Cyd (sy'n cynnwys dau aelod o'r Undeb Partneriaeth);
- mewnrwyd Ofcom, sydd ar gael i bob cydweithiwr yn holl swyddfeydd Ofcom;
- cyflwyniadau dan ofal uwch reolwyr pryd y caiff cynlluniau strategol newydd eu hegluro i gydweithwyr a diweddariadau eu rhoi ynghylch prosiectau sy'n mynd ymlaen;
- cyfarfodydd rheolaidd rhwng grwpiau i wrando ar gydweithwyr ac i ledaenu gwybodaeth;
- negeseuon rheolaidd gan y Prif Weithredwr;
- digwyddiad blynyddol i'r holl gydweithwyr i adolygu cynnydd ac edrych ymlaen at y flwyddyn i ddod.

Yn ogystal â hynny, mae Ofcom wedi meithrin perthynas â'r Undeb Partneriaeth – corff sy'n cynnwys cynrychiolwyr o BECTU a Prospect.

### POLISÏAU CYFLOGAETH, DATBLYGU PERFFORMIAD A DYLETSWYDDAU SECTOR CYHOEDDUS

Mae Ofcom yn gyflogwr cyfle cyfartal ac mae'n recriwtio cydweithwyr heb ystyriaeth i oed, rhywedd, cefndir diwylliannol ac ethnig, anabledd, crefydd neu gred a chyfeiriadedd rhywiol.

Mae Ofcom wedi ymrwymo i ddatblygu corff lle caiff yr holl gydweithwyr eu trin yn deg, gydag urddas a pharch ac mae wedi datblygu ystod o bolisïau sy'n gyson â gofynion cyfraith cyflogaeth, ac yn benodol â gofynion deddfwriaeth sydd â'r amcan o ddileu gwahaniaethu gan gynnwys Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2001, Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 ac, mewn cysylltiad â gweithgareddau yng Ngogledd Iwerddon, adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 a Gorchymyn Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995.

Mae gan Ofcom bolisi chwythu'r chwiban mewnol sy'n nodi'r weithdrefn y dylai cydweithwyr ei dilyn os ydynt yn dymuno mynegi pryder ynghylch camarfer yn y corff.

Mae Ofcom wedi diweddaru ei brosesau asesu a gwobrwyo i sicrhau bod cydweithwyr yn cytuno ar amcanion clir ar gyfer perfformiad a'u datblygiad parhaus. Cyflwynwyd mwy na 500 o weithgareddau datblygiad ym mhob rhan o'r corff yn ystod y cyfnod sydd dan sylw.

### CYFLOGWYR GORAU PRYDAIN

O blith 79 o gyrff a enwyd yn 'gyflogwyr gorau' mewn arolwg yn y DU, daeth Ofcom i'r 30 uchaf. Mae'r cynllun gwobrwyo hwn yn dangos ac yn cydnabod y cynnydd yr ydym wedi'i wneud fel corff o ran gallu denu a chadw'r bobl orau.

### AMRYWIAETH A CHYFRIFOLDEB CYMDEITHASOL CORFFORAETHOL

Penodwyd Pennaeth Amrywiaeth a Chyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol yn Ionawr 2008. Mae'r rôl hon yn cyfuno'r agenda ar Amrywiaeth a'r agenda ar Gyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol cymunedol yn ffurfiol. Mae Ofcom wedi cyflwyno Cynllun Gweithredu ar Amrywiaeth sy'n dangos sut mae Ofcom yn bwriadu hyrwyddo amrywiaeth ym mhob rhan o'r corff. Ymgymerodd Ofcom hefyd â meincnodi ar gyfer Hyrwyddwyr Amrywiaeth, Race for Opportunity, Opportunity Now a'r Safon Anabledd er mwyn mesur ei berfformiad ar gydraddoldeb o ran cyfeiriadedd rhywiol, hil, rhywedd ac anabledd yn y gweithle. Roedd Ofcom yn drydydd o blith y cyrff a oedd wedi gwella fwyaf yn arolwg Stonewall o Gydraddoldeb yn y Gweithlu yn 2008, gan symud o'r 165ed safle i'r 51fed safle.

Rhagair

Mae Ofcom wedi cyflwyno Cynllun Gwirfoddoli i Gydweithwyr i alluogi cydweithwyr i wirfoddoli ar gyfer amryw o weithgareddau yn y gymuned leol; bu'n llwyddiannus dros ben ac mae wedi ennyn cryn ddiddordeb mewn cydweithwyr.

Drwy'r Cynllun Partneriaid Darllen, mae Ofcom yn cydweithio ag Ysgol Gynradd Charlotte Sharman i helpu grŵp o ddeg o blant gyda'u darllen. Yn y Cynllun Mentora Iaith, mae Ofcom yn gweithio gyda Choleg Technegol Bacon City i helpu disgyblion cyn-TGAU gyda'u Ffrangeg llafar. Mae'r cynllun hwn wedi'i ymestyn i gynnwys mentora ar gyfer Almaeneg hefyd.

Mewn ymateb i brinder cenedlaethol y bobl ifanc (yn enwedig menywod ifanc) sy'n mynd i faes peirianneg, sefydlodd Ysgol Sant Saviour a Sant Olave Glwb Gwyddoniaeth a Pheirianneg i Ferched, sy'n cael cymorth gan dîm o beirianwyr Ofcom.

### MATERION AMGYLCHEDDOL

Mae Ofcom yn ceisio mabwysiadu arferion cynaliadwy ym mhob agwedd ar ei waith gweithredol. Yng nghyd-destun y pryder cynyddol ynghylch materion amgylcheddol, penderfynodd Ofcom ddatblygu dull gweithredu cynhwysfawr er mwyn sicrhau bod ei weithgareddau'n ecogyfeillgar. Fel rhan o'r dull gweithredu hwn, cynhaliodd Ofcom archwiliad carbon dechreuol o'i weithrediadau ar ddiwedd 2007, a chanfod nifer o feysydd lle gallai wneud gwahaniaeth er gwell - er enghraifft, y defnydd o ynni gan wasanaethau data. Mae Ofcom eisoes wedi dechrau gweithio yn y meysydd a nodwyd ac yn ystod 2008/9 bydd yn gwneud mwy o waith dadansoddi ac yn datblygu rhaglen o welliannau i sicrhau bod ei weithrediadau'n dal at yr arferion amgylcheddol gorau.

Rhai o'r camau yr oedd wedi'u cymryd eisoes yn 2007/8 i leihau allyriadau'r nwy tŷ gwydr carbon deuocsid oedd:

- cynlluniau a gyflwynwyd i leihau argraffu a rhoi anogaeth i ailgylchu gwastraff;
- gwelliannau mewn cyfleusterau i feiciau yn Riverside House i hyrwyddo cymudo gwyrddach;
- gosod ffilm solar ar ffenestri i adlewyrchu gwres, gan leihau'r defnydd o ynni i oeri ystafelloedd;
- cynnal ymgyrch hysbysrwydd i sicrhau bod cydweithwyr yn diffodd eu PCs dros nos;
- prynu trydan ar dariffau gwyrdd.

Ochr yn ochr â'r Adroddiad Blynyddol hwn, mewn dogfen ar wahân, mae Ofcom yn cyhoeddi canlyniadau'r archwiliad carbon yr oedd wedi'i gomisiynu a'r ymrwymiadau amgylcheddol a wnaeth.

### DATGANIAD AM BOLISI AC YMARFER IECHYD A DIOGELWCH

Mae'r Prif Swyddog Gweithredu yn gyfrifol am iechyd a diogelwch o fewn Ofcom. Mae Pennaeth Cyfrifyddu Ariannol yn Gadeirydd ar y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch sy'n cwrdd bob chwarter blwyddyn ac yn adrodd i'r Bwrdd Gweithrediadau. Yn ystod cyfnod yr adroddiad, ni roddwyd gwybod am unrhyw anafiadau i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Mae cydweithwyr wedi cwblhau cyrsiau e-Ddysgu pwrpasol ac mae rheolwyr llinell yn ymwneud fwyfwy â materion iechyd a diogelwch sy'n neilltuol o bwysig yn y gwaith risg uwch y mae Ofcom yn ei wneud.

### DIOGELU DATA

Mae Ofcom yn Rheolydd Data dan Ddeddf Diogelu Data 1998 ('y Ddeddf') ac mae wedi ymrwymo i brosesu'r holl ddata personol yn ddiogel mewn modd sy'n cwrdd â gofynion y Ddeddf, gan gynnwys egwyddorion diogelu data. Mae Ofcom yn rhedeg rhaglen hyfforddi ar ddiogelu data hefyd i sicrhau bod yr holl gydweithwyr yn deall eu cyfrifoldebau i gydymffurfio â'r Ddeddf ac arferion trafod data.

### RHYDDID GWYBODAETH

Dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a sefydlodd hawl gyffredinol i weld yr holl fathau o gofnodion gwybodaeth y mae awdurdodau cyhoeddus yn eu dal, mae Ofcom wedi parhau i ddarparu ystod eang o wybodaeth fel ei bod ar gael yn rhwydd ar ei wefan, drwy ei gynllun cyhoeddi. Yn ystod y cyfnod sydd dan sylw, cafodd Ofcom 848 o geisiadau am wybodaeth ac, yn unol ag amcan y Ddeddf o feithrin arferion gweithredu agored, darparodd Ofcom y cwbl neu ran o'r wybodaeth a geisiwyd mewn 77 y cant o'r achosion.

### BUSNES GWEITHREDOL

Ar sail gweithdrefnau cynllunio a rheoli busnes arferol, mae gan y Bwrdd ddisgwyliad rhesymol y bydd gan Ofcom adnoddau digonol i barhau i weithredu hyd y gellir rhagweld. Oherwydd hynny, mae'r Bwrdd yn parhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol.

**David Currie**
**Cadeirydd**

**Ed Richards**
**Prif Weithredwr**
**17 Mehefin 2008**

Rhagair

**RHODDION ELUSENNOL**

Yn ystod y flwyddyn ariannol 2007/8, cododd Ofcom £4,375 ar ffurf rhoddion elusennol.


O'r swm hwn, codwyd £2,374 drwy roddion i St. Mungo's, sefydliad i'r digartref sy'n gweithio'n lleol yn Southwark.

Codwyd £2,001 yn ychwanegol yn y Derbyniad Celfyddydau Blynyddol, ac fe'i rhoddwyd i'r elusen plant Kids Company. Mae Kids Company yn rhoi cefnogaeth ymarferol ac emosiynol i blant a phobl ifanc sy'n cael anawsterau seicogymdeithasol sylweddol am nad yw eu rhiant yn gallu gweithredu fel oedolyn gofalgar.

St Mungo's
Opening doors for London's homeless

KIDSCOMPANY
supporting vulnerable children

# Bwrdd Ofcom



## David Currie

David Currie yw Cadeirydd Anweithredol Ofcom ac mae hefyd yn Aelod o Bwyllgor Archwilio a Phwyllgor Tâl Ofcom ac yn Gadeirydd y Pwyllgor Enwebiadau. Roedd yn Athro Economeg yn Ysgol Fusnes Llundain rhwng 1988 a 2000 ac yn Ddirprwy Ddeon rhwng 1992 a 1995 ac eto ym 1999-2000. Roedd David Currie yn Ddeon Ysgol Fusnes Cass yn City University rhwng Ionawr 2001 ac Ebrill 2007. Mae'n Gadeirydd Trillium Investment Partners, aelod o Fwrdd Awdurdod Gwasanaethau Ariannol Dubai ac o Fwrdd Cerddorfa Philharmonig Llundain, ac mae'n gynghorydd i Unisys. Mae'n groesfeinciwr yn Nhŷ'r Arglwyddi ac yn eistedd fel yr Arglwydd Currie o Marylebone.



## Philip Graf CBE

Philip Graf yw Dirprwy Gadeirydd Anweithredol Ofcom. Mae hefyd yn Aelod o Bwyllgor Tâl Ofcom a'i bwyllgorau Enwebiadau ac Archwilio ac yn Gadeirydd ar Fwrdd Cynnwys Ofcom. Ymunodd Philip Graf ym 1983 â'r *Liverpool Daily Post and Echo*, a ddaeth yn Trinity International Holdings ym 1985. Wedi hynny, daeth yn Brif Weithredwr ym 1993 ac fe'i penodwyd yn Brif Weithredwr Trinity Mirror Group pan gyfunodd y cwmni â'r Mirror Group ym 1999 – swydd y bu ynddi tan Chwefror 2003. Mae'n un o gyn-Gadeiryddion Bwrdd Cyllid Safonau'r Wasg a'r Grŵp Rhanddeiliaid Band Eang. Mae'n bartner ar hyn o bryd yn Praesta Partners LLP ac yn Gyfarwyddwr Anweithredol i Archant Cyfyngedig.



## Ed Richards

Ed Richards yw Prif Weithredwr Ofcom. Cyn hynny roedd yn Brif Swyddog Gweithredu Ofcom. Cyn ymuno ag Ofcom, roedd yn Uwch Gynghorydd Polisi i'r Prif Weinidog ar y cyfryngau, telathrebu, y rhyngrwyd ac e-lywodraeth. Cyn hynny roedd yn Rheolwr Strategaeth Gorfforaethol yn y BBC. Bu'n gweithio hefyd ym maes ymgynghori yn London Economics Cyf, fel cynghorydd i Gordon Brown AS a chychwynnodd ar ei yrfa fel ymchwilydd i Diverse Production Cyf, lle gweithiai ar raglenni i Channel 4. Mae'n gwasanaethu ar hyn o bryd fel Aelod Anweithredol o Fwrdd y Donmar Warehouse Theatre.



## Millie Banerjee CBE

Mae Millie Banerjee yn Aelod Anweithredol o Ofcom. Mae hefyd yn Gadeirydd ar Bwyllgor Tâl Ofcom ac yn Aelod o Fwrdd Cynnwys Ofcom ac o'i Bwyllgor Enwebiadau. Cyn hynny treuliodd 25 o flynyddoedd gyda BT, gan gyrraedd lefel Cyfarwyddwr yn Adran Cynhyrchion a Gwasanaethau BT, a dod wedyn yn Uwch Is-lywydd i ICO Global Communications. Mae wedi bod yn aelod o Fwrdd Strategaeth Swyddfa'r Cabinet ac wedi dal nifer o swyddi anweithredol gan gynnwys rhai yn yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol, yr Asiantaeth Datblygu Sgiliau Sector, Channel 4 TV a'r Bwrdd Carchardai. Yn ogystal â hynny, mae Millie Banerjee wedi bod yn aelod o Fwrdd Focus, yn aelod o gorff llywodraethu Prifysgol y South Bank ac yn Gomisiynydd Penodiadau Barnwrol, yn Gadeirydd Ymddiriedolaeth Carnegie UK ac yn Aelod o Fwrdd Ymgynghori Ysgol Fusnes Tanaka Imperial College. Mae hefyd yn Gadeirydd Postwatch

## Sara Nathan

ymddeolodd o'r Bwrdd ar 31 Rhagfyr 2007.

## Stephanie Liston

ymddiswyddodd o'r Bwrdd ar 31 Mawrth 2008.

## Ian Hargreaves

ymddiswyddodd Ian o'r Bwrdd ar 31 Mai 2008.



## Colette Bowe

Mae Colette Bowe yn Aelod Anweithredol o Ofcom ac yn Aelod o Bwyllgor Archwilio Ofcom. Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ar 1 Ionawr 2008. Hyfforddodd Colette Bowe i fod yn economegydd ac mae wedi dal nifer o swyddi uwch yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. Dechreuodd ar ei gyrfa yn yr Adran Masnach a Diwydiant a gweithio wedyn yn yr Awdurdod Darlledu Annibynnol, yn y Bwrdd Sicrydau a Buddsoddiadau, ac fel Prif Weithredwr yr Awdurdod Buddsoddiadau Personol ac fel Cadeirydd Gweithredol y Busnes Rheoli Asedau Ewropeaidd yn Robert Fleming. Roedd yn Gadeirydd ar Banel Defnyddwyr Ofcom o'i sefydlu yn 2003 hyd Ragfyr 2007. Ar hyn o bryd mae'n Aelod Bwrdd o Axa Framlington, Morgan Stanley Bank International, Electra Private Equity ccc a London and Continental Railways. Mae'n Gadeirydd y Cyngor yn Queen Mary College, Llundain.

## Tim Gardam

Mae Tim Gardam yn Aelod Anweithredol o Ofcom ac yn Aelod o Bwyllgor Enwebiadau Ofcom. Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ar 1 Ionawr 2008. Cafodd yrfa o 25 mlynedd ym maes darlledu gan ddechrau yn y BBC lle'r oedd yn olygydd *Panorama* a *Newsnight* cyn dod yn Bennaeth Materion Cyfoes a Newyddion Wythnosol. Roedd yn rhan o'r uwch dîm rheoli cyntaf yn Five ac yn Gyfarwyddwr Rhaglenni yn Channel 4. Ef oedd awdur Adolygiad yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon o Wasanaethau Radio Digidol y BBC yn 2004, roedd yn aelod o Fwrdd Ymgynghori'r Arglwydd Burns ar yr Adolygiad o Siarter y BBC ac yn Gyfarwyddwr i SMG ccc rhwng 2005 a 2007. Bu'n Brifathro Coleg St Anne, Rhydychen ers 2004





## Mike McTighe

Mae Mike McTighe yn Aelod Anweithredol o Ofcom ac yn Aelod o Bwyllgor Tâl Ofcom. Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ar 1 Medi 2007. Cyn hyn roedd yn Gadeirydd ac yn Brif Weithredwr i Carrier1 International SA, a chyn hynny'n Gyfarwyddwr Gweithredol ac yn Brif Weithredwr ar weithrediadau rhyngwladol Cable & Wireless ccc. Ar hyn o bryd mae'n Gadeirydd ar Pace Micro Technology ccc, yn Gadeirydd Volex Group ccc, yn un o gyfarwyddwyr London Metal Exchange Holdings Cyf, yn gyfarwyddwr anweithredol i Alliance & Leicester ccc, ac yn Gadeirydd ar nifer o gwmnïau technoleg sy'n cael eu dal yn breifat.

## Philip Rutnam

Ymunodd Philip Rutnam ag Ofcom ym mis Mai 2003 ac fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom fel Aelod Gweithredol ar 1 Ebrill 2007. Mae ganddo gyfrifoldebau penodol ar gyfer datblygu polisi Ofcom ar sbectrwm. Mae'n un o gyn-uwch swyddogion y Trysorlys ac yn ystod ei yrfa bu'n gweithio ym maes cyllid corfforaethol yn Morgan Stanley yn Hong Kong, treuliodd gyfnod yn Ysgrifennydd Preifat i'r Ysgrifennydd Ariannol yn y Trysorlys ac roedd ganddo gyfrifoldeb dros fuddiant y Trysorlys mewn busnes a menter.



# Llywodraethu Corfforaethol

Fel corfforaeth statudol annibynnol heb gyfranddalwyr, a sefydlwyd dan Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, nid yw Ofcom yn ddarostyngedig i'r Côd Cyfun ar Lywodraethu Corfforaethol a gyhoeddwyd gan Awdurdod Rhestru'r DU.

Er hynny, mae egwyddorion y côd yn feincnod defnyddiol i bob corff sy'n dymuno gwneud datganiad am ei berfformiad o ran llywodraethu corfforaethol.

Mae Ofcom wedi cydymffurfio â phrif egwyddorion y Côd Cyfun yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2007 a 31 Mawrth 2008. I'r perwyl hwn, bydd Ofcom yn dal i fabwysiadu egwyddorion y côd un ai lle mae'n gallu gwneud hynny, neu lle mae'n briodol gwneud hynny, oherwydd ei statws fel corfforaeth statudol annibynnol.

## Tâl Aelodau'r Bwrdd

Mae manylion tâl yr Aelodau ar dudalennau 65 i 70.

## Y Bwrdd

Mae Bwrdd Ofcom yn cynnwys Aelodau Gweithredol ac Aelodau Anweithredol. Penodir Cadeirydd ac Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom ar y cyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon am gyfnod o hyd at bum mlynedd. Mae Pwyllgor Enwebiadau Ofcom wedi helpu'r ddwy Adran drwy gydweithio â hwy yn y broses ddethol ar gyfer penodi Aelodau Anweithredol newydd. Penodir Aelodau Gweithredol y Bwrdd gan y Cadeirydd a'r holl Aelodau Anweithredol annibynnol. Mae manylion bywgraffyddol yr Aelodau ar dudalennau 52 a 53.

Mae Ofcom wedi mabwysiadu model Bwrdd unedol. Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd yn cynnwys chwe Aelod Anweithredol gan gynnwys y Cadeirydd, sy'n gyfrifol am redeg y Bwrdd, a dau Aelod Gweithredol gan gynnwys y Prif Weithredwr. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol ac yn atebol am gyflawni swyddogaethau statudol Ofcom ac mae'n rhoi arweinyddiaeth strategol ac yn trefnu'r rheolaeth gyffredinol ar weithgareddau Ofcom. Mae dyletswyddau a chyfrifoldebau Aelodau wedi'u nodi mewn Côd Ymddygiad i Aelodau. Mae cofrestr o fuddiannau Aelodau ar gael ar wefan Ofcom.

I ddibenion mabwysiadu egwyddorion y Côd Cyfun:

- mae'r Bwrdd yn ystyried bod yr holl Aelodau Anweithredol yn annibynnol ar y rheolwyr ac yn rhydd oddi wrth unrhyw gysylltiad busnes neu gysylltiad arall a allai ymyrryd yn sylweddol â'u gallu i farnu;
- mae'r Bwrdd yn credu bod yr Aelodau, gyda'i gilydd, yn meddu ar ystod eang o brofiad sy'n sicrhau bod Bwrdd effeithiol yn arwain ac yn rheoli Ofcom;
- yr Aelodau Anweithredol yw mwyafrif y Bwrdd. Ystyrir Millie Banerjee yn uwch Aelod Anweithredol i ddibenion y Côd Cyfun;
- ar ôl eu penodi, rhoddir hyfforddiant cynefino llawn i'r holl Aelodau ynghylch eu cyfrifoldebau ac ar ôl hynny cânt arweiniad a briffio pellach yn ôl yr angen;
- mae'r Bwrdd yn cwrdd yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn. Mae'r Bwrdd yn cadw rhai materion iddo'i hun ond, fel arall, mae'n dirprwyo cyfrifoldebau penodol i uwch reolwyr a phwyllgorau. Rôl y rheolwyr gweithredol yw rhoi polisïau'r Bwrdd ar waith. Mae'r Bwrdd a'r Weithrediaeth yn cyflawni eu gwaith gan ystyried cyfraniadau gan nifer o gyrff ymgynghori;

# Pwyllgorau'r Bwrdd

- rhoddir gwybodaeth i'r Bwrdd yn amserol ac yn rheolaidd ac ar ffurf ac o ansawdd sy'n briodol i'w alluogi i gyflawni ei swyddogaethau;
- mae pob Aelod yn gallu cael mynediad at Ysgrifennydd y Gorfforaeth, sy'n atebol i'r Bwrdd am sicrhau bod y rheolau a'r gweithdrefnau cywir yn cael eu dilyn. Mae cyngor ar gael i'r holl Aelodau gan weithwyr proffesiynol annibynnol ar draul Ofcom.

Ymgymerodd y Bwrdd â gwerthusiad o'i berfformiad yn ystod Mawrth 2008 gan ddefnyddio gwasanaethau ymgynghorwyr annibynnol, sef Egon Zehnder.

Yn gyffredinol, mae'r Cadeirydd yn rheoli'r Bwrdd er mwyn sicrhau bod:

- Ofcom yn meddu ar amcanion priodol a strategaeth effeithiol;
- tîm y Prif Weithredwr yn gallu rhoi'r strategaeth ar waith;
- gweithdrefnau ar gael i hysbysu'r Bwrdd am y perfformiad yn ôl amcanion;
- Ofcom yn gweithredu'n unol â'r safonau uchaf o ran llywodraethu corfforaethol.

Anfonir Adroddiad Blynyddol Ofcom i'r Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio sy'n gosod copïau ohono o flaen Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi, y mae Ofcom yn atebol iddynt.

Wrth arfer ei bwerau o dan Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, mae'r Bwrdd yn dirprwyo rhai o'i gyfrifoldebau i'r Gweithredwyr o fewn Ofcom a rhai cyfrifoldebau i Bwyllgorau'r Bwrdd sydd ag awdurdod a chylchoedd gwaith sydd wedi'u diffinio'n glir.

Disgrifir cyfansoddiad a phrif swyddogaethau'r prif Bwyllgorau hyn isod.

## Y Bwrdd Cynnwys

Mae adran 12(1) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau yn mynnu bod Ofcom yn sefydlu Bwrdd Cynnwys. Mae cyfrifoldebau wedi'u dirprwyo iddo dros ystod eang o faterion sy'n ymwneud â chynnwys darllediadau a llythrennedd y cyfryngau ac mae ganddo gyfrifoldebau ymgynghori.

Mae'r Bwrdd Cynnwys yn cwrdd yn fisol a chynhaliodd 11 o gyfarfodydd yn ystod y flwyddyn. Aelodau'r Bwrdd Cynnwys yw:

- Philip Graf (Cadeirydd)
- Adam Singer (Dirprwy Gadeirydd)
- Richard Ayre
- Sue Balsom
- Millie Banerjee
- Chris Banatvala
- Pam Giddy
- Anthony Lilley
- Dr. Paul Moore
- Stewart Purvis (penodwyd 03/12/07)
- Joyce Taylor
- Kath Worrall (Cadeirydd y Pwyllgor Tegwch)

Ymddiswyddodd Tim Suter o'r Bwrdd Cynnwys ar 30 Tachwedd 2007. Chris Banatvala a Stewart Purvis yw unig Aelodau Gweithredol y Bwrdd Cynnwys.

Yn ystod y flwyddyn, chwaraeodd y Bwrdd Cynnwys rhan o bwys mewn nifer o feysydd allweddol.

Cyfrannodd yn helaeth at ddatblygu'r rhan gyntaf o adolygiad Ofcom o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus gan ymddiddori'n benodol yn y Gwledydd a'r Rhanbarthau.

Cyfrannodd hefyd at y dogfennau *Shaping the Future of Radio* a *New News, Future News*. Ym mhob achos cyfrannodd aelodau'r Bwrdd Cynnwys yn unigol ac ar y cyd i'r broses.

Y cyfraniad pwysig arall gan y Bwrdd Cynnwys oedd hwnnw a gafwyd wrth ddatblygu strategaeth Ofcom ar lythrennedd yn y cyfryngau ac mewn cysylltiad ag Adolygiad Byron lle'r oedd y Bwrdd yn goruchwylio'r mewnbwn gan Ofcom i'r tîm adolygu.

Roedd y materion sy'n ymwneud â Gwasanaethau Cyfradd Premiwm ar y ffôn ym maes teledu yn brif destun sylw i Ofcom dros ran helaeth o'r flwyddyn. Cynhaliwyd ymchwiliad dan arweiniad Richard Ayre i'r materion sy'n gysylltiedig â Gwasanaethau Cyfradd Premiwm ac mae'r cynigion ar bolisi a gafwyd o ganlyniad wedi arwain at ofynion llymach i ddarlledwyr teledu mewn trwyddedau er mwyn amddiffyn defnyddwyr.

Cynhaliwyd prosiect dan arweiniad Kath Worrall, Cadeirydd y Pwyllgor Tegwch, a arweiniodd at gryfhau'n sylweddol y canllawiau ar ddefnyddio plant mewn rhaglenni teledu.

Mae Aelodau'r Bwrdd Cynnwys yn aelodau hefyd o'r Pwyllgor Trwyddedu Radio a chawsant flwyddyn brysur iawn wrth gymryd rhan yn y Pwyllgor Sancsiynau a'r Pwyllgor Tegwch a Phreifatrwydd. Yn ystod y cyfnod sydd dan sylw, ystyriwyd 27 o achosion gan y Pwyllgor Tegwch a gosodwyd sancsiynau gan y Pwyllgor Sancsiynau Cynnwys mewn 11 o achosion. Ymhlith y rhain roedd nifer o achosion amlwg gan gynnwys: *Celebrity Big Brother*; *Undercover Mosque*; *Richard and Judy* a GMTV. Mae manylion llawn am waith y pwyllgorau ar dudalennau 42 a 43.

## Y Pwyllgor Gweithredol (ExCo)

Y Pwyllgor Gweithredol yw'r uwch dîm gweithredu sy'n gyfrifol am oruchwylio rheolwyr Ofcom. Mae'n canolbwyntio'n bennaf ar bennu cyfeiriad y corff, ar benderfyniadau ariannol a gweinyddol ac ar fonitro. Mae ei gyfrifoldebau o ran llunio polisi'n gyfyngedig i bolisi rheoli. Aelodau'r Pwyllgor Gweithredol yw:

- Ed Richards (Cadeirydd)
- Jill Ainscough (penodwyd 07/08/07)
- Stuart McIntosh (penodwyd 28/01/08)
- Peter Phillips
- Stewart Purvis (penodwyd 03/12/07)
- Philip Rutnam

Ymddiswyddodd Tim Suter o'r Pwyllgor Gweithredol ar 3 Mai 2007. Yn ystod y flwyddyn, ymddiswyddodd y cydweithwyr canlynol o'r Pwyllgor Gweithredol ar 18 Rhagfyr 2007: Janet Campbell, Rona Chester, Graham Howell, Peter Ingram a Dominic Morris. Ymddiswyddodd Ian Hargreaves o'r Pwyllgor Gweithredol ar 31 Mai 2008.

Gwahoddir uwch gydweithwyr eraill yn Ofcom i gyfarfodydd y Pwyllgor Gweithredol yn ôl y galw.

## Y Pwyllgor Archwilio

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cynnwys tri Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom a Chadeirydd Anweithredol allanol annibynnol. Aelodau'r Pwyllgor Archwilio yw:

- Peter Teague (Cadeirydd)
- David Currie
- Philip Graf
- Colette Bowe (penodwyd 06/02/08)

Ymddiswyddodd Stephanie Liston o'r Pwyllgor ar 31 Mawrth 2008.

Mae Peter Teague, y Cadeirydd annibynnol allanol, yn gyfrifydd siartredig cymwysedig ac mae'n bodloni'r gofyniad dan y Côd Cyfun y bydd un Aelod o'r Pwyllgor yn meddu ar brofiad ariannol perthnasol. Atebir gofynion ychwanegol y Côd Cyfun i'r graddau bod tri Aelod o'r Pwyllgor yn Aelodau Anweithredol annibynnol o Fwrdd Ofcom.

Gwahoddir y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid i gyfarfodydd y Pwyllgor, yn ogystal â'r archwilwyr mewnol ac allanol. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn adrodd ar ganlyniad cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio i Fwrdd Ofcom drwy Gadeirydd Ofcom, David Currie, ac mae'n cwrdd â Bwrdd Ofcom o leiaf unwaith y flwyddyn.

Prif ddyletswyddau'r Pwyllgor Archwilio yw:

- adolygu a chyfarwyddo'r swyddogaeth archwilio mewnol a'r broses o benodi archwilwyr mewnol;
- adolygu natur a chwmpas yr archwiliad allanol a chanfyddiadau archwilwyr allanol;
- monitro ac adolygu, ar ran y Bwrdd, effeithioldeb y systemau rheoli mewnol a rheoli risg;
- monitro ac adolygu, ar ran y Bwrdd, uniondeb, ansawdd a dibynadwyedd y datganiadau ariannol, y Cynllun Blynyddol a'r Cyfrifon;
- adolygu cwmpas a chanlyniadau archwiliadau mewnol ac allanol yn barhaus;
- cymeradwyo'r fframwaith awdurdod ariannol.

Cyflawnir y swyddogaeth archwilio mewnol yn annibynnol ar Ofcom gan KPMG. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn credu ei bod yn briodol i'r archwilwyr mewnol roi cyngor penodol i Ofcom hefyd ar risgiau mewnol. Penderfynir ynghylch darparu gwasanaethau eraill gan KPMG i Ofcom fesul achos. Cyflawnir y swyddogaeth archwilio allanol gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

Fe gwrddodd y Pwyllgor Archwilio pedwar gwaith yn ystod y flwyddyn. Mae'r cylch gwaith ar gael ar wefan Ofcom.

Mae Peter Teague yn cael tâl o £5,033 y flwyddyn am roi ei

Pwyllgorau'r Bwrdd

wasanaethau fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio. Cafodd Peter Teague £5,033 ar ben hynny am oruchwylio'r monitro annibynnol ar Raglen Ad-drefnu Systemau Gwybodaeth Ofcom.

## Y Pwyllgor Tâl

Mae'r Pwyllgor Tâl yn cynnwys pedwar Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom. Aelodau'r Pwyllgor Tâl yw:

- Millie Banerjee (Cadeirydd)
- David Currie
- Philip Graf
- Mike McTighe (penodwyd 06/02/08)

Ymddiswyddodd Sara Nathan o'r Pwyllgor ar 31 Rhagfyr 2007.

Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol yn dod i gyfarfodydd ar wahoddiad y Pwyllgor Tâl.

Mae'r Pwyllgor yn ymgynghori Ofcom ynghylch y tâl a'r telerau ac amodau gwasanaeth i'r Prif Weithredwr, Aelodau Gweithredol eraill y Bwrdd ac Aelodau'r Pwyllgor Gweithredol. Mae'r Pwyllgor yn cynghori Ofcom hefyd ynghylch telerau ac amodau aelodau rhan amser y Bwrdd Cynnwys, y Panel Defnyddwyr, y Pwyllgor Ymgynghori ar gyfer Pobl Hŷn a Phobl Anabl a'r pedwar Pwyllgor Ymgynghori ar gyfer y Gwledydd a'r Rhanbarthau.

Mae'r Pwyllgor yn goruchwylio'r broses ar gyfer pennu telerau ac amodau'r holl gydweithwyr eraill yn Ofcom. Mae'r Pwyllgor hefyd yn goruchwylio ac yn penderfynu ynghylch materion sy'n ymwneud â'r trefniadau pensiwn a bennwyd gan Ofcom ar gyfer yr holl gydweithwyr yn Ofcom.

Mae'r Pwyllgor Tâl yn cwrdd yn ôl yr angen. Yn ystod y cyfnod dan sylw, cyfarfu'r Pwyllgor chwe gwaith. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Tâl yn adrodd ar ganlyniad cyfarfodydd y Pwyllgor Tâl i'r Bwrdd.

Pennir tâl Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom gan yr Ysgrifenyddion Gwladol ar gyfer Fusnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio, a Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac fe'i rhestrir yn fanwl yn Nodyn 2 i'r Adroddiad Tâl. Os bydd angen i Ofcom ystyried unrhyw agwedd ar dâl Aelod Anweithredol, mae Pwyllgor Tâl Aelodau Anweithredol wedi'i sefydlu i'r diben hwn sy'n cynnwys y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol ac Ysgrifennydd y Gorfforaeth a bydd yn cwrdd ac yn adrodd yn uniongyrchol i'r Ysgrifenyddion Gwladol fel y bo'n briodol. O ganlyniad i hyn, nid yw unrhyw Aelod o'r Bwrdd yn ymwneud â phennu ei dâl ei hun.

Mae'r Adroddiad Tâl ar dudalennau 65 i 71 yn dangos sut mae Ofcom yn cymhwyso egwyddorion perthnasol y Côd Cyfun.

## Y Pwyllgor Enwebiadau

Mae'r Pwyllgor Enwebiadau yn cynnwys pedwar Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom. Fe'i sefydlwyd yn 2007 a'i aelodau yw:

- David Currie (Cadeirydd)
- Philip Graf
- Millie Banerjee
- Tim Gardam (penodwyd 06/02/08)

Mae'r Pwyllgor yn cydweithio â'r Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar y broses ar gyfer dethol Aelodau Anweithredol i Fwrdd Ofcom ac mae'n rhoi argymhellion i holl Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom ar benodi Aelodau Gweithredol. Mae'r Pwyllgor yn cwrdd yn ôl yr angen.

## Y Pwyllgor Tegwch a'r Pwyllgor Sancsiynau Cynnwys

Mae'r ddau bwyllgor hyn yn cynnwys aelodau a godwyd o'r Bwrdd Cynnwys. Ar rai achlysuron, bydd y Pwyllgor Sancsiynau Cynnwys yn gwahodd aelodau ychwanegol o Fwrdd Ofcom.

Mae Cadeirydd parhaol gan y ddau Bwyllgor sef, yn ystod y cyfnod dan sylw, Kath Worrall ar gyfer y Pwyllgor Tegwch a Philip Graf ar gyfer y Pwyllgor Sancsiynau Cynnwys.

Bydd y Pwyllgorau'n cwrdd yn ôl yr angen ac mae manylion eu gweithgareddau ar dudalennau 42 a 43.

## Y Pwyllgor Trwyddedu Radio

Dirprwywyd awdurdod i'r Pwyllgor Trwyddedu Radio gan Fwrdd Ofcom i gyflawni swyddogaethau Ofcom mewn cysylltiad â thrwyddedu darlledu radio (sain). Mae cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn cwmpasu penderfyniadau ar ddyfarnu trwyddedau radio newydd a rhai sydd wedi'u hailhysbysebu, ac ar amrywio a diddymu trwyddedau.

Philip Graf yw Cadeirydd y pwyllgor hwn. Ei aelodau yw dau Aelod Anweithredol parhaol o'r Bwrdd Cynnwys: Joyce Taylor a Pam Giddy, a phedwar o gydweithwyr Ofcom. Bydd yn cwrdd yn fisol ac mae manylion ei weithgareddau ar dudalennau 23 a 24.

## Panel y Gronfa Radio Cymunedol

Mae Adran 359 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn creu modd i sefydlu cronfa ar gyfer gweithredwyr radio cymunedol, ac i Ofcom ei gweinyddu a rhoi hynny o grantiau y mae'n eu hystyried yn briodol i drwyddedeion radio cymunedol. Bydd y Panel yn cwrdd yn ôl yr angen i ystyried ceisiadau a dyfarnu cyllid o'r Gronfa. Mae'n annibynnol ar Bwyllgor Trwyddedu Radio Ofcom sy'n dyfarnu trwyddedau radio cymunedol.

Mae tri aelod Anweithredol ar y Panel: Kevin Carey (Cadeirydd), Richard Hilton a Thomas Prag.

# Pwyllgorau Heblaw Rhai'r Bwrdd

## Y Panel Defnyddwyr

Mae adran 16 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu bod Ofcom yn sefydlu Panel Defnyddwyr.

Mae'r Panel yn annibynnol ar Ofcom ac yn gweithredu ar hyd braich oddi wrtho, a'i bwrpas yw cynghori Ofcom ynghylch buddiannau defnyddwyr yn y marchnadoedd y mae'n eu rheoleiddio. Aelodau'r Panel Defnyddwyr yw:

- Anna Bradley (Cadeirydd, penodwyd 10/01/08)
- Ruth Evans (Dirprwy Gadeirydd)
- Fiona Ballantyne
- Roger Darlington
- Simon Gibson OBE
- Graham Mather
- Kevin McLaughlin
- Jeremy Mitchell
- Kate O'Rourke
- Bob Twitchin
- Allan Williams

Ymddiswyddodd Colette Bowe o'r Pwyllgor ar 31 Rhagfyr 2007.

Er bod Ofcom yn rhoi cymorth gweithredol i'r Panel Defnyddwyr, mae'r Panel yn dal ei gyllideb ei hun ac yn pennu ei flaenoriaethau ei hun ar sail ei gylch gwaith statudol.

Mae Ofcom a'r Panel Defnyddwyr wedi cytuno ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Mae'r memorandwm hwn yn pennu'r egwyddorion y mae'r ddau gorff yn cytuno i'w mabwysiadu yn eu cysylltiadau a'u hymwneud â'i gilydd ac yn cadarnhau annibyniaeth y Panel ar Ofcom.

Yn ystod 2007/8 dylanwadodd y Panel Defnyddwyr ar ystod eang o waith polisi Ofcom ar faterion a oedd yn effeithio ar ddefnyddwyr neu ddinasyddion yn y marchnadoedd cyfathrebu. Yn ogystal â hynny, cyflawnodd y Panel gwaith ar faterion mwy cyffredinol sy'n ymwneud â chyfathrebu, gan ddefnyddio gwaith ymchwil i ymgysylltu â rhanddeiliaid eraill ynghylch newid i'r digidol, plant a'r rhyngrwyd ac ymchwil i ddefnyddwyr ym Mhrydain sy'n dechnolegol wybodus. Rhai cylchoedd gwaith allweddol oedd cyhoeddi adroddiad am y defnydd o fewn Ofcom o Becyn Cymorth y Panel ar Fuddiannau Defnyddwyr, a chydweithio â'r Comisiwn Ewropeaidd (CE) i sicrhau mabwysiadu fersiwn symlach o'r Pecyn Cymorth ym mhrosesau llunio polisi'r CE. Y brif flaenoriaeth arall i'r Panel oedd mynediad cenhedlaeth nesaf, sy'n faes lle y mae'r Panel wedi noddi ymchwil ar y cyd â'r Grŵp Rhanddeiliaid Band Eang a'r Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio ar werth economaidd a chymdeithasol band eang cenhedlaeth nesaf.

Cyhoeddodd y Panel Defnyddwyr ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2007/8 sy'n ymdrin â'i weithgareddau ym Mehefin 2008. Mae'r Adroddiad a mwy o wybodaeth am waith y Panel ar gael ar lein yn www.ofcomconsumerpanel.org.uk.

## Bwrdd Ymgynghori Sbectrwm Ofcom

Sefydlwyd Bwrdd Ymgynghori Sbectrwm Ofcom (OSAB) yn 2004 i ddarparu cyngor annibynnol i Ofcom am faterion sy'n ymwneud â rheoli sbectrwm yn strategol. Bydd OSAB yn cwrdd pump neu chwe gwaith y flwyddyn. Aelodau OSAB yw:

- Syr David Brown (Cadeirydd)
- Dr David Cleevely
- Yr Athro Leela Damodaran
- Yr Athro Barry Evans
- Debbie Gillatt
- Phillipa Marks
- Dr Robert Pepper (penodwyd 21/05/07)
- Yr Athro Simon Saunders (penodwyd 21/05/07)
- Andrew Sleigh
- Yr Athro Will Stewart
- Yr Athro Peter Swann (penodwyd 21/05/07)
- Dr Walter Tuttlebee
- Yr Athro Tommaso Valleti (penodwyd 21/05/07)

Ymddeolodd yr Athro Martin Cave, Stephen Lowe, yr Athro Mike Short, Stephen Temple CBE a Dr Gary Tonge o'r Pwyllgor ym Mai 2007.

Rhai o'r gweithgareddau a gyflawnodd y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn oedd:

- arwerthiannau sbectrwm a rhyddfrydoli;
- rhaglen Ymchwil a Datblygu Ofcom;
- mewnbwn i'r Adolygiad o'r Difidend Digidol;
- Cynhadledd Radio'r Byd;
- helpu Ofcom i drefnu ei gynllunio strategol mewn cysylltiad â sbectrwm;
- cadw golwg ar dechnolegau sy'n datblygu fel radio gwybyddol;
- ystyried effaith Cynllun Blynyddol Ofcom;
- cynghori Ofcom ynghylch y Sbectrwm Difidend Digidol UHF.

Cyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol OSAB, sy'n ymdrin â'i weithgareddau yn ystod ei bedwaredd flwyddyn ar 21 Mai 2008 ac mae ar gael ar wefan OSAB yn www.osab.org.uk

## Y Pwyllgor Ymgynghorol ar gyfer Pobl Hŷn a Phobl Anabl

Mae adran 21(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu bod Ofcom yn sefydlu Pwyllgor i gynghori Ofcom ynghylch materion yn y sector cyfathrebiadau sy'n effeithio'n benodol ar bobl hŷn a phobl anabl. Mae'r Pwyllgor yn cwrdd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn ac yn ymgymryd â gwaith mewn is-grwpiau. Yn ystod y flwyddyn aelodau'r Pwyllgor oedd:

- Mike Whitlam CBE (Cadeirydd)
- Yr Athro Janet Askham (Dirprwy Gadeirydd)
- Simon Cramp
- Caroline Ellis
- Jonathan Kaye
- Dr Laura Muir
- Robert Peckford
- Suneel Shivdasani
- David Sindall
- Ross Trotter
- John Welsman
- Nicholas Young

Yn ei bedwaredd flwyddyn, mae'r Pwyllgor wedi parhau i gynghori Ofcom i sicrhau bod pobl hŷn a phobl anabl yn gallu chwarae rhan lawn a chyfartal yn y technolegau darlledu a thelathrebu cydgyfeiriol presennol a'r rhai sy'n datblygu, ar y llwyfannau cyfryngol newydd ac mewn cyfryngau darlledu traddodiadol a digidol. Mae wedi rhoi cyngor penodol i Ofcom yn ei ymgynghoriadau ar Fand Eang y Dyfodol, Teledu Cyfranogi, cynigion ar gyfer Cydreoleiddio Cyfle Cyfartal a Chynllun Blynyddol Ofcom ar gyfer 2008/9 ac mae wedi dal i gynghori Ofcom ynghylch yr holl gyfrifoldebau eraill sydd ganddo, gan gynnwys Polisi Defnyddwyr Ofcom a'i raglenni Llythrennedd yn y Cyfryngau, a mewnbwn Ofcom i'r adolygiad o Gyfarwyddebau Fframwaith yr UE ar Gyfathrebu Electronig. Bydd y Pwyllgor Ymgynghori yn dal i fonitro effeithioldeb Cynllun Cydraddoldeb Anabledd Ofcom gan sicrhau, yn benodol, fod ystyriaethau ynghylch oed ac anabledd yn cael eu cynnwys yn holl benderfyniadau Ofcom ar bolisi a rheoleiddio.

## Y Pwyllgorau Ymgynghorol i'r Gwledydd a'r Rhanbarthau

Mae adran 20 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu bod Ofcom yn sefydlu Pwyllgorau Ymgynghorol ar gyfer gwahanol Gwledydd y Deyrnas Unedig. Swyddogaeth pob Pwyllgor yw darparu cyngor i Ofcom am fuddiannau a barn y bobl sy'n byw yn y rhan o'r DU y sefydlwyd y Pwyllgor ar ei chyfer am faterion sy'n ymwneud â chyfathrebu. Sefydlwyd Pwyllgorau ar gyfer Cymru, Rhanbarthau Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ar ddechrau 2004.

Mae aelodaeth y Pwyllgorau fel a ganlyn:

**Rhanbarthau Lloegr**

- Suzy Brain England (Cadeirydd)
- Gita Conn OBE YH
- Sue Farrington
- John Hooper CBE
- Derek Inman
- Don Jayasuriya
- Azam Mamujee
- Jessica Mann
- Anne Scorer
- Alan Wright

**Yr Alban**

- Thomas Prag (Cadeirydd)
- Laura Alexander (penodwyd 01/04/07)
- Andrew Anderson (penodwyd 01/04/07)
- Andrew Jones (penodwyd 01/03/08)
- Andrew Muir
- Julie Ramage
- Yr Athro Philip Schlesinger
- Mike Shaw (penodwyd 01/03/08)

Ymddeolodd Susan Neal, Selma Rahman a Martin Robertson o'r Pwyllgor yn Chwefror 2008.

**Gogledd Iwerddon**

- Yr Athro R. Wallace Ewart OBE (Cadeirydd)
- Paul Cavanagh (penodwyd 01/03/08)
- Jim Dougal (penodwyd 01/10/07)
- Isolde Goggin (penodwyd 01/10/07)
- Lesley Holmes (penodwyd 01/03/08)
- Maire Killoran (penodwyd 01/10/07)
- Libby Kinney (penodwyd 01/10/07)
- Billy McClean (penodwyd 01/10/07)
- Sally Montgomery (penodwyd 01/10/07)
- Dr Leslie Orr
- Ben Preston (penodwyd 01/03/08)

Ymddeolodd Sinead Boyle, Brian Collins, Carol Burrows, Michael McKernan, Jane Morrice, Una Murphy a'r Athro Gerard Parr o'r Pwyllgor ym Medi 2007. Ymddeolodd Dr David Elliott a Glyn Roberts o'r Pwyllgor yn Chwefror 2008. Nid yw Libby Kinney wedi mynychu unrhyw gyfarfod ers 10/12/2007 tra bod hi ar secondiad i Uned Ymddiriedolaeth y BBC yng Ngogledd Iwerddon.

**Cymru**

- Yr Athro Tony Davies (Cadeirydd)
- Julie Barton
- Charlie Bass
- Nick Bennett
- Ian Clarke
- John Davies
- Mark Elliott
- Glyn Mathias
- Gary Partridge

Mae'r ffioedd i aelodau Pwyllgorau heblaw rhai'r Bwrdd wedi'u cysylltu ag argymhellion y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion ar gyfer cyflogau'r Uwch Wasanaeth Sifil.

# Datganiad o Gyfrifoldebau

## CYFRIFOLDEBAU'R BWRDD

O dan delerau Deddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, mae'n ofynnol i'r Bwrdd baratoi Datganiad o Gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae hyn yn cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd ar Gyfrifon a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol hefyd am anfon copi o'r Datganiad o Gyfrifon at y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

Paratoir y Datganiad o Gyfrifon hwn, i'r graddau y mae hynny'n gymwysadwy, yn unol â Deddf Cwmnïau 1985 a safonau cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig. Paratoir y Datganiad o Gyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddo roi darlun cywir a theg o gyflwr busnes Ofcom ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ac o'i incwm a'i wariant, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'r llifoedd arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Mae'r Bwrdd yn cadarnhau ei fod wrth baratoi'r Datganiad o Gyfrifon wedi bodloni'r gofynion perthnasol ar gyfer cyfrifyddu a datgelu, wedi cymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson, wedi rhoi barn a gwneud amcangyfrifon ar sail resymol, wedi dilyn safonau cyfrifyddu cymwysadwy ac wedi paratoi'r datganiad o gyfrifon ar sail busnes gweithredol.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cadw sy'n datgelu i raddau sy'n rhesymol gywir ar unrhyw adeg beth yw sefyllfa ariannol Ofcom ac yn ei alluogi i sicrhau bod y Datganiad o Gyfrifon yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 1985. Yn ogystal â hynny, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am ddiogelu asedau Ofcom ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a darganfod twyll a mathau eraill o afreoleidd-dra.

## CYFRIFOLDEBAU'R PRIF WEITHREDWR

Penodir y Prif Weithredwr gan y Bwrdd sy'n dirprwyo iddo'r cyfrifoldeb dros reoli Ofcom o ddydd i ddydd. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi dynodi'r Prif Weithredwr yn Swyddog Atebol Ofcom. Nid yw wedi'i benodi'n ffurfiol yn Swyddog Atebol yn ôl ystyr y Llywodraeth; er hynny, mae'r penodiad yn cynnwys dyletswyddau cyfrifoldeb o ran rheoleidd-dra, priodoldeb, gwerth am arian a rheolaeth ariannol dda a diogelu arian cyhoeddus.

Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldebau penodol dros sicrhau cydymffurfiad â thelerau'r Memorandwm Ariannol a roddwyd gan yr Ysgrifenyddion Gwladol. Rhaid iddo sicrhau bod cofnodion cyfrifyddu priodol yn cael eu cadw a rhaid iddo lofnodi'r cyfrifon.

Fel Aelod o'r Bwrdd, rhaid i'r Prif Weithredwr sicrhau nad yw ei gyfrifoldebau o ran atebolrwydd yn gwrthdaro â'r rhai sydd ganddo fel Aelod o'r Bwrdd. Gall y Prif Weithredwr hefyd gael ei alw gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a phwyllgorau Seneddol eraill i roi tystiolaeth ynghylch y modd y mae'n cyflawni ei ddyletswyddau.

# Datganiad am Reolaeth Fewnol

## CWMPAS Y CYFRIFOLDEB

Fel Swyddog Atebol, mae gennyf gyfrifoldeb dros gynnal system ddibynadwy o reolaeth fewnol sy'n hyrwyddo'r gallu i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion Ofcom, gan ddiogelu yr un pryd yr arian cyhoeddus ac asedau o eiddo Ofcom yr wyf yn bersonol atebol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a osodwyd i mi ym maes Rheoli Arian Cyhoeddus ac ym Memorandwm Ariannol Ofcom a roddwyd i mi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Mae'n ofynnol imi hysbysu'r Bwrdd os byddai unrhyw weithred yn groes i ofynion priodoldeb neu reoleidd-dra neu'n mynd yn erbyn fy nghyfrifoldebau ehangach i sicrhau gwerth am arian.

## PWRPAS Y SYSTEM RHEOLAETH FEWNOL

Amcan y system rheolaeth fewnol yw rheoli risg i raddau rhesymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion. Oherwydd hynny, nid yw ond yn gallu cynnig sicrwydd rhesymol o effeithioldeb, ac nid sicrwydd llwyr. Mae system rheolaeth fewnol Ofcom yn seiliedig ar broses barhaus sydd â'r amcanion canlynol:

- adnabod a blaenoriaethu risgiau rhag cyflawni polisïau, nodau ac amcanion Ofcom;
- gwerthuso'r tebygolrwydd o wireddu'r risgiau hynny a'u heffaith os cânt eu gwireddu;
- rheoli'r risgiau hynny'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus;
- integreiddio'r broses rheoli risg â phrosesau rheoli mwy cyffredinol Ofcom.

Mae'r system rheolaeth fewnol sy'n seiliedig ar yr amcanion uchod wedi bod ar waith yn Ofcom ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2008 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ac mae'n gyson ag arweiniad y Trysorlys.

## Y GALLU I DDELIO Â RISG

Mae Ofcom wedi datblygu strategaeth effeithiol i reoli risg sydd wedi'i seilio ar bedair egwyddor allweddol:

- perchnogaeth glir ar rolau a chyfrifoldebau;
- sefydlu systemau corfforaethol i adnabod, gwerthuso a rhoi gwybod am risgiau a'u heffaith bosibl;
- sicrhau bod cydweithwyr yn meddu ar sgiliau priodol i adnabod ac asesu'r posibilrwydd y bydd risgiau'n codi wrth gyflawni cylch gwaith Ofcom;
- creu diwylliant sy'n rhoi lle i fentro dan reolaeth dda os yw'n debygol y byddai hynny'n arwain at welliannau cynaliadwy wrth gyflenwi gwasanaethau.

Er hynny, mae Ofcom yn cydnabod y bydd y goddefiad i risgiau yn y corff yn amrywio yn ôl yr amgylchiadau. Mae Ofcom yn dal yn wrthwynebus iawn i risgiau mewn rhai meysydd yn ei weithgareddau craidd ond bydd yn goddef, neu hyd yn oed yn cymell, mwy o fentro mewn meysydd eraill sy'n ymwneud yn fwy â pholisi er mwyn sicrhau newidiadau llesol i ddinasyddion a defnyddwyr. Wrth gwrs, nid yw'r parodrwydd hwn i dderbyn lefel risg uwch yn dileu'r angen i werthuso risgiau o'r fath yn drwyadl cyn ymgymryd â gweithgareddau o'r fath, nac yn dileu'r angen i gymryd camau priodol i reoli risg yn effeithiol o fewn y goddefiadau sydd wedi'u mabwysiadu.

Oherwydd hynny, mae Ofcom wedi datblygu prosesau priodol er mwyn adnabod, gwerthuso a rheoli risg yn systematig ac mae wedi'u gwella ymhellach yn 2007/8.

## Y FFRAMWAITH RISG A RHEOLI

**Rôl y Pwyllgor Gweithredol**

Dan drefniadau rheoli risg Ofcom, mae rhan allweddol i'r Pwyllgor Gweithredol o ran rheoli proffil risg Ofcom ac ystyried y prif risgiau a allai fod yn rhwystr rhag cyflawni ei bolisïau, ei nodau a'i amcanion. Cyfarfu'r Pwyllgor yn wythnosol yn ystod y rhan fwyaf o 2007/8 a hwn yw'r pwyllgor rheoli mewnol uchaf yn Ofcom. Er mwyn adlewyrchu'r trefniadau rheoli sy'n datblygu yn Ofcom, dechreuodd y Pwyllgor gyfarfod yn fisol o Chwefror 2008 ymlaen ac mae Bwrdd Gweithred-iadau, sydd wedi'i gyfansoddi o'r newydd, yn cwrdd bob pythefnos, gan ymgymryd â mwy o'r prosesau penderfynu.

Mae holl aelodau'r Pwyllgor Gweithredol wedi ymrwymo i ymgymryd ag adolygiadau rheolaidd o'r prif feysydd risg y maent yn gyfrifol amdanynt ac i weithio gyda'u timau i sicrhau bod holl gydweithwyr Ofcom yn gallu adnabod a thynnu sylw at risgiau sy'n gysylltiedig â'u meysydd gweithgarwch a chymryd camau priodol i reoli risgiau sydd wedi'u hadnabod.

Amcan y broses adnabod hon yw pennu blaenoriaeth y risgiau ym meysydd polisi a gweithrediadau a allai effeithio ar allu Ofcom i gyflawni'r amcanion yn ei Gynllun Blynyddol. Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn adolygu'r camau gweithredu i ymateb i risgiau blaenoriaethol bob mis ac, o bryd i'w gilydd, adolygir y rhestr o risgiau blaenoriaethol er mwyn asesu'r graddau y mae'n dal yn berthnasol a chaiff risgiau eu hychwanegu neu eu tynnu oddi arni fel y bo'n briodol.

Yn ogystal â hynny, mae cofrestrau risg unigol wedi'u cadw, ar ffurf briodol, ar gyfer pob maes swyddogaethol yn y corff. Mae Aelodau'r Pwyllgor Gweithredol yn gyfrifol am reoli'r risgiau yn eu meysydd. Rhaid iddynt wneud hynny mewn modd sy'n unol â'r goddefiad cyffredinol i risg yn Ofcom.

Fel rhan o'r broses gynllunio flynyddol a gwblhawyd mewn cysylltiad â 2008/9, dynodwyd sgôr risg i'r holl brosiectau er mwyn helpu i flaenoriaethu gwaith Ofcom ar gyfer y dyfodol. Mae'n ofynnol i bob rheolwr prosiect bennu risgiau sy'n gysylltiedig â'i brosiect a rhoi mesurau ar waith i reoli risgiau y mae wedi'u pennu, a cheir adran mewn papurau penderfynu sydd â'r amcan o ddangos risgiau allweddol a'r dulliau o'u rheoli i lunwyr penderfyniadau.

Mae'r Gyfarwyddiaeth Gynllunio a Datblygu yn gyfrifol am gydgysylltu'r broses gyffredinol ar gyfer adnabod ac asesu risgiau ac mae'n cydweithio â'r Pwyllgor Gweithredol a'r timau prosiect ar adnabod a rheoli risgiau.

Cynhelir adolygiad blynyddol o broffil risgiau blaenoriaethol Ofcom ar ôl y cylch cynllunio busnes.

**Adroddiadau ac adolygiadau rheoli risg**

Rhai o'r camau sydd wedi'u pennu, eu gweithredu a'u cynnwys ym mhrosesau Ofcom yw:

- adroddiad wythnosol gan y Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Chyfarwyddwr Swyddfa'r Prif Weithredwr am y pryderon cyfredol o ran cysylltiadau â rhanddeiliaid;
- adroddiad Gwybodaeth Reoli misol a ddosbarthir i holl aelodau'r Pwyllgor Gweithredol sy'n cynnwys:
  - cofrestr o risgiau blaenoriaethol wedi'i diweddaru gan berchnogion risgiau yn y Pwyllgor Gweithredol. Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn ei hadolygu bob mis er mwyn ei helpu i fonitro risgiau ar lefel gorfforaethol;
  - adroddiadau ar sail eithriadau am brosiectau eraill sydd â statws risg canolig neu uchel ym mhob rhan o'r corff, risgiau o ran ymgyfreithio, a risgiau ariannol a risgiau gweithredol eraill.
- adolygiad ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio o risgiau ymgyfreithio a risgiau i ddiogelwch Ofcom. Bydd y Pwyllgor yn adolygu datganiadau ariannol Ofcom bob blwyddyn ac mae aelodau'r pwyllgor yn cael copi o becyn gwybodaeth reoli misol Ofcom yn rheolaidd;
- adolygiad risg blynyddol i ddadansoddi'r broses adnabod a monitro risgiau i weld a yw'n ddigonol, ar sail Fframwaith Asesu'r Llywodraeth ar gyfer Rheoli Risg;
- adolygiad a thrafodaeth flynyddol ar reolaethau mewnol rhwng y Bwrdd a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio;
- cynnal asesiadau o effaith (yn unol â gofynion Deddf Cyfathrebiadau 2003) er mwyn adnabod, ymysg pethau eraill, y risgiau sy'n gysylltiedig â pholisïau arfaethedig sydd i'w cyflwyno gan Ofcom.

Mae Ofcom wedi cymryd camau yn ystod 2007/8 i sicrhau mwy o ddiogelwch wrth drafod gwybodaeth bersonol a sensitif. Cymerir camau pellach i sicrhau diogelwch gwybodaeth ar gyfer y dyfodol yn ystod 2008/9.

### DULL INTEGREDIG O REOLI RISG

Mae prosesau rheoli risg, a nodwyd mewn dogfen bolisi ar reoli risg sy'n cynnwys meini prawf ar gyfer asesu risg, wedi'u hintegreiddio â'r system rheoli prosiectau ar gyfer prosiectau polisi. Mae agweddau eraill ar y dull integredig wedi'u rhestru isod:

- hyrwyddir gallu cydweithwyr i ddelio â risg drwy gyfarfodydd briffio wyneb yn wyneb ar reoli risg ar gyfer timau rheoli mewn grwpiau polisi a thrwy'r sylw parhaus gan fyrddau adolygu'r rheolwyr i'r hyn a allai atal allbynnau arfaethedig neu ganlyniadau ym meysydd polisi a gweithrediadau;
- yn ystod 2007/8 ehangwyd cwmpas rôl y grwpiau llywio i gynnwys cyfrifoldeb, os yw hynny'n briodol, dros ystyried yr ymagwedd at risg sy'n berthnasol i brosiectau sydd o

Datganiad am Reolaeth Fewnol

fewn eu cylch gwaith ac adolygu camau i reoli risg yn fwy manwl;

- cymhwyso polisi a gweithdrefnau rheoli'r Trysorlys ar y cyd â'r polisi rheoli risg;
- rheolaethau priodol ar y pwerau y mae'r Bwrdd wedi'u dirprwyo i gydweithwyr i gytuno ar benderfyniadau polisi ac i neilltuo cyllid;
- cynllun archwilio mewnol a gytunir bob blwyddyn rhwng y Pwyllgor Archwilio a'r archwilwyr mewnol ynghyd ag adolygiadau rheolaidd gan yr archwilwyr mewnol o briodoldeb system rheolaethau mewnol Ofcom gydag argymhellion ar gyfer eu gwella;
- parhau â pholisi 'chwythu'r chwiban' a 'datgelu dan amddiffyniad' i alluogi cydweithwyr Ofcom i roi gwybod am bryderon i aelod annibynnol o'r Pwyllgor Gweithredol;
- cynnal polisi diogelwch sy'n delio â phob agwedd ar ddiogelwch gan gynnwys personau, dogfennau a systemau gwybodaeth;
- Polisi Iechyd a Diogelwch sy'n cynnwys arferion gofynnol ar gyfer asesu a rheoli risg.

## ADOLYGU EFFEITHIOLDEB

Fel Swyddog Atebol, mae gennyf gyfrifoldeb dros adolygu effeithioldeb y system rheolaeth fewnol. Byddaf yn adolygu effeithioldeb y system rheolaeth fewnol gan ystyried sylwadau gan y rheolwyr gweithredol yn Ofcom sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, gwaith yr archwilwyr mewnol a sylwadau gan archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac mewn adroddiadau eraill.

Cymhwyswyd y broses wrth gynnal ac adolygu effeithioldeb y system rheolaeth fewnol fel a ganlyn:

**Y Bwrdd**
Mae cyfrifoldeb cyffredinol gan y Bwrdd dros fonitro effeithioldeb system rheolaeth fewnol Ofcom ac mae'n cael adroddiadau rheolaidd gan y Pwyllgor Archwilio.

**Y Pwyllgor Archwilio**
Mae'r Pwyllgor Archwilio yn chwarae rhan bwysig wrth reoli risg o fewn Ofcom. Mae wedi'i gyfansoddi'n unol ag arweiniad y Trysorlys, gydag Aelodau Anweithredol o Fwrdd Ofcom yn aelodau o'r pwyllgor ac Aelod Anweithredol annibynnol yn Gadeirydd a chanddo fynediad uniongyrchol at Gadeirydd Ofcom. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn adolygu effeithioldeb y broses rheoli risg. Bu gwrdd pedwar gwaith yn ystod y flwyddyn.

Nid wyf yn aelod o'r Pwyllgor ond byddaf yn bresennol yn y rhan fwyaf o'i gyfarfodydd, fel y bydd ein harchwilwyr mewnol a'n harchwilwyr allanol, sef y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn cynnwys hawl i gael mynediad at y Cadeirydd i'r archwilwyr mewnol a'r archwilwyr allanol.

**Archwilio Mewnol**
Gosodwyd y swyddogaeth archwilio mewnol yn allanol i KPMG ym mis Tachwedd 2003 a'i chynnig eto ar dendr a'i ddyfarnu i KPMG yn 2006. Mae'n cyflawni ei waith yn unol â'r cynllun Archwilio Mewnol sydd wedi'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio ac sydd â'r amcan o ganiatáu i'r archwilwyr mewnol wneud datganiad am ddigonoldeb ac effeithioldeb prosesau Ofcom ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth ar gyfer y flwyddyn.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cael adroddiadau rheolaidd gan yr archwilwyr mewnol. Yn yr adroddiadau hyn nodwyd nifer o gyfleoedd i wella rheolaethau a gweithdrefnau, y mae'r rheolwyr wedi ymateb iddynt yn gadarnhaol, a daethant i'r casgliad, yn y flwyddyn sydd dan sylw, ar sail y gwaith a wnaed, fod Ofcom yn meddu ar system foddhaol ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth.

**Adolygiad risg blynyddol**
Rhoddwyd sylw yn ystod y flwyddyn i nifer o argymhellion a gododd o'r adolygiad risg a gwblhawyd yn hanner cyntaf 2007/8, gan wella proffil risg Ofcom a'i brosesau. Ymhlith y gwelliannau hyn yr oedd:

- rôl newydd i grwpiau llywio: eu cylch gwaith i gynnwys, fel y bo'n briodol, cytuno ar ddull o ddelio â risg gyda thimau prosiect;
- integreiddio'r broses ailystyried risg fel rhan o'r cynllunio strategol ar gyfer 2008/9 gan y Bwrdd ar ei ddiwrnod cwrdd i ffwrdd yn 2007;
- rhagweld ac ymateb yn well i risgiau sy'n datblygu, drwy ddeall rhanddeiliaid yn well, yn enwedig mewn cysylltiad â modelau busnes newydd;
- dull adolygu mewnol mwy cadarn a herio gweithgareddau polisi-gweithredu-cyflawni cysylltiedig pwysig;
- mwy o gynllunio senarios er mwyn ystyried risgiau posibl i ganlyniadau polisi ac ymatebion dichonol.

## DULLIAU SICRWYDD ERAILL

Parhawyd â nifer o brosesau rheolaeth ariannol. Mae'r Adran Gyllid yn cyflwyno cyfrifon rheoli misol a gaiff eu hadolygu gan ddeiliaid cyllidebau, y Pwyllgor

Gweithredol a'r Bwrdd bob mis er mwyn canfod unrhyw wyro oddi wrth y gyllideb wreiddiol.

Mae Ofcom yn ailbennu ei ragolwg o wariant ac allbynnau (dogfennau ymgynghori a datganiadau polisi arfaethedig yn bennaf) bob chwarter er mwyn darparu ar gyfer newidiadau yn y gwaith sy'n ofynnol i gyflawni ei amcanion strategol a sicrhau ei fod yn gweithredu o fewn terfynau'r targedau ariannol yn y Cynllun Blynyddol. Paratoir y Cynllun Blynyddol ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid a gwaith mewnol trylwyr sy'n cynnwys rheolwyr prosiect, y Pwyllgor Gweithredol a chymeradwyaeth derfynol gan y Bwrdd.

Cymeradwyir prosiectau gwariant cyfalaf fesul un drwy gyflwyno cyfiawnhad busnes, asesiad risg a rhagolwg llif arian gostyngol i'r Bwrdd Gweithrediadau, ac, os ydynt dros drothwyon gwariant penodol, i'r Pwyllgor Gweithredol a'r Bwrdd.

Yn ystod 2007/8 parhaodd Ofcom â'i raglen gynhwysfawr ar gyfer adnewyddu systemau gwybodaeth gan gynnwys orffen datblygiad y system newydd ar gyfer trwyddedu sbectrwm fydd yn cynnwys cysylltiadau sefydlog; cafodd hyn ei weithredu ym mis Ebrill 2008. Cafwyd adolygiad mewnol o'r rhaglen adnewyddu yn ystod y flwyddyn a arweiniodd at ailgynllunio tasgau a phennu strwythur llywodraethu newydd. Mae'r risgiau a nodwyd wedi'u monitro'n ofalus ar lefel y rheolwyr prosiect, y Bwrdd Gweithrediadau a'r Bwrdd a chymerwyd camau priodol i ddelio â risgiau a phroblemau o ran cost, amser ac ymarferoldeb.

Bydd aelodau'r Pwyllgor Gweithredol yn rhoi datganiad sicrwydd blynyddol wedi'i lofnodi i'r Swyddog Atebol mewn cysylltiad â'u harfer ar reolaethau mewnol ar gyfer y meysydd risg sylweddol y maent yn gyfrifol amdanynt.

Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio wedi fy hysbysu am y goblygiadau sy'n codi o'm hadolygiad o effeithioldeb y system rheolaeth fewnol ac mae cynllun i ddelio â gwendidau a sicrhau gwelliant parhaus yn y system wedi'i roi ar waith. Rwyf yn credu bod prosesau boddhaol ar waith ar gyfer adnabod, gwerthuso a rheoli'r risgiau sylweddol y mae Ofcom yn eu hwynebu.

**Ed Richards**
**Prif Weithredwr**
**17 Mehefin 2008**

# Adroddiad Tâl

Wrth baratoi'r Adroddiad Tâl a phennu ei bolisi, mae'r Bwrdd wedi ystyried darpariaethau'r Côd Cyfun ac mae'n eu mabwysiadu lle y mae hynny'n briodol ac yn berthnasol.

Nid yw'n ofynnol i Ofcom gydymffurfio â Rheoliadau Adroddiad Tâl Cyfarwyddwyr 2002 ond mae wedi paratoi'r adroddiad hwn gan gydymffurfio â hwy i'r graddau y mae hynny'n briodol ac yn ymarferol.

## CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR TÂL

Dangosir cyfansoddiad y Pwyllgor Tâl ar dudalen 57.

## CYNGHORWYR

Mae'r Pwyllgor Tâl yn cymryd cyngor a/neu'n cael gwasanaethau gan yr endidau allanol a ganlyn:

- Towers Perrin, ar dâl gweithredwyr;
- Allen & Overy LLP, ar gontractau cyflogaeth a materion cyfreithiol cysylltiedig.

Mae Towers Perrin hefyd yn darparu cyngor a gwasanaethau i Ofcom mewn cysylltiad â phensiynau, ymddiriedolwyr pensiwn a chymorth gweinyddol a materion sefydliadol eraill.

Mae'r Pwyllgor yn cymryd cyngor hefyd gan Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol Ofcom. Fel arfer bydd y Pwyllgor Tâl yn gwahodd y Prif Weithredwr i fod yn bresennol yn ei gyfarfodydd. Ni fydd unrhyw unigolyn yn bresennol ar gyfer unrhyw drafodaeth am ei dâl ei hun.

## POLISI CYFFREDINOL

Wrth bennu polisi tâl Ofcom, mae'r Pwyllgor Tâl yn credu y dylai Ofcom gynnig tâl, o fewn y cyfyngiadau sydd mewn corfforaeth gyhoeddus, a fydd yn denu ac yn cadw'r rheolwyr o safon uchel sy'n angenrheidiol i alluogi Ofcom i gyflawni ei gylch gwaith a'i gyfrifoldebau statudol. Ni ddisgwylir newid yn y cyfeiriad polisi cyffredinol yn y flwyddyn i ddod.

## ELFENNAU TÂL

Prif elfennau tâl Aelodau Gweithredol yw:

## CYFLOG A BUDDION HYBLYG

Pennir cyflog sylfaenol pob Aelod Gweithredol ac uwch reolwr drwy ystyried cyfrifoldebau, perfformiad a phrofiad pob cydweithiwr ynghyd â thueddiadau yn y farchnad. Yn ogystal â hynny, darperir lwfans buddion hyblyg i bob Aelod Gweithredol ac uwch reolwr.

## BUDDION O FATH ARALL

Bydd pob Aelod Gweithredol ac uwch reolwr yn cael buddion safonol penodol sydd wedi'u nodi isod yn yr adran hon.

## BONWS BLYNYDDOL

Mae pob Aelod Gweithredol ac uwch reolwr yn cymryd rhan mewn cynllun bonws a gaiff ei gyfrifo fel canran o'r cyflog ar sail perfformiad yr unigolyn hyd at uchafswm o 25 y cant o'r cyflog yn ôl perfformiad yr unigolyn dan sylw. Nid yw unrhyw ran o'r bonws yn bensiynadwy.

Mae taliadau bonws sydd wedi'u cynnwys yn y rhestrau'n adlewyrchu'r swm sy'n daladwy ar gyfer y cyfnod adolygu perfformiad rhwng 1 Ebrill 2007 a 31 Mawrth 2008.

## TREFNIADAU PENSIWN

**Rheolwyr gweithredol**

Mae pob Aelod Gweithredol ac uwch reolwr (ac eithrio Dominic Morris a Chris Banatvala fel y nodir dros y tudalen) yn cael lwfans sydd wedi'i bennu fel canran o'r cyflog sylfaenol

y gall yr unigolyn ei gymryd fel cyflog ychwanegol neu ei fuddsoddi mewn cynllun pensiwn o'i ddewis.

Mae Dominic Morris yn gymwys i gymryd rhan yng Nghynllun Pensiwn Budd Diffiniedig Ofcom ar delerau tebyg fel yr oeddent yn gymwysadwy pan oedd wedi'i gyflogi o'r blaen gan yr ITC. Mae hyn yn rhoi buddion pensiwn sy'n gysylltiedig â chyflog ar sail budd diffiniedig, gyda chyfradd groniadau o 1 rhan o 60 o'r cyflog terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth, yn amodol ar Derfyn Enillion Cynllun Ofcom os yw hynny'n briodol. Mae Dominic Morris yn cael buddion ychwanegol drwy'r Cynllun er mwyn cydnabod yr hyn a enillodd y tu hwnt i'r terfyn.

Mae Chris Banatvala yn gymwys i gymryd rhan yng Nghynllun Pensiwn Budd Diffiniedig Ofcom ar delerau tebyg fel yr oeddent yn gymwysadwy pan oedd wedi'i gyflogi o'r blaen gan yr ITC. Mae hyn yn rhoi buddion pensiwn sy'n gysylltiedig â chyflog ar sail budd diffiniedig, gyda chyfradd groniadau o 1 rhan o 60 o'r cyflog terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth, yn amodol ar Derfyn Enillion Cynllun Ofcom os yw hynny'n briodol.

**Aelodau Anweithredol**

Fel y nodir isod yn y Nodiadau i'r tabl Tâl, talwyd ffioedd i David Currie gan Ofcom o 9 Ebrill 2007; rhwng 1 Ebrill a 9 Ebrill, fel rhan o'r trefniadau a oedd yn gymwys iddo ar y pryd, gwnaeth Ofcom gwrdd â swm bach o'r costau pensiwn uniongyrchol dros David Currie. Ni chafodd yr un Aelod Anweithredol arall fudd pensiwn gan Ofcom yn ystod y flwyddyn dan sylw.

Mae manylion tâl y Bwrdd, y Bwrdd Cynnwys a'r Pwyllgor Gweithredol, sydd wedi'u harchwilio gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ar dudalen 67.

## ARWEINIAD I'R RHESTRAU TÂL

Mae'r rhestrau hyn yn cyfeirio at dâl yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'r rhestr yn adlewyrchu tâl am y rhan honno o'r flwyddyn pryd yr oedd unigolion un ai'n darparu gwasanaethau i'r Bwrdd, y Bwrdd Cynnwys neu'r Pwyllgor Gweithredol, neu'n Aelodau Gweithredol ohonynt. Os yw unigolion yn aelodau o fwy nag un Bwrdd/Pwyllgor (fel y nodir ar dudalennau 54 a 57) dim ond unwaith y mae eu henw'n ymddangos yn y rhestrau tâl. Mae'r pwyntiau wedi'u rhifo sydd wrth enwau unigolion yn cyfeirio at y pwyntiau wedi'u rhifo ar dudalennau 68 a 69.

# Adroddiad Tâl

## TÂL BWRDD OFCOM 2007/8

| Enw | Rôl | | Cyfanswm tâl £ | Hawl pensiwn/ lwfans £ | Lwfans buddion hyblyg £ | Buddion o fath arall £ | Bonws £ | Cyflog £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Millie Banerjee | Aelod Anweithredol | (2,3,13) | 58,446 | | | 672 | - | 57,774 |
| Colette Bowe | Aelod Anweithredol | (2,5,13) | 10,320 | | | | - | 10,320 |
| David Currie | Cadeirydd | (1,2,13) | 206,134 | 616 | | 728 | - | 204,790 |
| Tim Gardam | Aelod Anweithredol | (2,4,13) | 10,320 | | | | - | 10,320 |
| Philip Graf | Dirprwy Gadeirydd | (2, 13) | 103,874 | | | 672 | - | 103,202 |
| Ian Hargreaves | Aelod Gweithredol | (7,16-19) | 247,896 | 27,000 | 12,000 | 1,896 | 27,000 | 180,000 |
| Stephanie Liston | Aelod Anweithredol | (2, 8,13) | 41,953 | | | 672 | - | 41,281 |
| Mike McTighe | Aelod Anweithredol | (2,4,13) | 24,417 | | | 336 | - | 24,081 |
| Sara Nathan | Aelod Anweithredol | (2,6,13) | 31,465 | | | 504 | - | 30,961 |
| Ed Richards | Prif Weithredwr | (16-19) | 417,581 | 56,400 | 19,953 | 2,828 | 56,400 | 282,000 |
| Philip Rutnam | Aelod Gweithredol | (16-19) | 260,753 | 27,150 | 15,000 | 1,403 | 36,200 | 181,000 |
| **Cyfanswm** | | | **1,413,159** | **111,166** | **46,953** | **9,711** | **119,600** | **1,125,729** |

## TÂL BWRDD CYNNWYS OFCOM 2007/8

| Enw | Rôl | | Cyfanswm tâl £ | Hawl pensiwn/ lwfans £ | Lwfans buddion hyblyg £ | Buddion o fath arall £ | Bonws £ | Cyflog £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Richard Ayre | Aelod o'r Bwrdd Cynnwys | (9,12,13) | 26,248 | | | 300 | - | 25,948 |
| Chris Banatvala | Cyfarwyddwr Safonau | (16-19,21) | 174,968 | 24,052 | 16,250 | 1,352 | 23,000 | 110,314 |
| Sue Balsom | Aelod o'r Bwrdd Cynnwys | (9,13) | 21,690 | | | 672 | - | 21,018 |
| Pam Giddy | Aelod o'r Bwrdd Cynnwys | (9,13) | 21,690 | | | 672 | - | 21,018 |
| Anthony Lilley | Aelod o'r Bwrdd Cynnwys | (9,13) | 21,690 | | | 672 | - | 21,018 |
| Dr Paul Moore | Aelod o'r Bwrdd Cynnwys | (9-13) | 21,690 | | | 672 | - | 21,018 |
| Stewart Purvis | Partner, Cynnwys a Safonau | (16-19) | 60,271 | 7,280 | 4,000 | 458 | - | 48,533 |
| Adam Singer | Dirprwy Gadeirydd | (9-13) | 28,696 | | | 672 | - | 28,024 |
| Tim Suter | Partner, Cynnwys a Safonau | (10,16-19) | 149,671 | 17,600 | 14,290 | 448 | - | 117,333 |
| Joyce Taylor | Aelod o'r Bwrdd Cynnwys | (9-13) | 21,634 | | | 616 | - | 21,018 |
| Kath Worrall | Aelod o'r Bwrdd Cynnwys | (9-13) | 28,396 | | | 372 | - | 28,024 |
| **Total** | | | **576,644** | **48,932** | **34,540** | **6,906** | **23,000** | **463,266** |

## TÂL PWYLLGOR GWEITHREDOL OFCOM 2007/8

| Enw | Rôl | | Cyfanswm tâl £ | Hawl pensiwn/ lwfans £ | Lwfans buddion hyblyg £ | Buddion o fath arall £ | Bonws £ | Cyflog £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Jill Ainscough | Prif Swyddog Gweithredu | (15-19) | 161,230 | 16,738 | 9,846 | 919 | 22,137 | 111,590 |
| Janet Campbell | Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol | (14,16-19) | 124,199 | 10,170 | 10,714 | 1,517 | 17,048 | 84,750 |
| Rona Chester | Cyfarwyddwr Cyllid | (14,16-19) | 126,695 | 14,957 | 10,714 | 1,310 | 0 | 99,714 |
| Graham Howell | Ysgrifennydd y Gorfforaeth | (14,16-19) | 145,241 | 15,954 | 10,714 | 1,517 | 10,699 | 106,357 |
| Peter Ingram | Prif Swyddog Technoleg | (14,16-19) | 166,546 | 23,175 | 17,857 | 1,479 | 8,160 | 115,875 |
| Stuart McIntosh | Partner, Cystadlu | (15-19) | 50,127 | 6,144 | 2,731 | 290 | 0 | 40,962 |
| Dominic Morris | Cyfarwyddwr Swyddfa'r | | | | | | | |
| | Prif Weithredwr | (14,16-20) | 153,089 | 19,520 | 13,092 | 1,310 | 10,892 | 108,275 |
| Peter Phillips | Partner, Strategaeth a | | | | | | | |
| | Datblygiadau'r Farchnad | (14,16-19) | 266,006 | 27,090 | 20,000 | 2,196 | 36,120 | 180,600 |
| **Cyfanswm** | | | **1,193,133** | **133,748** | **95,668** | **10,538** | **105,056** | **848,123** |

# Nodiadau i'r tablau

1 Yn Ebrill 2007 ymddeolodd y Cadeirydd o City University. O 9 Ebrill 2007 dechreuodd y Cadeirydd gael ffioedd gan Ofcom ar yr un sail â'r Aelodau Anweithredol eraill (gweler Nodyn 2 isod). Yn ogystal â hynny, gwnaeth Ofcom gwrdd â chostau pensiwn David Currie ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 9 Ebrill 2007.

2 Pennir y ffioedd i holl Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom drwy gytundeb â'r Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar gyfer hyd y penodiad. Mae'r ffioedd sydd wedi'u dangos yn rhai ar gyfer blwyddyn gyfan neu, os yw'n briodol, ran o'r flwyddyn os gwnaeth yr Aelod Anweithredol dan sylw ymuno â Bwrdd Ofcom neu ymddeol ohono yn ystod y cyfnod dan sylw. Mae'r ffioedd i'r Aelodau Anweithredol wedi'u cysylltu ag argymhellion y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion ar gyfer cyflogau'r uwch wasanaeth sifil ac, o ganlyniad i'r cysylltiad hwnnw, cynyddwyd ffioedd 0.66 y cant o 1 Ebrill 2007. Y ffi sylfaenol i Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom (heblaw am y Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd a Millie Banerjee) oedd £41,281 y flwyddyn o 1 Ebrill 2007. Telir ffi ychwanegol o £5,000 y flwyddyn i Aelodau Anweithredol y Bwrdd sy'n cadeirio Pwyllgorau'r Bwrdd.

3 Rhoddwyd ffi sylfaenol uwch o £52,774 y flwyddyn mewn grym i Millie Banerjee o 1 Ebrill 2007 i adlewyrchu'r ffaith ei bod hefyd yn aelod o'r Bwrdd Cynnwys.

4 Penodwyd Mike McTighe yn Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom ar 1 Medi 2007. Penodwyd Tim Gardam yn Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom ar 1 Ionawr 2008.

5 Penodwyd Colette Bowe yn Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom ar 1 Ionawr 2008. Cyn y penodiad hwn, roedd Colette Bowe yn Gadeirydd y Panel Defnyddwyr. Mae'r tâl sydd wedi'i ddangos yn y tabl yn un ar gyfer y rhan o'r flwyddyn pryd yr oedd Colette Bowe yn Aelod o Fwrdd Ofcom yn unig.

6 Ymddeolodd Sara Nathan o Fwrdd Ofcom ar 31 Rhagfyr 2007. Mae'r tâl sydd wedi'i ddangos yn un ar gyfer y rhan o'r flwyddyn pryd yr oedd Sara Nathan yn Aelod o Fwrdd Ofcom. Mae cyfamodau rhwystrol yng nghytundeb Sara Nathan ag Ofcom sy'n ei hatal rhag derbyn rhai mathau o gyflogaeth â thâl neu rhag darparu rhai mathau o wasanaethau i drydydd parti am gyfnod o chwe mis wedi iddi ymddeol o Ofcom. Oherwydd hynny, parhaodd Ofcom i dalu ei ffioedd i Sara Nathan tan 31 Mawrth 2008 yn gydnabyddiaeth am orfodi cyfamodau rhwystrol o'r fath. Cafodd Sara Nathan dâl (yn cynnwys ffioedd a buddion o fath arall) o £10,488 am y cyfnod hwn o dri mis.

7 Mae Ian Hargreaves wedi'i gyflogi gan Ofcom ar sail ran amser. Mae ei dâl, fel y mae wedi'i ddangos, ar gyfer y cyfnod dan sylw yn cynrychioli'r union swm a dalwyd iddo, ac nid cyflog cyfwerth ag amser llawn. Ymddiswyddodd Ian Hargreaves o'r Bwrdd ar 31 Mai 2008.

8 Ymddiswyddodd Stephanie Liston o Fwrdd Ofcom ar 31 Mawrth 2008.

9 Pennir y ffioedd i Aelodau Anweithredol y Bwrdd Cynnwys gan Fwrdd Ofcom. Mae'r ffioedd sydd wedi'u dangos yn rhai am flwyddyn gyfan neu, os yw'n briodol, ran o'r flwyddyn os ymunodd yr Aelod o'r Bwrdd Cynnwys â'r Bwrdd Cynnwys neu ymddeol ohono yn ystod y flwyddyn. Yn yr un modd â'r ffioedd i Fwrdd Ofcom, mae ffioedd i Aelodau'r Bwrdd Cynnwys wedi'u cysylltu ag argymhellion y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion ar gyfer cyflogau'r uwch wasanaeth sifil ac, o ganlyniad i'r cysylltiad hwnnw, cynyddwyd ffioedd 0.66 y cant o 1 Ebrill 2007. Y ffi sylfaenol i Aelodau'r Bwrdd Cynnwys (heblaw am Adam Singer a Kath Worrall sy'n cael ffioedd uwch am eu rolau ychwanegol fel Dirprwy Gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Tegwch) oedd £21,018 y flwyddyn o 1 Ebrill 2007.

## Nodiadau i'r tablau

10 Ymddiswyddodd Tim Suter fel Aelod Gweithredol o'r Bwrdd Cynnwys ar 30 Tachwedd 2007. Mae'r tâl sydd wedi'i ddangos yn un am y rhan o'r flwyddyn pryd yr oedd Tim Suter yn Aelod o'r Bwrdd Cynnwys. Yn ogystal â'r tâl sydd wedi'i ddangos, cafodd Tim Suter dâl (yn cynnwys cyflog, lwfans pensiwn a buddion hyblyg) o £35,983 am y cyfnod o ddau mis, sef y tâl a oedd yn ddyledus iddo yn ystod ei gyfnod rhybudd.

11 Penodwyd Stewart Purvis yn Bartner, Cynnwys a Safonau ac yn Aelod Gweithredol o'r Bwrdd Cynnwys ar 3 Rhagfyr 2007. Mae Stewart Purvis wedi'i gyflogi gan Ofcom ar sail ran amser. Mae ei dâl, fel y mae wedi'i ddangos, ar gyfer y cyfnod dan sylw yn cynrychioli'r union swm a dalwyd iddo, ac nid cyflog cyfwerth ag amser llawn.

12 Yn ystod y cyfnod dan sylw, ymgymerodd Richard Ayre ag ymchwiliad ar ran Ofcom i agweddau ar deledu lle ceir cyfranogi gan y gynulleidfa; roedd y gwaith hwn yn ychwanegol at ei ddyletswyddau fel Aelod o'r Bwrdd Cynnwys a chafodd daliad ychwanegol ar ben ei ffioedd fel Aelod o'r Bwrdd Cynnwys o £4,930 am roi ei wasanaethau i'r ymchwiliad.

13 Nid yw Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom ac Aelodau'r Bwrdd Cynnwys (ac eithrio Richard Ayre fel y nodwyd yn Nodyn 12) yn cael unrhyw dâl ychwanegol gan Ofcom ar ben eu ffioedd heblaw am yr hawl i gael rhai buddion safonol, sef pecyn digidol i'w ddefnyddio gartref ac ar gyfer busnes ac, i Aelodau Anweithredol o Fwrdd Ofcom yn unig, ddarpariaeth o gyfarpar TG ar gyfer gweithio gartref. Nid oedd holl Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom neu Aelodau'r Bwrdd Cynnwys wedi arfer yr hawl hon yn y cyfnod dan sylw.

14 Newidiwyd aelodaeth Pwyllgor Gweithredol Ofcom ar 18 Rhagfyr 2007. O ganlyniad, ymddiswyddodd Janet Campbell, Rona Chester, Graham Howell, Peter Ingram a Dominic Morris o'r Pwyllgor ar 18 Rhagfyr 2007. Mae'r tabl tâl yn dangos pob un o'r cydweithwyr hynny a oedd yn aelodau yn ystod y flwyddyn. Yn achos y rheini a benodwyd i'r Pwyllgor Gweithredol, neu a ymddiswyddodd ohono, yn ystod y cyfnod dan sylw, dangosir y tâl a gawsant am gyfnod eu haelodaeth o'r Pwyllgor Gweithredol yn unig.

15 Penodwyd Jill Ainscough yn Brif Swyddog Gweithredu ar 7 Awst 2007; penodwyd Stuart McIntosh yn Bartner Cystadlu ar 28 Ionawr 2008.

16 Mae'r tâl blynyddol i weithredwyr Ofcom (Aelodau Gweithredol o Fwrdd Ofcom, Aelodau Gweithredol o'r Bwrdd Cynnwys ac uwch reolwyr ar y Pwyllgor Gweithredol) yn cynnwys cyflog sylfaenol ynghyd â lwfans arian ar gyfer buddion hyblyg a chanran o'r cyflog sylfaenol a delir ar ffurf lwfans pensiwn (ac eithrio Dominic Morris a Chris Banatvala).

17 Adolygir cyflog sylfaenol yr holl uwch weithredwyr bob blwyddyn ar 1 Gorffennaf.

18 Mae pob un o Aelodau Gweithredol Ofcom ar Fwrdd Ofcom neu uwch reolwr yn gallu cael budd o yswiriant bywyd, diogelwch incwm grŵp, pecyn digidol i'w ddefnyddio gartref ac ar gyfer busnes a'r gallu i gael archwiliad iechyd blynyddol. Nid yw gwerth y grŵp diogelwch incwm a'r archwiliadau iechyd blynyddol wedi'i ddatgelu yn y rhestrau tâl am nad yw Cyllid a Thollau EM yn eu trin fel enillion trethadwy.

19 Mae holl gydweithwyr Ofcom yn cymryd rhan mewn cynllun bonws, a delir ar sail perfformiad yr unigolyn. Cymeradwyir yr holl daliadau gan Bwyllgor Tâl Ofcom ac fe'u cyfrifir fel canran o'r cyflog sylfaenol yn amrywio o 0 i 25 y cant. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2007/8, gwnaed y taliadau bonws ym mis Gorffennaf 2008.

20 Mae Dominic Morris yn aelod o Gynllun Pensiwn Budd Diffiniedig Ofcom. Rhoddwyd datgeliad ar wahân mewn cysylltiad â'r cynllun hwn yn y tabl dros y tudalen.

21 Mae Chris Banatvala yn aelod o Gynllun Pensiwn Budd Diffiniedig Ofcom. Rhoddwyd datgeliad ar wahân mewn cysylltiad â'r cynllun hwn yn y tabl dros y tudalen.

Nodiadau i'r tablau

## DATGELIAD GWEITHREDOL AR GYFER PENSIYNAU BUDD DIFFINIEDIG

Mae'r datgeliadau ar gyfer pensiynau budd diffiniedig i Dominic Morris a Chris Banatvala wedi'u dangos yn y tabl isod.

Mae'r croniadau pensiwn a'r gwerthoedd trosglwyddo ar gyfer Dominic Morris a Chris Banatvala yn adlewyrchu'r pensiwn ychwanegol sy'n codi oherwydd trosglwyddo eu buddion i mewn oddi wrth eu cyflogwr blaenorol.

Mae gwerth trosglwyddo'r croniadau pensiwn yn adlewyrchu amcangyfrif o'r gost i'r cynllun pensiwn am ddarparu'r buddion pensiwn a gronnwyd hyd yn hyn (wedi'u cyfrifo'n unol â Nodyn Canllaw Actiwaraidd GN11). Mae nifer o ffactorau'n effeithio ar y gwerth, gan gynnwys oed yr unigolyn, y cyflog pensiynadwy ac amodau'r farchnad fuddsoddiadau ar ddyddiad y cyfrifiad.

## CYTUNDEBAU GWASANAETH

Nid oes gan yr un Aelod Gweithredol o Fwrdd Ofcom neu yr un o gydweithwyr Ofcom gytundeb gwasanaeth ac ynddo gyfnod rhybudd o fwy nag un flwyddyn. Mae'r Pwyllgor Tâl wedi ystyried y cyfnod rhybudd a'r trefniadau terfynu yng nghyd-destun y Côd Cyfun ac mae'n credu eu bod yn briodol.

Mae'r Aelodau Anweithredol wedi'u penodi am dymor penodedig i neilltuo amser penodedig i Ofcom o hyd at ddau ddiwrnod yr wythnos (heblaw am David Currie, Philip Graf a Millie Banerjee sydd ar hyn o bryd yn neilltuo hyd at bedwar, tri a dau ddiwrnod a hanner yn y drefn honno).

## DATGELIADAU AR GYFER PENSIYNAU BUDD DIFFINIEDIG

**Iawndal am derfynu cynnar**

Mae'r Pwyllgor Tâl yn penderfynu ar y trefniadau ar gyfer terfynu contract gwasanaeth yn gynnar yn achos Aelodau Gweithredol o Fwrdd Ofcom ac uwch reolwyr ac fe'u gwneir yn unol â chontract gwasanaeth y Cyfarwyddwr gweithredol neu uwch reolwr dan sylw. Mae pob contract gwasanaeth yn darparu ar gyfer taliad yn lle rhybudd os terfynir y contract yn gynnar fel y mae Ofcom yn gweld orau.

Nid oes gan Aelodau Anweithredol unrhyw hawl i gael iawndal os terfynir eu contract yn gynnar.

Mae cyfyngiadau ar yr holl Aelodau Anweithredol rhag gweithio i fusnes sy'n cael ei reoleiddio gan Ofcom am gyfnod o hyd at chwe mis cyn terfynu'r penodiad neu cyn iddo ddod i ben (cyfnod o waharddiad neu 'absenoldeb garddio') a chwe mis ar ôl ei derfynu (cyfamod amddiffynnol). Mae'r cyfyngiadau hyn yn adlewyrchu'r rheini sydd hefyd yn gymwys i Aelodau Gweithredol Bwrdd Ofcom a'u bwriad yw diogelu annibyniaeth Ofcom ac uniondeb proffesiynol pob un o'r Aelodau Anweithredol.

**Cyfarwyddiaethau allanol**

Ni chaiff unrhyw Aelod Gweithredol o Fwrdd Ofcom dderbyn penodiad anweithredol heb gael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Bwrdd er mwyn sicrhau na fydd hyn yn achosi gwrthdaro buddiannau.

Rhaid hysbysu Bwrdd Ofcom am yr holl benodiadau y mae Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom yn eu derbyn er mwyn sicrhau na fydd unrhyw wrthdaro buddiannau'n codi; os credir bod gwrthdaro o'r fath yn codi, bydd yn ofynnol i'r Aelod Anweithredol ymddiswyddo o'r swydd dan sylw.

**Ar ran Ofcom,**
**Millie Banerjee**
**Cadeirydd y Pwyllgor Tâl**
**17 Mehefin 2008**

## Nodiadau i'r tablau

| Enw | Pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2008 | Cynnydd yn y pensiwn cronedig dros y flwyddyn | Gwerth trosglwyddo'r pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2008 | Gwerth trosglwyddo'r pensiwn cronedig31 ar 31 Mawrth 2007 | Cynnydd yn y gwerth trosglwyddo heb gyfraniadau'r aelod |
|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ |
| Dominic Morris CBE (20) | 23,800 | 2,900 | 352,000 | 298,000 | 43,000 |
| Chris Banatvala (21) | 10,900 | 1,500 | 85,000 | 70,000 | 10,000 |

# Adran D

## Cyfrifon ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2007 i 31 Mawrth 2008.

## Tystysgrif ac Adroddiad Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol y Senedd

Rwyf yn ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Swyddfa Gyfathrebiadau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2008 o dan Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002. Mae'r rhain yn cynnwys y Cyfrif Incwm a Gwariant, y Datganiad o Gyfanswm yr Enillion a Cholledion Cydnabyddedig, y Fantolen, y Datganiad o Lif Arian a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi'u paratoi o dan y polisïau cyfrifyddu sydd wedi'u nodi ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Tâl y dywedir yn yr adroddiad hwnnw ei fod wedi'i archwilio.

### Priod gyfrifoldebau'r Bwrdd, y Prif Weithredwr a'r Archwilydd

Mae'r Bwrdd, a'r Prif Weithredwr, fel Swyddog Atebol, yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad Tâl, a'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002 a chyfarwyddiadau'r Ysgrifenyddion Gwladol dros Fusnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio a thros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a wnaed odani ac am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol. Mae'r cyfrifoldebau hyn wedi'u nodi yn y Datganiad o Gyfrifoldebau.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Tâl sydd i'w harchwilio'n unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol perthnasol a Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon).

Byddaf yn eich hysbysu am fy marn ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac a yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Tâl sydd i'w harchwilio wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Deddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002 a chyfarwyddiadau'r Ysgrifenyddion Gwladol dros Fusnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio a thros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a wnaed odani. Byddaf yn eich hysbysu ynghylch a yw gwybodaeth benodol sy'n cynnwys yr adrannau ar Berfformiad Ariannol, y Rhagair, Bwrdd Ofcom, Llywodraethu Corfforaethol a Phwyllgorau'r Bwrdd sydd yn yr Adroddiad Blynyddol yn gyson, yn fy marn i, â'r datganiadau ariannol. Byddaf hefyd yn rhoi gwybod a yw'r gwariant a'r incwm, ym mhob mater perthnasol, wedi'u defnyddio i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodiadau sy'n eu llywodraethu.

Yn ogystal â hynny, byddaf yn eich hysbysu os nad yw'r Swyddfa Gyfathrebiadau wedi cadw cyfrifon cyfrifyddu priodol, os nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae arnaf eu hangen ar gyfer fy archwiliad, neu os yw'r wybodaeth a bennwyd gan awdurdodau perthnasol ynghylch tâl a thrafodion eraill heb ei datgelu.

Byddaf yn adolygu i ganfod a yw'r Datganiad ar Reolaeth Fewnol yn dangos cydymffurfiad gan y Swyddfa Gyfathrebiadau ag arweiniad

Trysorlys EM, a byddaf yn rhoi gwybod os nad yw. Nid yw'n ofynnol imi ystyried a yw'r datganiad hwn yn cwmpasu'r holl risgiau a rheolaethau, neu ffurfio barn ynghylch effeithioldeb gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol y Swyddfa Gyfathrebiadau neu ei gweithdrefnau risg a rheolaeth.

Byddaf yn darllen y wybodaeth arall sydd yn yr Adroddiad Blynyddol ac yn ystyried a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol sydd wedi'u harchwilio. Y wybodaeth arall hon yw y rhan sydd heb ei harchwilio o'r Adroddiad Tâl a'r adrannau o'r Adroddiad Blynyddol sy'n weddill. Byddaf yn ystyried y goblygiadau i'm hadroddiad os deuaf i wybod am unrhyw gamddatganiadau ymddangosiadol neu anghysonderau o bwys â'r datganiadau ariannol. Nid yw fy nghyfrifoldebau'n cwmpasu unrhyw wybodaeth arall.

## Sail barn yr archwilydd

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon) a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Cyfrifyddu. Mae fy archwiliad yn cynnwys archwiliad, ar sail prawf, o dystiolaeth sy'n berthnasol i symiau, datgeliadau a rheoleidd-dra trafodion ariannol sydd yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Tâl sydd i'w harchwilio. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau pwysig a wnaed gan y Bwrdd a'r Prif Weithredwr wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisïau cyfrifyddu'n rhai sy'n fwyaf priodol i amgylchiadau'r Swyddfa Gyfathrebiadau, a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson ac wedi'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais fy archwiliad a'i gyflawni fel y gallwn gael yr holl wybodaeth ac esboniadau yr oeddwn yn eu hystyried yn angenrheidiol er mwyn cael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Tâl sydd i'w harchwilio'n rhydd oddi wrth gamddatganiadau pwysig, pa un a ydynt wedi'u hachosi gan dwyll neu gamgymeriad, a bod y gwariant a'r incwm ym mhob mater perthnasol wedi'u defnyddio i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodiadau sy'n eu llywodraethu. Wrth ffurfio fy marn, gwneuthum werthusiad hefyd o ddigonoldeb cyffredinol y dull o gyflwyno gwybodaeth yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Tâl sydd i'w harchwilio.

## Barnau

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg, yn unol â Deddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002 a chyfarwyddiadau a wnaed odani gan yr Ysgrifenyddion Gwladol dros Fusnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio a thros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, o gyflwr busnes y Swyddfa Gyfathrebiadau ar 31 Mawrth 2008 ac o'i gwarged am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.
- mae'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Tâl sydd i'w harchwilio wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Deddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002 a chyfarwyddiadau a wnaed odani gan yr Ysgrifenyddion Gwladol dros Fusnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio a thros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon;
- mae gwybodaeth, sy'n cynnwys yr adrannau ar Berfformiad Ariannol, y Rhagair, Bwrdd Ofcom, Llywodraethu Corfforaethol a Phwyllgorau'r Bwrdd, sydd yn yr Adroddiad Blynyddol, yn gyson â'r datganiadau ariannol.

## Barn am Reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob mater perthnasol mae'r gwariant a'r incwm wedi'u defnyddio i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodiadau sy'n eu llywodraethu.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud am y datganiadau ariannol hyn.

**TJ Burr**
**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**
**Mehefin 2008**

**Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol**
**151 Heol Buckingham Palace**
**Victoria**
**Llundain**
**SW1W 9SS**

# Cyfrif Incwm a Gwariant
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008

| | Nodiadau | **Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008 £'000** | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2007 £'000 |
|---|---|---|---|
| Incwm | 2,3 | **142,396** | 143,608 |
| **Gwariant gweithredu** | | | |
| Costau staff | 4 | **(60,781)** | (55,748) |
| Costau gweithredu eraill | 6 | **(73,161)** | (69,427) |
| **Gwarged gweithredu** | | **8,454** | **18,433** |
| Credyd eithriadol | 7 | **126** | 2,878 |
| Amharu ar Asedau | 9b | **(1,520)** | - |
| Llog y gellir ei dderbyn | | **1,663** | 1,697 |
| Llog y gellir ei dalu | 8 | **(176)** | (411) |
| Costau cyllid eraill | 18,25 | **(237)** | (491) |
| Cost dybiannol credyd cyfalaf | 21 | **1,378** | 1,073 |
| **Gwarged gweithgareddau arferol** | | **9,688** | **23,179** |
| Gwrthdroi cost dybiannol credyd cyfalaf | 21 | **(1,378)** | (1,073) |
| **Gwarged ar gyfer y flwyddyn ariannol** | | **8,310** | **22,106** |

Mae'r polisïau cyfrifyddu a'r nodiadau ar dudalennau 78 i 96 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Datganiad o Gyfanswm yr Enillion a Cholledion Cydnabyddiedig
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008

| | Nodiadau | **Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008 £'000** | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2007 £'000 |
|---|---|---|---|
| Gwarged am y flwyddyn | | **8,310** | 22,106 |
| **Cynlluniau Pensiwn Budd Diffiniedig Ofcom** | | | |
| Enillion gwirioneddol wedi tynnu'r enillion disgwyliedig ar asedau cynlluniau | 25b | **4,660** | (380) |
| (Colledion)/enillion profiad ar rwymedigaethau cynlluniau pensiwn | 25b,c | **(1,855)** | 2,907 |
| Newidiadau yn y rhagdybiaethau sy'n sail i werth presennol rhwymedigaethau'r cynlluniau pensiwn | 25b,c | **24,018** | (2,128) |
| Cynnydd yn y gwarged anadferadwy | 25b | **(26,600)** | (5,900) |
| **Cyfanswm yr enillion cydnabyddedig am y flwyddyn** | | **8,533** | **16,605** |

Mae'r polisïau cyfrifyddu a'r nodiadau ar dudalennau 78 i 96 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Mantolen
## ar 31 Mawrth 2008

| | Nodiadau | **Ar 31 Mawrth 2008 £'000** | Ar 31 Mawrth 2007 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau sefydlog** | | | |
| Asedau anniriaethol | 9a | **11,196** | 8,294 |
| Asedau diriaethol | 9b | **17,802** | 20,965 |
| | | **28,998** | **29,259** |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Dyledwyr | 10 | **9,932** | 7,537 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 11 | **52,346** | 46,690 |
| | | **62,278** | **54,227** |
| Credydwyr – symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn un flwyddyn | 13 | **(56,516)** | (54,901) |
| **Asedau cyfredol clir /(dyledion)** | | **5,762** | (674) |
| **Cyfanswm yr asedau wedi tynnu'r dyledion cyfredol** | | **34,760** | 28,585 |
| Credydwyr – symiau sy'n dod yn ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn | 14 | **(299)** | (70) |
| Darpariaethau ar gyfer dyledion a ffioedd | 18 | **(3,852)** | (2,736) |
| **Asedau clir heb gynnwys asedau a rhwymedigaethau pensiwn** | | **30,609** | **25,779** |
| Asedau pensiwn | 12 | **9,840** | 6,170 |
| Rhwymedigaethau pensiwn | 12 | **(876)** | (909) |
| **Asedau clir yn cynnwys asedau a rhwymedigaethau pensiwn** | 19 | **39,573** | **31,040** |
| **Cronfeydd** | | | |
| Cyfrif incwm a gwariant | 19 | **39,573** | 31,040 |
| | | **39,573** | **31,040** |

Mae'r polisïau cyfrifyddu a'r nodiadau ar dudalennau 78 i 96 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn gan y Bwrdd ar 3 Mehefin 2008.

David Currie
Chairman

Ed Richards
Chief Executive

# Datganiad Llif Arian
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008

| | Nodiadau | **Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008 £'000** | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2007 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Mewnlif arian clir o weithgareddau gweithredu** | 20 | **16,482** | 6,258 |
| **Elw o fuddsoddi a gwasanaethu cyllid** | | | |
| Llog a gafwyd | | **1,619** | 1,642 |
| Llog a dalwyd | 8 | **(176)** | (411) |
| **Mewnlif arian clir ar gyfer elw o fuddsoddi a gwasanaethu cyllid** | | **1,443** | **1,231** |
| **Gwariant cyfalaf a buddsoddi ariannol** | | | |
| Taliadau i gael asedau sefydlog | | **(7,099)** | (9,470) |
| Enillion o waredu asedau sefydlog | | **16** | 75 |
| **All-lif arian clir o wariant cyfalaf a buddsoddi ariannol** | | **(7,083)** | **(9,395)** |
| **Mewnlif(all-lif) arian clir cyn cyllido** | | **10,842** | **(1,906)** |
| **Cyllido** | | | |
| Benthyciadau a ad-dalwyd | 15 | **(5,186)** | (5,186) |
| **All-lif arian clir o gyllido** | | **(5,186)** | **(5,186)** |
| **Cynnydd/(Lleihad) yn yr arian yn y flwyddyn** | | **5,656** | **(7,092)** |
| **Cysoni llif arian clir â symudiadau mewn cyllid clir** | | | |
| Cynnydd/(Lleihad) yn yr arian yn y flwyddyn | | **5,656** | (7,092) |
| Lleihad dyled yn y flwyddyn | 15 | **5,186** | 5,186 |
| Cyllid clir agoriadol | | **41,504** | 43,410 |
| **Cyllid clir terfynol** | | **52,346** | **41,504** |

Mae'r polisïau cyfrifyddu a'r nodiadau ar dudalennau 78 i 96 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn

# Nodiadau i'r Cyfrifon
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008

## 1. Polisïau cyfrifyddu

### A) SAIL CYFRIFYDDU

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi'u paratoi ar sail busnes gweithredol yn unol â'r cyfarwyddyd ar gyfrifon, sy'n rhan o'r Memorandwm Ariannol, gan yr Ysgrifenyddion Gwladol dros yr Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio (BERR) a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a roddwyd ar 16 Ionawr 2008.

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi'u paratoi dan y confensiwn cost hanesyddol, wedi'u haddasu drwy ailbrisio rhai asedau sefydlog ac maent yn cydymffurfio â gofynion Deddf Cwmnïau 1985, ac eithrio lle mae Deddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002 yn drech na hwy, a chyda safonau cyfrifyddu cymwysadwy.

### B) CYDNABOD INCWM

**Cymorth grant**

Mae'r incwm hwn yn cynnwys cymorth grant gan BERR i gwrdd â chostau rheoli sbectrwm, dyfarnu sbectrwm, clirio sbectrwm, cystadleuaeth ex post, budd cyhoeddus a chan DCMS mewn cysylltiad â llythrennedd yn y cyfryngau. Mae cymorth grant a geir gan BERR a DCMS yn cael ei ddyrannu a'i baru â chostau yn y flwyddyn y mae'n ymwneud â hi.

**Ffioedd gweinyddu rhwydweithiau a gwasanaethau**

Cyfrifir incwm sy'n cynnwys ffioedd gweinyddol a anfonebwyd gan Ofcom ar sail croniadau. Mae incwm sy'n fwy na chostau arian y Rhwydweithiau a'r gwasanaethau a chyfran o'r ad-daliadau ar fenthyciad yn cael eu dynodi'n incwm wedi'i ohirio ar y fantolen. Mae costau arian sy'n fwy na'r incwm a gafwyd yn cael eu dynodi fel dyledwr ar ddyddiad y fantolen.

**Ffioedd trwyddedau darlledu**

Incwm o ffioedd trwyddedau Darlledu yw'r swm a anfonebwyd i drwyddedeion a rhoddir cyfrif amdano ar sail croniadau. Mae incwm sy'n fwy na chostau arian Darlledu a chyfran o'r ad-daliadau ar fenthyciad yn cael eu dynodi'n incwm wedi'i ohirio ar y fantolen. Mae costau arian sy'n fwy na'r incwm a gafwyd yn cael eu dynodi fel dyledwr ar ddyddiad y fantolen.

**Ffioedd ymgeisio**

Mae ffioedd ymgeisio untro ar gyfer Darlledu a Rhwydweithiau a gwasanaethau yn rhai na ellir eu had-dalu ac, yn unol â hynny, fe'u cofnodir fel incwm ar ôl cael cais gan y rhanddeiliad.

**Incwm arall**

Rhoddir cyfrif am incwm arall ar sail croniadau a chaiff ei baru â'r gwariant y mae'n cyfrannu ato.

### C) DERBYNIADAU A GASGLWYD GAN OFCOM O FEWN CWMPAS ADRAN 400 O DDEDDF CYFATHREBIADAU 2003

Mae Taliadau Ychwanegol y Ddeddf Darlledu, cosbau a dirwyon a osodir gan Ofcom yn cael eu hanfon i'r Gronfa Gyfunol yn unol ag Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Ar ben hynny, mae ffioedd trwyddedau a godir gan Ofcom, o ganlyniad i roddi neu adnewyddu trwyddedau dan Ddeddfau Telegraffiaeth Ddi-wifr yn cael eu hanfon i BERR i'w talu i'r Gronfa Gyfunol.

Ni wneir unrhyw gofnodion yn y Datganiadau Ariannol hyn mewn cysylltiad â thrafodion sy'n ymwneud ag Adran 400 ac eithrio lle mae taliadau a ffioedd wedi'u casglu a hwythau ym mhrif gyfrif banc Ofcom ar ddyddiad y fantolen. Dangosir y rhain fel rhai sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol o fewn Credydwyr sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn.

Mae Ofcom yn paratoi set o ddatganiadau ariannol ar wahân hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn i ddibenion Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Gosodir y datganiadau ariannol hyn gerbron y Senedd.

### CH) PRYDLESI

Rhoddir gwybod am renti y gellir eu talu a'u derbyn dan brydlesi gweithredol yn y cyfrif Incwm a Gwariant. Yn achos adeiladau lle mae cyfnodau di-rent ar y dechrau, codir cyfanswm y rhenti sy'n daladwy yn y cyfnod hyd at yr adolygiad rhent cyntaf ar y cyfrif Incwm a Gwariant ar sail llinell syth dros y cyfnod hwnnw.

### D) PRYDLESI EIDDO RHWYMEDIGAETHUS

Lle bydd adeiladau'n dod yn ddiangen, cymerir cyngor proffesiynol ynghylch marchnata'r adeiladau hyn a darperir ar gyfer y rhwymedigaethau amcangyfrifol ar y prydlesi hyn ar gyfer y dyfodol ar y prisiau cyfredol, a'u disgowntio gan ddefnyddio cyfradd gostyngiad y Trysorlys o 2.2 y cant. Ni fydd incwm o renti yn y dyfodol ond yn cael ei gynnwys yn y cyfrifiad hwn i'r graddau ei fod yn rhesymol sicr.

# Nodiadau i'r Cyfrifon
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008

### DD) YMDDEOLIAD CYNNAR A CHOSTAU PENSIYNAU YN Y DYFODOL
Roedd yr Asiantaeth Radio-gyfathrebu ac Oftel yn rhedeg Cynllun Ymddeoliad Cynnar a roddai fuddion ymddeoliad i rai gweithwyr cymwys. Mae'r buddion hyn yn cydymffurfio â rheolau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Trosglwyddwyd atebolrwydd yr Asiantaeth ac Oftel i ddwyn costau'r buddion hyn i Ofcom ar 29 Rhagfyr 2003. Mae'r atebolrwydd yn parhau tan oed ymddeoliad arferol y gweithwyr a ymddeolodd dan y Cynllun Ymddeoliad Cynnar. Darperir ar gyfer y costau ychwanegol hyn, ar sail gwerth gostyngol y symiau blynyddol sy'n daladwy ar y fantolen. Mae'r union symiau sy'n daladwy'n codi o flwyddyn i flwyddyn yn unol â rheolau PCSPS.

### E) SETLO HAWLIADAU
Darperir ar gyfer amcangyfrif o gostau cyfreithiol ac iawndaliadau trydydd partïon mewn cysylltiad â phenderfyniadau rheoleiddio gan Ofcom a chyrff rhagflaenol lle bernir ei bod yn debygol y bydd y rhain yn daladwy.

### F) ASEDAU SEFYDLOG
Caiff asedau sefydlog eu prisio yn ôl eu cost neu amcangyfrif o gost eu cael yn newydd. Yn achos yr holl asedau heblaw adeiladau sydd ag oes ddefnyddiol economaidd fyr neu sydd â gwerth isel, mae cyfarwyddyd trysorlys yn caniatáu i Ofcom ddefnyddio cost hanesyddol ddibrisiedig yn lle prisiad cyfredol. Mae holl asedau Ofcom yn perthyn i'r categori hwn. Mae asedau sefydlog o fwy na £2,500 yn cael eu cyfalafu.

**Asedau anniriaethol**
Yn unol â FRS 10, mae gwariant ar feddalwedd cyfrifiadurol yn cael ei gyfalafu i'r graddau ei bod yn debygol y bydd yr ased yn creu buddion economaidd yn y dyfodol. Mae'r gwariant wedi'i gyfalafu'n cynnwys cost datblygu cymwysiadau meddalwedd a ffioedd trwyddedau cysylltiedig.

Codir amorteiddio ar gostau datblygu cyfalafog ar y datganiad incwm ar sail llinell syth, o'r mis ar ôl hwnnw pan ddechreuir defnyddio ased, dros oes ddefnyddiol amcangyfrifedig yr ased. Yr oes ddefnyddiol amcangyfrifedig yw tair i bum mlynedd.

**Asedau diriaethol**
Mae asedau sy'n cael eu llunio yn cynnwys costau a godir wrth ddatblygu systemau cyfrifiadur a fydd yn cymryd lle rhai o'r cymwysiadau presennol. Bydd gwariant a gaiff ei gyfalafu dan y pennawd hwn yn cael ei ddibrisio pan ddechreuir defnyddio'r ased.

Caiff asedau eu dibrisio ar ôl dechrau defnyddio'r ased. Darperir dibrisiant ar sail llinell syth, o'r mis ar ôl hwnnw pan ddechreuir defnyddio ased, dros oes economaidd ddefnyddiol amcangyfrifedig yr ased, fel a ganlyn:

| |
|---|
| Gosodiadau a ffitiadau – Gwelliannau Prydlesol |
| Cyfnod y brydles |
| Gosodiadau a ffitiadau – Dodrefn: |
| 7 mlynedd |
| Cyfarpar Maes a Swyddfa: |
| 4-7 mlynedd |
| Caledwedd gyfrifiadurol: |
| 3-5 mlynedd |
| Cerbydau Modur: |
| 5 mlynedd |

### FF) YMCHWIL A DATBLYGU
Mae gwariant ar ymchwil a datblygu'n cael ei ddileu wrth ei godi ar y cyfrif Incwm a Gwariant.

### G) BUDDION GWEITHWYR
Mae Ofcom yn cymryd rhan mewn dau gynllun pensiwn budd diffiniedig sy'n ymwneud â staff a drosglwyddodd i Ofcom o gyrff rhagflaenol. Nid yw'r cynlluniau hyn yn agored i aelodau newydd.

Mae Cynllun Pensiwn Budd Diffiniedig Ofcom yn darparu buddion sy'n cyfateb yn fras i rai PCSPS. Mae Ofcom yn cymryd rhan yn y cynllun ar y cyd â'r Awdurdod Safonau Hysbysebu. Yr ail gynllun yw Cynllun Pensiwn Staff Ofcom (ITC Cynt) lle mae Ofcom yn un o bedwar cyflogwr sy'n cymryd rhan. Mae asedau'r cynllun hwn wedi'u dal mewn ymddiriedolaeth sy'n cael ei gweinyddu ar wahân. Dilynir FRS 17 (Cyfrifyddu ar gyfer Rhwymedigaethau Cynlluniau Pensiwn) ac mae asedau clir y cynlluniau wedi'u cynnwys yn y fantolen. Dangosir cyfuniad o'r symudiad yn asedau clir y ddau gynllun yn y Datganiad o Gyfanswm yr Enillion a Cholledion Cydnabyddedig.

# Nodiadau i'r Cyfrifon
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008

Mae gan Ofcom rwymedigaethau hefyd mewn cysylltiad â thaliadau pensiwn i dri o gyn-gadeiryddion y Comisiwn Teledu Annibynnol, dau o gyn-gadeiryddion yr Awdurdod Radio a dau o gyn-Gyfarwyddwyr Cyffredinol y Swyddfa Rheoliadau Telathrebu. Cynlluniau sydd heb eu hariannu yw'r rhain a rhoddir cyfrif amdanynt dan FRS 17 ac mae darpariaeth wedi'i chynnwys ym mantolen Ofcom ar gyfer prisio'r rhwymedigaethau gan actiwari.

Caiff staff newydd ymuno â chynllun pensiwn rhanddeiliaid, sy'n gynllun cyfraniad diffiniedig. Mae cyfraniadau pensiwn sy'n daladwy i gynlluniau cyfraniad diffiniedig yn cael eu costio wrth eu codi.

Mae hawl gan gydweithwyr a gwblhaodd bum mlynedd o wasanaeth di-dor i gael cyfnod sabothol â thâl o 5 wythnos. Mae'r rhwymedigaeth ar ddiwedd y flwyddyn, wedi'i mesur yn unol ag egwyddorion FRS 12 ac UITF 25, wedi'i chynnwys fel rhan o'r croniadau. Mae hyn wedi'i seilio ar amcangyfrifon gorau'r rheolwyr gan ddefnyddio data ar gyflogau a chyfraddau trosiant staff cyfredol. O 1 Ionawr 2008, roedd y budd hwn wedi'i dynnu'n ôl i rai sy'n ymuno o'r newydd.

### NG) CYFNEWID ARIAN TRAMOR

Mae trafodion sydd wedi'u dynodi mewn arian tramor yn cael eu trosi'n sterling ar y gyfradd gyfnewid sy'n bod ar ddyddiad y trafodion. Mae asedau a rhwymedigaethau ariannol sydd wedi'u dynodi mewn arian tramor yn cael eu trosi ar y cyfraddau sy'n bod ar ddyddiad y fantolen a chydnabyddir yr elw a'r golled a geir o ganlyniad yn y cyfrif Incwm a Gwariant ar gyfer y flwyddyn.

### H) OFFERYNNAU ARIANNOL A RISG CREDYD

Cafodd Ofcom fenthyciad cyllid cychwynnol o £52.3 miliwn gan BERR i ariannu ei gostau sefydlu a'i gostau rhedeg cyn rhoi pwerau i bennu ffioedd trwyddedu a gweinyddu dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Yn ystod y flwyddyn ariannol, gwnaeth Ofcom yr ad-daliadau terfynol ar y benthyciad. Pennwyd y cyfraddau llog ar gyfer y benthyciadau a gafwyd gan BERR ar gyfer cyfnod y benthyciad ac roedd ad-daliadau'n ddyledus bob chwe mis.

Mae'r llog wedi'i gydnabod dros gyfnod y benthyciad a'i gyfrifo'n unol â thelerau'r benthyciad.

Mae gan Ofcom bwerau cyfyngedig i gymryd arian ar fenthyg i ariannu amrywiadau tymor byr yn y llif arian. Mae arian dros ben a grëir drwy weithrediadau Ofcom yn cael ei ddal fel gweddillau banc.

### I) TRETH

Mae Cyllid a Thollau EM wedi dyfarnu nad yw swyddogaethau rheoleiddio Ofcom yn fusnes masnachu. O ganlyniad i hynny, nid yw Ofcom yn gallu adennill TAW ar wariant y mae'n ei godi fel rhan o'i weithgareddau rheoleiddio.

Gellir asesu Treth Gorfforaeth ar log a geir, ac mewn cysylltiad â rhent sy'n codi ar ôl gwariant eiddo ar adeiladau diangen.

Ar ddyddiad y fantolen, roedd gan Ofcom golledion treth heb eu defnyddio a oedd ar gael i wrthbwyso incwm yn y dyfodol a allai fod yn ddarostyngedig i Dreth Gorfforaeth. Mae'r colledion hyn wedi digwydd o ganlyniad i ddarpariaethau prydlesi rhwymedigaethus ar adeiladau a gafwyd gan gyrff a'i rhagflaenodd nad oedd eu hangen pan ffurfiwyd Ofcom. Nid yw ased treth gohiriedig wedi'i gydnabod gan nad oes digon o dystiolaeth y gellid ei adennill, oherwydd natur ansicr yr incwm trethadwy yn y dyfodol.

### J) TÂL CYFALAF

O dan delerau Memorandwm Ariannol Ofcom a roddwyd gan BERR, rhoddir credyd, sy'n adlewyrchu'r elw o gyfalaf Ofcom (yn unol ag arferion cyfrifyddu safonol llywodraeth), i'r gwarged cyn trethu. Cyfrifir y tâl yn unol ag arweiniad Trysorlys EM ar 3.5 y cant o swm yr holl asedau perthnasol sy'n agored i'w trethu wedi tynnu'r rhwymedigaethau perthnasol. Gwrthdroir y tâl hwn i bennu'r gwarged a gadwyd ar weithgareddau arferol ar ôl trethu.

### L) DADANSODDI CYLCHRANNOL

Er mwyn tryloywder ac i fodloni gofynion Deddf Cyfathrebiadau 2003 i roi gwybodaeth am gostau a ffioedd, mae Nodyn 2 i'r datganiadau ariannol hyn yn cyflwyno'r cyfrif Incwm a Gwariant ar gyfer y flwyddyn dan sylw yn ôl sector. Fel corfforaeth gyhoeddus, nid yw'n ofynnol i Ofcom gyflwyno gwybodaeth yn unol ag SSAP 25.

# Nodiadau i'r Cyfrifon
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008

## 2. Dadansoddiad yn ôl sector

Mae'r dadansoddiad isod yn cyfeirio at incwm yn ôl sector ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008, ynghyd â chostau priodoladwy.

| | Rheoli sbectrwm £'000 | Clirio sbectrwm £'000 | Dyfarnu sbectrwm £'000 | Rhwydweithiau a gwasanaethau £'000 | Darlledu £'000 | Incwm arall £'000 | Cyfanswm 31 Mawrth 2008 £'000 | Cyfanswm 31 Mawrth 2007 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Refeniw | | | | | | | | |
| Ffioedd trwyddedu a gweinyddu | - | - | - | 26,229 | 28,552 | - | 54,781 | 56,091 |
| Ffioedd am geisiadau | - | - | - | 40 | 640 | - | 680 | 1,570 |
| Cymorth grant | 73,101 | 3,000 | 3,012 | - | - | 2,453 | 81,566 | 82,640 |
| Incwm arall | - | - | - | - | - | 2,047 | 2,047 | 2,000 |
| Incwm wedi'i gronni/(gohirio) | (42) | - | (395) | 1,229 | 1,253 | (138) | 1,907 | 791 |
| **Cyfanswm y refeniw** | **73,059** | **3,000** | **2,617** | **27,498** | **30,445** | **4,362** | **140,981** | **143,092** |
| Rhenti ac Incwm arall | 796 | - | - | 271 | 301 | 47 | 1,415 | 516 |
| **Incwm gweithredu** | **73,855** | **3,000** | **2,617** | **27,769** | **30,746** | **4,409** | **142,396** | **143,608** |
| Llog y gellir ei dderbyn | 934 | - | - | 319 | 354 | 56 | 1,663 | 1,697 |
| **Cyfanswm yr incwm** | **74,789** | **3,000** | **2,617** | **28,088** | **31,100** | **4,465** | **144,059** | **145,305** |
| Ad-daliadau benthyciadau | - | - | - | (2,476) | (2,710) | - | (5,186) | (5,186) |
| Llog sy'n daladwy | - | - | - | (84) | (92) | - | (176) | (411) |
| **Incwm Gweithredu Clir** | **74,789** | **3,000** | **2,617** | **25,528** | **28,298** | **4,465** | **138,697** | **139,708** |
| Incwm o eiddo rhwymedigaethus ac incwm rhent wedi'i gronni | (48) | - | - | (16) | (18) | (4) | (86) | 814 |
| **Incwm Arian** | **74,741** | **3,000** | **2,617** | **25,512** | **28,280** | **4,461** | **138,611** | **140,522** |
| **Cyfanswm y costau** | **(74,741)** | **(3,000)** | **(2,617)** | **(25,512)** | **(28,280)** | **(4,461)** | **(138,611)** | **(140,522)** |
| **Gwarged ar sail cost am arian** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |

| **COSTAU CYMHAROL YN ÔL SECTOR** | | | | | | | **Effeithlonrwydd Sbectrwm **** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008** | **(74,741)** | **(3,000)** | **(2,617)** | **(25,512)** | **(28,280)** | **(4,461)** | **-** | **(138,611)** |
| Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2007 | (73,544) | - | (1,710) | (23,515) | (30,450) | (4,939) | (6,364) | (140,522) |

** Peidiodd y cyllid ar wahân ar ffurf cymorth grant ar gyfer y cynllun effeithlonrwydd sbectrwm, a roddwyd i gwrdd â chostau prosiectau ymchwil a datblygu Ofcom ar gyfer sbectrwm ddiwedd 2007. O 2008 ymlaen daw'r costau hyn dan wariant a ariannwyd drwy gymorth grant i reoli sbectrwm. Hefyd, o 2008 ymlaen, mae Ofcom wedi derbyn (neu'n cael) cyllid ar ffurf cymorth grant i glirio sbectrwm, i hybu cynllunio tymor hir a defnydd effeithlon mewn cysylltiad â'r sbectrwm.

Mae incwm arall yn cynnwys:
- cymorth grant i ariannu ymchwiliadau i gystadleuaeth;
- cymorth grant i ariannu gwaith llythrennedd yn y cyfryngau;
- gweithgareddau masnachol gan gynnwys gwaith ar ymyriant â sbectrwm; a
- rental income from sub-letting vacant property space.

Yn unol â pholisïau cyfrifyddu Ofcom, fel y maent wedi'u nodi yn Nodyn 1(b) i'r cyfrifon hyn, rhoddir cyfrif am gymorth grant yn y cyfnod pan ddaw i law.

# Nodiadau i'r Cyfrifon
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008

## 2. Dadansoddiad yn ôl sector (parhad)

Mae'r tabl ar y dudalen flaenorol wedi'i baratoi ar sail arian wedi'i addasu, sy'n cynnwys gwariant cyfalaf a chyfraniadau gwirioneddol i gynlluniau pensiwn, ond nid dibrisiant.

Mae ffioedd trwyddedu a gweinyddu Ofcom wedi'u seilio ar amcangyfrif o gostau arian yn unol â'i Ddatganiad o Egwyddorion Codi Tâl. Lle ceir mwy o incwm na gwariant yn y flwyddyn gyfredol, ad-delir y gwarged i'r rhanddeiliaid perthnasol, yn unol â Datganiad o Egwyddorion Codi Tâl Ofcom. Lle ceir mwy o wariant nag incwm yn y flwyddyn gyfredol, cesglir y diffyg oddi wrth y rhanddeiliaid perthnasol, yn unol â Datganiad o Egwyddorion Codi Tâl Ofcom.

**CYSONI'R GWARIANT GWEITHREDU Â'R ALLDRO GWEITHREDU GWIRIONEDDOL**

| | Nodiadau | **2008 £'000** | 2007 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Gwariant gweithredu - cyfrif incwm a gwariant** | | **133,942** | 125,175 |
| Addasiadau mewn cysylltiad ag asedau a rhwymedigaethau pensiwn | | **3,620** | 1,640 |
| Costau eiddo gwag | 18 | **63** | 7,645 |
| Gwariant cyfalaf wedi tynnu dibrisiant | | **1,272** | 2,133 |
| Taliadau rhent gwirioneddol wedi tynnu gwariant | | **1,399** | 2,795 |
| Addasiadau eraill | | **(1,669)** | 1,209 |
| Enillion o asedau sefydlog | | **(16)** | (75) |
| **Gwariant gweithredu mewn arian** | | **138,611** | **140,522** |
| Costau effeithlonrwydd sbectrwm | | **-** | (6,364) |
| Clirio sbectrwm | | **(3,000)** | - |
| Dyfarnu sbectrwm | | **(2,617)** | (1,710) |
| Incwm heblaw o weithredu | | **(2,992)** | (3,028) |
| **Alldro Costau Gweithredu Gwirioneddoln** | | **130,002** | **129,420** |

## 3. Incwm

| | **2008 £'000** | 2007 £'000 |
|---|---|---|
| Cymorth grant – BERR – Rheoli sbectrwm | **73,059** | 71,862 |
| Cymorth grant – BERR – Cynllun effeithlonrwydd sbectrwm | **-** | 6,364 |
| Cymorth grant – BERR – Cynllun clirio sbectrwm | **3,000** | - |
| Cymorth grant – BERR – Rhaglen arwerthiannau sbectrwm | **2,617** | 1,710 |
| Cymorth grant – BERR – Gorfodi cyfraith cystadleuaeth | **1,414** | 2,204 |
| Cymorth grant – DCMS – Llythrennedd y cyfryngau | **673** | 445 |
| Cymorth grant – BERR – Prawf Budd Cyhoeddus | **246** | 125 |
| **Cyfanswm y cymorth grant gan lywodraeth** | **81,009** | **82,710** |
| Ffioedd gweinyddu a cheisiadau rhwydweithiau a gwasanaethau | **27,498** | 25,650 |
| Ffioedd trwyddedau a cheisiadau dan Ddeddf Darlledu | **30,445** | 32,679 |
| Incwm o rent | **1,352** | 461 |
| Incwm arall | **2,092** | 2,108 |
| **Incwm** | **142,396** | **143,608** |

# Nodiadau i'r Cyfrifon
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008

## 4. Costau staff

| | 2008 £'000 | 2007 £'000 |
|---|---|---|
| **Y costau staff, gan gynnwys ffioedd a dalwyd i Aelodau'r Bwrdd, oedd:** | | |
| Cyflogau a buddion | 47,270 | 43,668 |
| Costau Yswiriant Gwladol | 5,044 | 5,034 |
| Costau pensiwn | 6,330 | 5,863 |
| Costau ailstrwythuro | 2,137 | 1,183 |
| **Cyfanswm y Costau Staff** | **60,781** | **55,748** |

Mae'r gost ailstrwythuro'n cynnwys darparu ar gyfer 32 (2007: 16) o weithwyr.

Mae gwybodaeth fanylach am dâl a hawliau pensiwn y cyfarwyddwyr a'r uwch weithredwyr yn yr adroddiad tâl ar dudalennau 65 i 71.

## 5. Nifer y gweithwyr

| | 2008 | 2007 |
|---|---|---|
| Nifer cyfartalog y gweithwyr oedd | 810 | 789 |

Ar 31 Mawrth 2008, roedd gan Ofcom 812 o weithwyr (2007: 800).

Nid yw Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom, y Bwrdd Cynnwys, Pwyllgorau Ymgynghori a gweithwyr a secondiwyd i Ofcom wedi'u cynnwys yn nifer y gweithwyr.

## 6. Costau gweithredu eraill

| | 2008 £'000 | 2007 £'000 |
|---|---|---|
| Tâl i archwilwyr – ffioedd archwilio statudol | 85 | 85 |
| Ffioedd proffesiynol | 15,816 | 11,243 |
| Gwasanaethau a gafwyd yn allanol | 10,249 | 10,770 |
| Ymchwil i gynulleidfaoedd a defnyddwyr | 5,154 | 4,969 |
| Prosiectau ymchwil dechnolegol ac effeithlonrwydd sbectrwm | 2,795 | 6,849 |
| Staff wedi'u secondio | 93 | 491 |
| Staff dros dro a recriwtio | 5,190 | 4,628 |
| Teithio a chynhaliaeth | 1,711 | 1,741 |
| Costau gwybodaeth a thechnoleg | 2,877 | 2,338 |
| Treuliau gweinyddu a rhedeg swyddfeydd | 9,017 | 11,619 |
| Cynllun clirio sbectrwm | 3,000 | - |
| Costau adeiladau | 10,825 | 7,608 |
| Elw o waredu asedau sefydlog | (1) | (16) |
| Amorteiddio | 2,462 | 1,356 |
| Dibrisiant | 3,888 | 5,746 |
| **Cyfanswm y Costau Gweithredu Eraill** | **73,161** | **69,427** |
| **Mae'r costau, uchod, yn cynnwys:** | | |
| Prydlesi gweithredol – tir ac adeiladau | 7,971 | 3,648 |
| Prydlesi gweithredol – eraill | 115 | 106 |

Mae cyfanswm y costau gweithredu eraill yn cynnwys costau effeithlonrwydd sbectrwm o ddim (2007: £6.4 miliwn) a £2.6 miliwn (2007: £1.7 miliwn) o wariant ar y rhaglen dyrannu sbectrwm.

Mae costau'r flwyddyn flaenorol am wasanaethau a gafwyd yn allanol a gwybodaeth a thechnoleg wedi'u haddasu i sicrhau bod modd eu cymharu â ffigurau'r flwyddyn gyfredol.

# Nodiadau i'r Cyfrifon
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008

## 7. Credyd eithriadol

| | **2008 £'000** | 2007 £'000 |
|---|---|---|
| Costau adeiladau gwag yn y dyfodol | **126** | 2,878 |

Mae'r credyd am eiddo gwag yn ymwneud â dau (2007: pump) o adeiladau ar brydles nad oes ar Ofcom eu hangen.
Mae'r credyd yn 2007 yn ymwneud â'r addasiad clir yn rhwymedigaethau'r dyfodol sy'n codi'n bennaf o ildio prydles yn ystod y flwyddyn.

## 8. Llog sy'n daladwy

| | **2008 £'000** | 2007 £'000 |
|---|---|---|
| Ar fenthyciad BERR | **176** | 411 |

## 9. Asedau sefydlog
### (A) ANNIRIAETHOL

| | **Meddalwedd cyfrifiadur £'000** | **Cyfanswm £'000** |
|---|---|---|
| **COST** | | |
| Ar 1 Ebrill 2007 | 11,406 | 11,406 |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 4,088 | 4,088 |
| Gwarediadau | (5) | (5) |
| Trosglwyddiadau | 1,267 | 1,267 |
| **Cost ar 31 Mawrth 2008** | **16,756** | **16,756** |
| **AMORTEIDDIO** | | |
| Ar 1 Ebrill 2007 | 3,112 | 3,112 |
| Ffi am y flwyddyn | 2,462 | 2,462 |
| Gwarediadau | (4) | (4) |
| Trosglwyddiadau | (10) | (10) |
| **Amorteiddio wedi'i gronni ar 31 Mawrth 2008** | **5,560** | **5,560** |
| **Gwerth llyfr clir ar 31 Mawrth 2008** | **11,196** | **11,196** |
| Gwerth llyfr clir ar 31 Mawrth 2007 | 8,294 | 8,294 |

# Nodiadau i'r Cyfrifon
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008

## 9. Asedau sefydlog (parhad)

**(B) DIRIAETHOL**

| | Gwelliannau i eiddo prydlesol £'000 | Gosodiadau a ffitiadau £'000 | Cyfarpar maes a swyddfa £'000 | Caledwedd cyfrifiadur £'000 | Cerbydau modur £'000 | Asedau'n cael eu llunio £'000 | **Cyfanswm £'000** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **COST** | | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2007 | 1,259 | 15,530 | 13,043 | 3,969 | 1,307 | 3,789 | 38,897 |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 40 | 525 | 421 | 957 | - | 1,593 | 3,536 |
| Colled oherwydd amharu | | (2,782) | | | | | (2,782) |
| Gwarediadau | - | (5) | (122) | (25) | - | - | (152) |
| Trosglwyddiadau | 10,271 | (10,271) | 10 | - | - | (1,277) | (1,267) |
| **Cost ar 31 Mawrth 2008** | **11,570** | **2,997** | **13,352** | **4,901** | **1,307** | **4,105** | **38,232** |
| **DIBRISIANT** | | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2007 | 309 | 6,712 | 7,696 | 2,241 | 974 | | 17,932 |
| Ffi am y flwyddyn | 628 | 387 | 1,820 | 854 | 199 | | 3,888 |
| Colled oherwydd amharu | | (1,262) | | | | | (1,262) |
| Gwarediadau | - | (2) | (111) | (25) | - | | (138) |
| Trosglwyddiadau | 4,664 | (4,664) | 10 | - | - | | 10 |
| **Dibrisiant wedi'i gronni ar 31 Mawrth 2008** | **5,601** | **1,171** | **9,415** | **3,070** | **1,173** | | **20,430** |
| | | | | | | | |
| **Gwerth llyfr clir ar 31 Mawrth 2008** | **5,969** | **1,826** | **3,937** | **1,831** | **134** | **4,105** | **17,802** |
| Gwerth llyfr clir ar 31 Mawrth 2007 | 950 | 8,818 | 5,347 | 1,728 | 333 | 3,789 | 20,965 |

Mae Asedau'n cael eu llunio yn ymwneud â datblygu system drwyddedu newydd.

Nid yw Ofcom yn berchen ar unrhyw eiddo rhydd-ddaliadol, felly mae'r pennawd wedi'i newid yn 'Gwelliannau i Eiddo Prydles'. Mae asedau gwerth £10.2 miliwn wedi'u trosglwyddo i 'Gwelliannau i Eiddo Prydles' er mwyn dangos natur yr asedau'n gywir.

Mae asedau sy'n ymwneud ag adnewyddu adeiladau nad yw Ofcom yn eu meddiannu bellach wedi'u dileu.

## 10. Dyledwyr

| | **2008 £'000** | 2007 £'000 |
|---|---|---|
| Dyledwyr masnach | 1,354 | 1,360 |
| Dyledwyr eraill | 270 | 140 |
| Taliadau ymlaen llaw | 3,322 | 2,538 |
| Benthyciadau a blaensymiau i staff | 270 | 269 |
| Incwm wedi'i gronni | 4,716 | 2,888 |
| Treth ar werth y gellir ei adennill | - | 342 |
| | **9,932** | **7,537** |

Wedi'i gynnwys yn 'Incwm wedi'i gronni' uchod mae £0.7 miliwn (2007: £0.7 miliwn) o ddyledion dyledwyr y gellir eu hadennill ar ôl mwy na blwyddyn. Mae benthyciadau staff yn cynnwys 207 (2007:212) o fenthyciadau tocyn tymor.

# Nodiadau i'r Cyfrifon
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008

## 11. Arian yn y banc ac mewn llaw

| | **2008 £'000** | 2007 £'000 |
|---|---|---|
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 52,247 | 46,599 |
| Swyddfa'r Tâl-feistr Cyffredinol | 99 | 91 |
| | **52,346** | **46,690** |

Mae'r holl weithgareddau a gweddillau arian sy'n ymwneud â Ffioedd Trwyddedau a Chosbau wedi'u gwahanu oddi wrth gyfrifon Ofcom ac wedi'u datgelu yn y cyfrifon Adran 400. Ar 31 Mawrth 2008 roedd Ofcom yn dal dim (2007: £1.5 miliwn) arian wedi'i ddatgelu fel arian yn y banc uchod, a oedd yn ddyledus i'r Gronfa Gyfunol.

## 12. Asedau a rhwymedigaethau pensiwn

| | **2008 £'000** | 2007 £'000 |
|---|---|---|
| Gwarged cynlluniau pensiwn budd diffiniedig | 9,840 | 6,170 |
| Rhwymedigaethau pensiwn heb eu hariannu | (876) | (909) |

Mae mwy o fanylion am gynlluniau pensiwn Ofcom yn Nodyn 25 i'r cyfrifon hyn.

## 13. Credydwyr – symiau'n dod yn ddyledus o fewn un flwyddyn

| | **2008 £'000** | 2007 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol | - | 1,456 |
| Credydwyr masnach | 7,654 | 4,852 |
| Treth a nawdd cymdeithasol arall | 1,613 | - |
| Credydwyr eraill | 508 | 485 |
| Treth ar werth sy'n daladwy | 1,083 | - |
| Cymorth grant BERR | 28,084 | 25,802 |
| Cymorth grant DCMS | - | 114 |
| Cyllid wedi'i fenthyca oddi wrth BERR | - | 5,186 |
| Croniadau | 16,674 | 15,240 |
| Incwm wedi'i ohirio | 900 | 1,766 |
| | **56,516** | **54,901** |

Y symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol yw dim (2007: £1.5 miliwn) am ffioedd trwyddedau dan y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr a dderbyniwyd yng nghronfa banc Ofcom. (Gweler Nodyn 11.) Mae 'credydwyr eraill' yn cynnwys £0.1 miliwn (2007: £0.4 miliwn) o gyllid Grant Radio Cymunedol a gafwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS). Talwyd yr holl arian grant a gafwyd i'r ymgeiswyr llwyddiannus yn Ebrill 2008.

# Nodiadau i'r Cyfrifon
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008

### 14. Credydwyr – symiau'n dod yn ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn

| | **2008 £'000** | 2007 £'000 |
|---|---|---|
| Credydwr rhent am ddim | - | 21 |
| Incwm wedi'i ohirio | 299 | 49 |
| | **299** | **70** |

### 15. Dadansoddiad o symudiadau benthyciad BERR

| | **2008 £'000** | 2007 £'000 |
|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2007 | 5,186 | 10,372 |
| Ad-dalwyd yn y flwyddyn | (5,186) | (5,186) |
| **Ar 31 Mawrth 2008** | **-** | **5,186** |

### 16. Amserlen benthyciadau

| | Ad-daliad cyntaf | Ad-daliad olaf | Benthyciad gwreiddiol £'000 | Ad-dalwyd mewn blynyddoedd blaenorol £'000 | Ad-dalwyd yn 2008 £'000 | Swm y benthyciad yn weddill ar 31 Mawrth 2008 £'000 | Cyfradd llog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 15-Rhagfyr-03 | Sep-04 | Mar-08 | 11,920 | 8,940 | 2,980 | - | 4.6% |
| 2-Ionawr-04 | Sep-04 | Mar-08 | 8,825 | 6,619 | 2,206 | - | 4.5% |
| | | | **20,745** | **15,559** | **5,186** | **-** | |

Y gyfradd llog gyfartalog wedi'i phwysoli ar 31 Mawrth 2008 yw 4.5 y cant (2007: 4.5 y cant).

Yn unol â chytundeb dyddiedig 14 Hydref 2003, darparodd BERR gyllid ar ffurf benthyciad cyfradd benodedig yn y cyfnodau cyn i Ofcom greu incwm. Pennwyd y cyfraddau llog drwy gyfeirio at brif gyfradd llog Trysorlys EM ar ddyddiadau tynnu i lawr y benthyciad.

### 17. Aeddfedu benthyciadau BERR

| | **2008 £'000** | 2007 £'000 |
|---|---|---|
| Llai nag un flwyddyn | - | 5,186 |
| | **-** | **5,186** |

Nid oes gwahaniaeth rhwng gwerth llyfr a gwerth teg y benthyciad ar ddyddiad y fantolen.

# Nodiadau i'r Cyfrifon
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008

## 18. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a ffioedd

| | Ymddeoliad cynnar £'000 | Eiddo gwag £'000 | Ailstrwythuro £'000 | Darpariaeth gyfreithiol £'000 | **Cyfanswm £'000** |
|---|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2007 | 1,335 | 438 | 858 | 105 | 2,736 |
| Gostyngiad a ddad-ddirwynwyd yn y flwyddyn | 29 | 10 | | | 39 |
| Defnyddiwyd yn y flwyddyn | (377) | (63) | (858) | | (1,298) |
| Darpariaeth (a ryddhawyd)/a gynyddwyd | (134) | (126) | 1,685 | 950 | 2,375 |
| **Ar 31 Mawrth 2008** | **853** | **259** | **1,685** | **1,055** | **3,852** |

Mae'r darpariaethau wedi'u cyfrifo'n unol â gofynion FRS 12. Gostyngir y darpariaethau 2.2 y cant (2007: 2.2 y cant) y flwyddyn.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer ymddeoliad cynnar o £0.9 miliwn (2007: £1.3 miliwn) yn un ar gyfer costau ymddeoliad cynnar cyn-weithwyr Oftel, yr Asiantaeth Radiogyfathrebiadau ac Ofcom ac mae'n daladwy'n bennaf yn y cyfnodau hyd at 2014.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer eiddo gwag yn cynnwys dau (2007: tri) o adeiladau a oedd wedi'u meddiannu cynt gan gyrff rhagflaenol nad oes eu hangen. Cymerwyd cyngor proffesiynol ynghylch marchnata eiddo gwag a chaiff llifoedd incwm eu cydnabod yn y dyfodol pryd y mae'n rhesymol sicr y caiff adeiladau eu hisosod. Y ddarpariaeth yw gwerth presennol clir yr all-lifoedd arian disgwyliedig wedi'u cyfrifo hyd at y toriad prydles cyntaf, wedi tynnu gwerth gostyngol llifoedd incwm a sicrheir yn y dyfodol o gytundebau isosod rhwymedig a rhesymol sicr yn y dyfodol.

Darpariaeth o £1.7 miliwn (2007: £0.9 miliwn) ar gyfer costau diswyddo yn y dyfodol y disgwylir eu talu yn y flwyddyn ariannol ddilynol.

Mae darpariaethau cyfreithiol yn adlewyrchu asesiad o gostau sy'n ymwneud â herio penderfyniadau rheoleiddio y disgwylir iddynt godi o fewn un neu ddwy o flynyddoedd.

## 19. Cronfeydd

| | **2008 £'000** | 2007 £'000 |
|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2007 | 31,040 | 14,435 |
| Enillion/(colledion) actiwaraidd ar gynlluniau pensiwn budd diffiniedig | 223 | (5,501) |
| Gwarged am y flwyddyn ariannol | 8,310 | 22,106 |
| **Ar 31 Mawrth 2008** | **39,573** | **31,040** |

| | **2008 £'000** | 2007 £'000 |
|---|---|---|
| Cronfa incwm a gwariant heb gynnwys asedau a rhwymedigaethau pensiwn | 35,572 | 27,262 |
| Cronfa bensiwn | 4,001 | 3,778 |
| **Ar 31 Mawrth 2008** | **39,573** | **31,040** |

# Nodiadau i'r Cyfrifon
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008

### 20. Cysoni'r gwarged gweithredu â'r mewnlif arian clir o weithgareddau gweithredu

| | **2008 £'000** | 2007 £'000 |
|---|---|---|
| Gwarged gweithredu | 8,454 | 18,433 |
| Amorteiddio | 2,462 | 1,356 |
| Dibrisiant | 3,888 | 5,746 |
| Elw o waredu asedau sefydlog | (1) | (16) |
| (Cynnydd)/Lleihad) o ran dyledwyr | (2,351) | 5,476 |
| Cynnydd/(Lleihad) o ran credydwyr | 6,505 | (15,340) |
| Cynnydd /(Lleihad) o ran darpariaethau | 1,203 | (7,699) |
| Cynnydd o ran asedau a rhwymedigaethau pensiwn | (3,678) | (1,698) |
| **Mewnlif arian clir o weithgareddau gweithredu** | **16,482** | **6,258** |

### 21. Cost cyfalaf
Ar gyfer benthyciad BERR, cost cyfalaf yw'r llog sy'n daladwy yn y flwyddyn. Y llog y gellir ei dderbyn yw'r elw ariannol ar gyfrifon arian.

Ar gyfer yr holl asedau clir eraill (ac eithrio credydwyr y Gronfa Gyfunol, sydd heb eu cynnwys yn unol ag arferion cyfrifyddu safonol y Llywodraeth), mae cost cyfalaf wedi'i chyfrifo ar 3.5 y cant (2007: 3.5 y cant) y flwyddyn yn unol ag arweiniad Trysorlys EM.

### 22. Ymrwymiadau dan brydlesi gweithredol

| | Tir ac adeiladau £'000 | Arall £'000 | **Cyfanswm** £'000 |
|---|---|---|---|
| Ymrwymiadau blynyddol dan brydlesi gweithredol sy'n dod i ben: | | | |
| o fewn un flwyddyn | 4 | - | 4 |
| rhwng dwy a phum mlynedd | 126 | 115 | 241 |
| ar ôl pum mlynedd | 6,331 | - | 6,331 |
| **Cyfanswm** | **6,461** | **115** | **6,576** |

Nid yw'r ymrwymiadau uchod yn cynnwys taliadau rhent ychwanegol a allai godi o brydles sy'n cael ei hadolygu ar hyn o bryd yn unol â thelerau'r brydles.

# Nodiadau i'r Cyfrifon
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008

### 23. Is-gwmnïau
Ymgorfforwyd Broadcast Training and Skills Regulator Cyfyngedig ar 6 Gorffennaf 2005. Prif weithgarwch y cwmni yw rheoleiddio hyfforddiant yn y diwydiant darlledu. Mae'r cwmni'n gyfyngedig drwy warant ac Ofcom yw ei unig aelod. Yn ystod y flwyddyn roedd gan y cwmni drosiant o £0.3 miliwn (2007: £0.3 miliwn), colled weithredol ar ôl talu treth o £0.2 miliwn (2007: £0.0 miliwn o elw) a chronfeydd o £0.0 miliwn (2007: £0.2 miliwn). Oherwydd maint a graddau gweithrediadau'r is-gwmni yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol, nid yw canlyniadau gweithredu'r cwmni wedi'u cyfuno â'r adroddiad hwn.

### 24. Gwasanaeth Cyfryngau Gaeleg
Yn unol ag Adran 210 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ac Adran 183 o Ddeddf Darlledu 1990, talodd Gweinidogion yr Alban £12.1 miliwn (2007: £11.8 miliwn) i Ofcom. Nid yw'r swm hwn wedi'i adlewyrchu yn y cyfrifon hyn ond mae wedi'i dalu gan Ofcom i'r Gronfa Ddarlledu Gaeleg dan reolaeth Seirbheis nam Meadhanan Gàidhlig (y Gwasanaeth Cyfryngau Gaeleg). Mae'r Gwasanaeth Cyfryngau Gaeleg yn paratoi adroddiadau a chyfrifon ar wahân hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn. Mae Ofcom yn anfon y rhain at Ysgrifennydd Gwladol yr Alban a Gweinidogion yr Alban i'w gosod o flaen Senedd yr Alban.

### 25. Pensiynau
#### A) CYNLLUN PENSIWN RHANDDEILIAID
Prif ddull Ofcom o ddarparu buddion pensiwn i'w gydweithwyr yw drwy gyfrannu i gynllun pensiwn rhanddeiliaid, sy'n gynllun pensiwn cyfraniad diffiniedig. Rhoddwyd gwerth £3.1 miliwn o gyfraniadau gan y cyflogwr yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008 (2007: £3.1 miliwn).

#### B) CYNLLUNIAU PENSIWN CAEËDIG
Mae Ofcom yn gweithredu dau gynllun pensiwn budd diffiniedig caeëdig:

Mae'n ofynnol i'r actiwariaid wneud prisiad actiwaraidd llawn o'r cynlluniau cyn pen tair blynedd ar ôl y prisiad actiwaraidd diwethaf. Mae'r actiwariaid yn amcanestyn gwerth diwedd blwyddyn y rhwymedigaethau gan ddefnyddio'r prisiadau actiwaraidd llawn fel sylfaen.

- Sefydlwyd Cynllun Pensiwn Budd Diffiniedig Ofcom ar 29 Rhagfyr 2003. Gwnaed prisiad actiwaraidd llawn ar 31 Mawrth 2007 gan actiwari annibynnol cymwysedig. Y cyfraniad gan y cyflogwr i Gynllun Pensiwn Budd Diffiniedig Ofcom ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008 oedd £1.8 miliwn (2007: £3.4 miliwn). Roedd hyn yn cynnwys dim (2007: £1.0 miliwn) a dalwyd ymlaen llaw. Adolygir y gyfradd hon ar ôl y prisiad actiwaraidd nesaf. Mae Ofcom hefyd yn gweithredu adran cyfraniad ddiffiniedig i'r cynllun a gwnaeth gyfraniadau o £0.1 miliwn yn 2008 (2007: £0.1 miliwn);
- Cynllun Pensiwn Ofcom (ITC cynt) y mae Ofcom yn cymryd rhan ynddo ar y cyd â thri chorff arall, S4C, S4C Masnachol a'r Awdurdod Safonau Hysbysebu. Gwnaed prisiad actiwaraidd llawn ar gyfer y cynllun hwn ar 1 Ionawr 2007. Cyfraniad y cyflogwr i Gynllun Pensiwn Ofcom (ITC cynt) yn 2008 oedd £3.3 miliwn (2007: £1.2 miliwn). Mae hyn yn cynnwys taliad ymlaen llaw o £3 miliwn (2007: £1 filiwn).

Defnyddiwyd y gyfradd uned amcanestynedig i gael y gost gwasanaethu ar gyfer y cynlluniau hyn. Dan y dull hwn, bydd y gost gwasanaethu gyfredol yn cynyddu (o'i mesur fel canran o gostau cyflog) wrth i aelodau'r cynllun nesáu at eu hymddeoliad.

**Nodiadau i'r Cyfrifon**
**ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008**

## 25. Pensiynau (parhâd)

### RHAGDYBIAETHAU

Y prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actiwari annibynnol i ddibenion cyfrifyddu yn unig yw:

| | **2008 %** | 2007 % |
|---|---|---|
| Cyfradd gostyngiad | 6.5 | 5.4 |
| Cyfradd cynnydd cyflogau | 4.9 | 4.8 |
| Cyfradd cynnydd y gordalu ar bensiynau lleiafswm gwarantedig cyn 97 | 3.4 | 3.3 |
| Cyfradd cynnydd y gordalu ar bensiynau lleiafswm gwarantedig ar ôl 97 | 3.3 | 3.3 |
| Rhagdybiaeth o ran chwyddiant | 3.4 | 3.3 |

O ganlyniad i'r rhagdybiaethau hyn, mae Ofcom wedi cofnodi ased pensiwn ar gyfer cyfrifyddu yn unol â FRS 17. Fodd bynnag, mae'r prisiadau actiwaraidd wedi dangos bod diffyg yng Nghynllun Pensiwn Ofcom, ac mae Ofcom yn gwneud cyfraniadau'n unol â'r prisiadau actiwaraidd i ariannu'r diffyg.

### MANTOLEN

Yr asedau yn y cynlluniau a'r gyfradd elw ddisgwyliedig oedd:

| | **Cyfradd elw hirdymor ddisgwyliedig ar 31 Mawrth 2008 %** | **Gwerth ar 31 Mawrth 2008 £'000** | Cyfradd elw hirdymor ddisgwyliedig ar 31 Mawrth 2007 % | Gwerth ar 31 Mawrth 2007 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Bondiau corfforaethol | 4.4 | 8,160 | 5.4 | 7,200 |
| Bondiau mynegrifol | 4.2 | 160,020 | 4.4 | 160,500 |
| Ecwitïau | 7.4 | 39,840 | 7.9 | 34,700 |
| Arian | 5.3 | 5,680 | 5.3 | 100 |
| **Cyfanswm gwerth yr asedau ar y farchnad** | | **213,700** | | **202,500** |
| Gwerth presennol rhwymedigaeth y cynllun | | (171,360) | | (190,430) |
| **Gwarged yn y cynlluniau** | | **42,340** | | **12,070** |
| Gwarged na ellir ei adennill | | (32,500) | | (5,900) |
| **Ased Pensiynau Clir** | | **9,840** | | **6,170** |

Mae FRS 17 yn rhagnodi, os oes gwarged mewn cynllun, na ellir ond ei gydnabod ar y fantolen os yw ar gael i'r cyflogwr fel ad-daliad cyfraniadau neu "wyliau cyfraniadau". Bu gostyngiad yn nifer yr aelodau gweithredol o'r cynllun, felly mae'r actiwariaid wedi cyfrifo gwarged na ellir ei adennill o £32.5 miliwn (2007: £5.9 miliwn). Mae hyn wedi'i godi ar y Datganiad o enillion a cholledion cydnabyddedig.

# Nodiadau i'r Cyfrifon
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008

## 25. Pensiynau (parhâd)

### DADANSODDIAD O'R SWM A GODWYD AR Y GWARGED GWEITHREDU

| | **2008 £'000** | 2007 £'000 |
|---|---|---|
| Cost gwasanaethu gyfredol | 3,290 | 2,920 |
| **Cyfanswm y tâl gweithredu** | **3,290** | **2,920** |

### DADANSODDIAD O'R SWM A GODWYD AR INCWM CYLLID ARALL

| | **2008 £'000** | 2007 £'000 |
|---|---|---|
| Elw disgwyliedig ar asedau'r cynlluniau pensiwn | 10,020 | 9,120 |
| Llog ar rwymedigaethau pensiwn | (10,170) | (9,290) |
| **Elw clir** | **(150)** | **(170)** |

### DADANSODDIAD O'R SWM SYDD WEDI'I GYDNABOD YN Y DATGANIAD O GYFANSWM YR ENILLION A CHOLLEDION CYDNABYDDEDIG

| | **2008 £'000** | 2007 £'000 |
|---|---|---|
| Elw gwirioneddol wedi tynnu'r elw disgwyliedig ar asedau'r cynlluniau | 4,660 | (380) |
| Enillion/(colledion) profiad sy'n codi o rwymedigaethau'r cynlluniau | (1,800) | 2,920 |
| Newidiadau yn y rhagdybiaethau sy'n sail i werth presennol rhwymedigaethau'r cynlluniau pensiwn | 23,940 | (2,140) |
| Cynnydd yn y gwarged na ellir ei adennill | (26,600) | (5,900) |
| **Enillion/(colledion) actiwaraidd sydd wedi'u cydnabod yn y Dadansoddiad hwn** | **200** | **(5,500)** |

Wedi'i gynnwys yn y gwarged na ellir ei adennill y mae swm o £0.4 miliwn (2007: dim) o gost gwasanaethu a byrhau yn y gorffennol

# Nodiadau i'r Cyfrifon
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008

### 25. Pensiynau (parhâd)

**SYMUDIAD YN Y GWARGED YN YSTOD Y FLWYDDYN**

| | **2008 £'000** | 2007 £'000 |
|---|---|---|
| Gwarged yn y cynlluniau ar 1 Ebrill | 6,170 | 10,200 |
| Cyfanswm y gost gwasanaethu gyfredol | (3,290) | (2,920) |
| Cyfraniadau'r cyflogwr (gan gynnwys y rhai sydd heb eu talu ar y dyddiad mesur) | 6,910 | 4,560 |
| Cost cyllid arall | (150) | (170) |
| Enillion/(colledion) actiwaraidd | 200 | (5,500) |
| **Gwarged yn y cynlluniau ar 31 Mawrth** | **9,840** | **6,170** |

Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn cynnwys £1.8 miliwn sydd wedi'i roi mewn ymddiriedolaeth. Ar ôl trosglwyddo arian i gyfrif yr ymddiriedolaeth a'i ddal ynddo, dim ond i un o'r ddau Gynllun Pensiwn Budd Diffiniedig y gellir ei dalu ac nid yw ar gael i'w ddefnyddio i unrhyw ddiben arall.

**HANES ENILLION A CHOLLEDION PROFIAD**

| | **2008** | 2007 | 2006 | 2005 |
|---|---|---|---|---|
| Y gwahaniaeth rhwng yr elw disgwyliedig a'r elw gwirioneddol o asedau'r cynlluniau | | | | |
| Swm (£'000) | 4,660 | (380) | 13,660 | 3,390 |
| Canran o asedau'r cynlluniau | 2.0% | (0.0%) | 6.9% | 2.0% |
| (Colledion)/enillion profiad o rwymedigaethau'r cynlluniau: | | | | |
| Swm (£'000) | (1,800) | 2,850 | (4,740) | 6,430 |
| Canran o werth presennol rhwymedigaethau'r cynlluniau | (1.0%) | 1.0% | (2.5%) | 4.1% |
| Y cyfanswm sydd wedi'i gydnabod yn y datganiad o gyfanswm y (colledion)/enillion cydnabyddedig: | | | | |
| Swm (£'000) | 200 | (5,500) | (9,580) | 9,820 |
| Canran o werth presennol rhwymedigaethau'r cynlluniau | (0.0%) | (3.0%) | (5.1%) | 6.2% |

# Nodiadau i'r Cyfrifon
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008

## 25. Pensiynau (parhâd)

### C) RHWYMEDIGAETHAU PENSIWN HEB EU HARIANNU

Mae'r ddarpariaeth pensiwn yn un sy'n gysylltiedig â'r rhwymedigaethau pensiwn sydd heb eu hariannu sy'n dod i ran Ofcom ar gyfer cyn-Gadeiryddion y Comisiwn Teledu Annibynnol a'r Awdurdod Radio a chyn-Gyfarwyddwyr Cyffredinol Telathrebu. Nid yw'r ddarpariaeth pensiwn wedi'i hariannu, a thelir y buddion fel y maent yn dod yn ddyledus ac yn warantedig gan Ofcom. Nid oes cronfa, ac felly nid oes gwarged neu ddiffyg. Ceisiwyd cyngor gan actiwari i sicrhau bod y ddarpariaeth wedi'i phennu ar lefel ymarferol.
Gwnaed prisiad actiwaraidd gan Towers Perrin ar 31 Mawrth 2008. Yr un oedd y seiliau a'r rhagdybiaethau a nodwyd uchod mewn cysylltiad â'r cynlluniau budd diffiniedig.

### DADANSODDIAD O'R SWM A DDEBYDWYD I GOSTAU CYLLID ERAILL

| | **2008 £'000** | 2007 £'000 |
|---|---|---|
| Llog ar rwymedigaethau pensiwn | (48) | (45) |
| **Elw clir** | **(48)** | **(45)** |

### DADANSODDIAD O'R SWM SYDD WEDI'I GYDNABOD YN Y DATGANIAD O GYFANSWM YR ENILLION A CHOLLEDION CYDNABYDDEDIG

| | **2008 £'000** | 2007 £'000 |
|---|---|---|
| Colledion profiad yn codi o rwymedigaethau'r cynlluniau | (55) | (13) |
| Newid yn y rhagdybiaethau sy'n sail i werth presennol rhwymedigaethau'r cynlluniau pensiwn | 78 | 12 |
| **Enillion/(colledion) actiwaraidd sydd wedi'u cydnabod yn y Datganiad** | | |
| **o Gyfanswm yr Enillion a Cholledion Cydnabyddedig** | **23** | **(1)** |

### SYMUDIAD YN Y DIFFYG YN YSTOD Y FLWYDDYN

| | | **2008 £'000** | 2007 £'000 |
|---|---|---|---|
| Diffyg yn y cynlluniau ar 1 Ebrill | | 909 | 921 |
| Cyfanswm y gost gwasanaethu gyfredol | | - | - |
| Cyfraniadau'r cyflogwr (gan gynnwys y rhai a oedd heb eu talu ar y dyddiad mesur) | | (58) | (58) |
| Cyfraniadau gweithwyr | - | - | |
| Costau cyllid eraill | | 48 | 45 |
| (Enillion)/colledion actiwaraidd | | (23) | 1 |
| **Diffyg yn y cynlluniau ar 31 Mawrth** | | **876** | **909** |

# Nodiadau i'r Cyfrifon
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008

## 26. Partïon cysylltiedig

Nid yw Ofcom o'r farn bod ei rôl rheoleiddio a thrwyddedu'n creu perthynas parti cysylltiedig rhyngddo a deiliaid trwyddedau fel y mae wedi'i diffinio gan Safon Adrodd Ariannol 8, "Trafodion Parti Cysylltiedig".

Mae Aelodau'r Bwrdd yn cyflwyno datganiad blynyddol sy'n cadarnhau nad oes ganddynt unrhyw fuddiannau sy'n niweidiol i'w swyddogaeth fel Aelod o Ofcom. Nid fu unrhyw drafodion prynu neu werthu rhwng Ofcom a'i Aelodau.

Ystyrir mai'r Ysgrifenyddion Gwladol dros yr Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio (BERR) a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) yw'r partïon cysylltiedig sy'n rheoli Ofcom dan delerau Deddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002.

Rhoddir manylion y benthyciad cyllid gan BERR yn Nodiadau 15 i 17 i'r datganiadau ariannol hyn. Rhoddir manylion yr holl incwm ar ffurf cymorth grant gan BERR a DCMS yn Nodyn 3 a Nodyn 13 i'r datganiadau ariannol hyn, yn y drefn honno.

Ar 31 Mawrth 2008, delid y credydwyr canlynol mewn cysylltiad â chymorth grant a roddwyd gan BERR:

- Rheoli sbectrwm – £25 miliwn (2007: £23.8 miliwn);
- Cynllun Effeithlonrwydd Sbectrwm – dim (2007: £0.2 miliwn);
- Clirio Sbectrwm – £0.7 miliwn
- Rhaglen dyfarniadau sbectrwm – £1.5 miliwn (2007: £0.9 miliwn);
- Gorfodi cyfraith cystadleuaeth – £0.5 miliwn (2007: £0.8 miliwn);
- Radio Cymunedol – £0.01 miliwn (2007: £0.4 miliwn);
- Llythrennedd yn y Cyfryngau – dim (2007: £0.1 miliwn)
- Prawf budd cyhoeddus – £0.3 miliwn (2007: £0.1 miliwn).

Gwnaeth Ofcom daliadau o £0.1 miliwn (2007: £0.1 miliwn) i Drysorlys EM mewn cysylltiad â chostau cyflogaeth llawn y cydweithwyr a secondiwyd gan BERR i Ofcom yn y flwyddyn. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd credydwr o ddim (2007: £0.2) yn ddyledus i Drysorlys EM.

## 27. Offerynnau ariannol

Nid yw Ofcom yn agored i unrhyw raddau sylweddol i risgiau o ran hylifedd, cyfraddau llog neu arian. Mae FRS 13, Deilliadau ac Offerynnau Ariannol Eraill, yn mynnu datgelu'r rhan a fu gan offerynnau ariannol yn ystod y flwyddyn o ran creu neu newid y risgiau y mae endid yn eu hwynebu wrth ymgymryd â'i weithgareddau.

Oherwydd natur ei weithgareddau a'r dull o ariannu Ofcom, nid yw'n agored i'r graddau o risg ariannol y mae endidau busnes yn eu hwynebu.

Yn ogystal â hynny, ychydig o ran y mae offerynnau ariannol yn ei chwarae wrth greu neu newid risg o'i chymharu â chwmnïau rhestredig sef yr hyn y mae FRS 13 yn gymwys iddo'n bennaf. Mae gan Ofcom bwerau cyfyngedig iawn i gymryd benthyg neu fuddsoddi arian sydd dros ben, mae'r holl ddyledion yn dwyn cyfraddau llog penodedig ac nid yw'r asedau a rhwymedigaethau ariannol a grëir drwy weithrediadau o ddydd i ddydd yn newid y risgiau y mae Ofcom yn eu hwynebu wrth ymgymryd â'i weithgareddau.

Nid oes gwahaniaeth sylweddol ar ddyddiad y fantolen rhwng gwerth teg a gwerth llyfr asedau a rhwymedigaethau ariannol.

Fel y mae FRS 13 yn caniatáu, mae dyledwyr a chredydwyr sy'n aeddfedu neu'n dod yn daladwy o fewn 12 mis ar ôl dyddiad y fantolen wedi'u hepgor o'r asesiad hwn.

## 28. Ymrwymiadau cyfalaf

Ar 31 Mawrth 2008 roedd ymrwymiadau cyfalaf o £1.1 miliwn (2007: £0.7 miliwn), a oedd yn ymwneud yn bennaf â'r rhaglen adnewyddu systemau gwybodaeth.

# Nodiadau i'r Cyfrifon
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008

### 29. Derbyniadau a drosglwyddwyd i'r Gronfa Gyfunol

Yn unol ag Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, anfonodd Ofcom £57.3 miliwn (2007: £59.5 miliwn) o Daliadau Ychwanegol y Ddeddf Darlledu a dirwyon i'r Gronfa Gyfunol ac i'r Trysorlysoedd.

Anfonwyd £173.6 miliwn (2007: £170.4 miliwn) o ffioedd trwyddedau Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr i BERR i'w trosglwyddo i'r Gronfa Gyfunol. Mae manylion y symiau a oedd yn ddyledus i'r Gronfa Gyfunol ar 31 Mawrth 2008 wedi'u datgelu yn Nodyn 13 i'r datganiadau ariannol hyn.

### 30. Rhwymedigaethau amodol

O bryd i'w gilydd, bydd Ofcom yn agored i heriau cyfreithiol ac adolygiadau barnwrol mewn cysylltiad â phenderfyniadau yn ystod cwrs arferol ei fusnes fel corff rheoleiddio'r sector cyfathrebu. Gallai dyfarniadau cyfreithiol achosi atebolrwydd am gostau cyfreithiol. Gwnaed darpariaeth yn y datganiadau ariannol hyn (gweler Nodyn 18) ar gyfer costau sy'n fesuradwy. Fodd bynnag, mewn rhai achosion ni ellir mesur y costau, am nad yw canlyniad yr achos yn wybyddus, ac mae cryn ansicrwydd oherwydd hynny o ran natur a graddau unrhyw atebolrwydd dilynol.

### 31. Cyfrifon y Llywodraeth gyfan

Ar 31 Mawrth 2008, roedd £29.2 miliwn (2007: £33 miliwn) yn ddyledus gan Ofcom ac nid oedd dim yn ddyledus i Ofcom gan gyrff llywodraeth ganolog. Nid oes unrhyw weddillau gydag awdurdodau lleol, Ymddiriedolaethau GIG neu gorfforaethau cyhoeddus a chronfeydd masnachu.

Mae datganiadau ariannol Adran 400 yn dangos bod £4.5 miliwn yn ddyledus i gyrff llywodraeth ganolog.

Wedi'i brintio ar bapur ag o leiaf 75 y cant cynnwys ffeibr ailgylchedig.